*Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.*

# Prosiect Cymru-gyfan 'Llunio Cwricwla'

## Prosiect Gwella Cydweithredol QAA Cymru a ariennir gan Medr


Prifysgol Bangor: Dr. Myfanwy Davies (MD, arweinydd y prosiect), Mr. Gwilym Siôn ap Gruffudd (GapG), Ms. Nyah Lowe

Prifysgol Caerdydd: Dr Emma Schofield

Prifysgol Wrecsam: Ms. Helen Weller (HW), Ms. Grace He (GH)

Prifysgol Abertawe: Ms. Sophie Leslie (SL), Mr. Ryan Jarvis (RJ), Dr. Angela Dalrymple (AD)

Prifysgol Technoleg Queensland: Dr. Karen Theobald (KT)



Gorffennaf 2024

# Cynnwys


Crynodeb gweithredol ... 1

1. Cefndir a chyd-destun ... 4

   1.1 Y Ddeddf ADY: cydweithrediad, llais y dysgwyr a chyflogadwyedd ... 4

   1.2 Adeiladu ar brosiectau Rhaglenni Cydweithredol Cymru ... 5

   1.3 Rheoleiddio a gwella ansawdd ... 6

2. Y dulliau ... 7

   2.1 Cydweithio ... 7

   2.2 Recriwtio a samplu ... 7

   2.3 Cyfweliadau ... 8

   2.4 Dadansoddi data ... 8

3. Y canlyniadau cyffredinol fesul grŵp ... 10

   3.1 Cofrestryddion a rheolwyr ansawdd ... 10

      3.1.1 Pa agweddau o brosesau llunio a chymeradwyo rhaglenni sy'n sicrhau gwelliant? ... 10

      3.1.2 Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth yng Nghymru ... 13

      3.1.3 Rhwystrau rhag gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ... 14

      3.1.4 Materion eraill ... 16

   3.2 Swyddogion sicrhau ansawdd a swyddogion cynllunio ... 16

      3.2.1 Pa agweddau o brosesau llunio a chymeradwyo rhaglenni sy'n sicrhau gwelliant? ... 16

      3.2.2 Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth yng Nghymru ... 19

      3.2.3 Rhwystrau rhag gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ... 20

   3.3 Arweinwyr y myfyrwyr a'r adolygwyr sy'n fyfyrwyr ... 21

      3.3.1 Pa agweddau o brosesau llunio a chymeradwyo rhaglenni sy'n sicrhau gwelliant? ... 21

      3.3.2 Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth yng Nghymru ... 24

      3.3.3 Rhwystrau rhag gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ... 24

   3.4 Cofrestryddion a rheolwyr ansawdd mewn colegau ... 24

      3.4.1 Pa agweddau o brosesau llunio a chymeradwyo rhaglenni sy'n sicrhau gwelliant? ... 24

      3.4.2 Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth yng Nghymru ... 26

      3.4.3 Rhwystrau rhag gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ... 27

   3.5 Academyddion yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill ... 28

3.5.1 Pa agweddau o brosesau llunio a chymeradwyo rhaglenni sy'n sicrhau gwelliant? ... 28
3.5.2 Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth yng Nghymru ... 30
3.5.3 Rhwystrau rhag gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ... 31
3.5.4 Materion eraill ... 32
3.6 Cynrychiolwyr cyrff y sector cyfan ... 32
3.6.1 Pa agweddau o brosesau llunio a chymeradwyo rhaglenni sy'n sicrhau gwelliant? ... 32
3.6.2 Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth yng Nghymru ... 34
3.6.3 Rhwystrau rhag gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ... 35
4. Y drafodaeth ... 37
4.1 Cydweithrediad cynnar wrth lunio cwricwla ... 37
4.1.2 Myfyrwyr yn gyd-grëwyr yn y camau cynnar o lunio cwricwla ... 38
4.2 Llais y myfyrwyr a hyfforddiant i'r myfyrwyr ... 38
4.3 Agweddau craidd y prosesau dilysu a llunio cwricwla sy'n sicrhau gwelliant ... 39
4.3.1 Defnyddio profiad y myfyrwyr yn fwy effeithiol ... 40
4.4 Risgiau a manteision DA ... 40
4.5 Darparu llwybrau addysgol rhanbarthol yng Nghymru ... 42
5. Y casgliadau a'r argymhellion ... 43
5.1 Mae'r arferion dilysu cyfredol yng Nghymru'n ychwanegu gwerth gwella ... 43
5.2 Trafodaethau cydweithredol cynnar ... 44
5.3 Gweithio tuag at bartneriaethau rhanbarthol mwy cydweithredol rhwng sefydliadau addysg uwch a cholegau ... 44
5.4 Argymhellion eraill ... 45
Atodiad 1: Grid o Godau Samplu a Dadansoddi (26.07.2024) ... 47

# Crynodeb gweithredol

Mae'r astudiaeth hon yn adrodd am Brosiect Gwella Cydweithredol oedd yn chwilio am brosesau llunio a dilysu cwricwla yn y sector addysg uwch yng Nghymru yr oedd rhanddeiliaid yn eu hystyried yn brosesau oedd yn werthfawr o ran darparu 'gwelliant'. Ein dealltwriaeth ninnau o welliant oedd cymryd camau pwrpasol ar sail tystiolaeth i wella profiadau dysgu'r myfyrwyr. Roedd yr astudiaeth hefyd yn ystyried sut y gellid alinio'r prosesau hyn yn well i hwyluso gwaith partneriaeth yng Nghymru, ac aeth ati i geisio darparu argymhellion ac arweiniad am y materion hyn.

Mae'r astudiaeth hon yn gobeithio cefnogi sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru wrth iddyn nhw fynd i'r afael â newidiadau mawr yn y tirlun addysg uwch. Nod Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 oedd creu system addysg integredig yng Nghymru oedd yn canolbwyntio ar y dysgwr [1]. Yn anad dim, mae Medr, sy'n weithredol ers Awst 2024, yn goruchwylio addysg bellach, addysg chweched dosbarth ac addysg uwch. Y meysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r astudiaeth hon, yr oedd y Ddeddf ADY yn gofyn i Medr ymdrin â nhw, yw cydweithrediad, llais y dysgwyr a chyflogadwyedd.

*Ers i'r adroddiad hwn gael ei gyflwyno i ddechrau, mae Medr wedi cyhoeddi ei fersiwn drafft o'i Strategaeth 2025-2030. Gan fyfyrio ar y Ddeddf ADY, cyflwynir gwaith Medr yn nhermau nodau strategol sy'n ymwneud â: hybu llwybrau dysgu a gyrfaol cydlynol drwy gydweithio, datblygu Cod Ymgysylltu â Dysgwyr i hwyluso cyfranogaeth myfyrwyr mewn prosesau gwneud penderfyniadau, a sicrhau bod deilliannau addysg wedi eu halinio ag anghenion y cyflogwyr a'r gymdeithas* [2]. *Ochr yn ochr â'r rhain mae ymrwymiadau i sicrhau ansawdd, gwaith ymchwil rhagorol ac annog ehangiad addysgu cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg drydyddol* [02].

Mae'r prosiect hwn yn cyflenwi ac yn adeiladu ar ddau brosiect Rhaglenni Cydweithredol Cymru sy'n disgrifio'r prosesau ac egwyddorion ar gyfer llunio a dilysu rhaglenni cyfredol ar draws y sector addysg uwch yng Nghymru ac egwyddorion diffiniedig ar gyfer gweithio'n fwy esmwyth mewn partneriaeth [3, 4].

Roedd yr astudiaeth yn defnyddio cyfweliadau ansoddol lled-strwythuredig gyda 44 o gyfranogwyr o amrywiaeth o grwpiau sy'n gysylltiedig â dilysu a datblygu rhaglenni yng Nghymru a thu hwnt. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cofrestryddion neu weithwyr cyfatebol
- Swyddogion sicrhau ansawdd a swyddogion cynllunio
- Rheolwyr mewn lleoliadau addysg bellach sy'n ymwneud â darparu addysg uwch
- Myfyrwyr ac arweinwyr myfyrwyr,
- Academyddion a fu'n gweithio fel cynigwyr rhaglenni ac arbenigwyr allanol, a
- Chynrychiolwyr cyrff y sector cyfan.

---

[1] Llywodraeth Cymru (2022). Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Llywodraeth Cymru, Caerdydd.

[2] Medr - y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. (2024) Cynllun Strategol 2025-2030: www.medr.cymru/cy/cynllun-strategol/

[3] QAA-CCAUC (2022) Buddsoddiad ac Adferiad AU CCAUC: Prosiect rhaglenni cydweithredol Cymru - pecyn adnoddau arweiniol: www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni/prif-feysydd-ein-gwaith/ein-gwaith-yng-nghymru/buddsoddiad-ac-adferiad-au-ccauc-prosiect-rhaglenni-cydweithredol-cymru-pevyn-adnoddau-arweiniol

[4] Jarvis, R. (2024) 'Collaborative Programmes Wales (Reframed Outcomes). Presentation of interim findings to Wales Quality Network', Mehefin 16eg, 2024.

I hwyluso'r cydweithio a oedd yn greiddiol i'r prosiect hwn, defnyddiwyd dadansoddiad fframwaith i drefnu data yn ôl fframwaith y cytunwyd arno ar draws y grŵp. Roedd y dull hwn hefyd wedi galluogi i'r dadansoddiad barhau â'i ffocws ar faterion sy'n berthnasol i bolisi.

Adroddir ar ganlyniadau gan grŵp o gyfranogwyr mewn perthynas â themâu a ddaeth i'r amlwg ar draws y grwpiau. Roedd y rhain yn agweddau sy'n sicrhau gwerth o ran gwelliant, gwaith partneriaeth effeithiol a rhwystrau rhag gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth yng Nghymru. Trafodwyd defnyddio technoleg, yn arbennig deallusrwydd artiffisial (DA), ar draws y cyd-destunau hyn, ond yn bennaf mewn perthynas ag ystyriaethau am welliant o ran llunio a chymeradwyo rhaglenni.

**Y drafodaeth a'r casgliadau**

Mae'r adrannau 'Y drafodaeth a'r casgliadau' yn ystyried ein canfyddiadau, gan ganolbwyntio'n bennaf ar y meysydd a ganlyn:

<u>Cydweithredu cynnar a sail eang wrth lunio cwricwla:</u> Gwerthfawrogwyd yn arbennig yr ymgysylltiad â chamau cysyniadol llunio rhaglenni, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys rhanddeiliaid diwydiannol, arbenigwyr allanol a myfyrwyr. Mae rhai sefydliadau'n darparu timau proffesiynol i helpu gyda llunio rhaglenni sy'n strategol bwysig, megis prentisiaethau gradd, lle gwelwyd tystiolaeth fod cyfranogaeth myfyrwyr a rhanddeiliaid yn werthfawr. Un peth a allai hwyluso cydweithredu yw sbrintiau dylunio, sy'n cywasgu'r broses gynllunio i mewn i ychydig ddyddiau. Fodd bynnag, mae hyn hefyd yn peri'r risg o gyfnerthu'r ddynameg pŵer sy'n bodoli'n barod, gan wthio safbwyntiau anacademaidd i'r ymylon o bosib. Efallai y byddai hyfforddi myfyrwyr amlddisgyblaethol i gyfrannu at lunio cwricwla'n ddull mwy addawol.

<u>Optimeiddio Ymgysylltiad y Myfyrwyr:</u> Mae cyfranogaeth gynnar gan fyfyrwyr yn arwain at gwricwla mwy dynamig a pherthnasol, gwell ymgysylltiad â myfyrwyr, a gwell deilliannau dysgu. Cafodd hyn ei gydnabod yma fel rhywbeth sy'n dod â gwir werth o ran gwella. Roedd cyfranogaeth y myfyrwyr yn y prosesau dilysu a'r camau cynnar o lunio cwricwla yn eang ond wedi peri ymatebion cymysg. Yn aml iawn ystyrir bod cyfranogaeth y myfyrwyr yn anghenraid rheoleiddiol sy'n werthfawr yn ei rinwedd ei hun, ond cydnabuwyd gan bawb bron bod angen rhoi mwy o gefnogaeth i hyn.

<u>Dyma agweddau craidd y prosesau dilysu a llunio cwricwla sy'n sicrhau gwelliant:</u> Yn y sector addysg uwch yng Nghymru, mae'r arferion dilysu cyfredol yn gwella addysgu drwy gynnwys amrywiaeth o randdeiliaid mewn trafodaethau cynnar ac alinio rhaglenni gydag amcanion strategol, sy'n ymwneud yn bennaf â chyflogadwyedd a dulliau addysgu arloesol ond sydd hefyd yn ymestyn i hyrwyddo dwyieithrwydd, cynhwysiant a chynaliadwyedd amgylcheddol. Nodwyd y gweithredwyr, prosesau a dogfennaeth yr oedd cyfranogwyr yn eu hystyried yn rhai sy'n gwella dysgu'r myfyrwyr. Fodd bynnag, mae cyfeiriadau ailadroddus at y ddogfennaeth sy'n ofynnol i gyflawni safonau sylfaenol (alinio deilliannau dysgu ag asesiadau ar draws rhaglen neu gyfeirio at Ddatganiadau Meincnodi Pwnc QAA) yn dangos bod angen rhagor o ymdrechion i ymwreiddio'r dull o wella yng Nghymru.

Nid yw cyfranogaeth myfyrwyr yn cael ei defnyddio'n ddigonol mewn dilysu ond mae'n cynnig mewnwelediadau hanfodol bwysig am newid dewisiadau, blaenoriaethau ac arddulliau dysgu. Rydym yn ystyried tystiolaeth ymchwil am fyfyrwyr 'Cenhedlaeth Z' sy'n gyfforddus â thechnolegau digidol a thechnolegau DA, sy'n ffafrio mynediad ar unwaith i wybodaeth a dysgu wedi'i integreiddio a chymorth lles. Ystyrir bod diddordeb myfyrwyr sy'n cyfranogi mewn cynllun cynhwysol ar gyfer anableddau a niwroamrywiaeth yn adnodd sefydliadol nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol.

<u>Risgiau a manteision DA mewn llunio a dilysu cwricwla:</u> Cafodd technolegau DA effaith sylweddol ar arferion dysgu ac addysgu'r cyfranogwyr yn yr astudiaeth. Defnyddir y ddadl ehangach am barodrwydd, moeseg, ymddiriedaeth a'r gwerth ychwanegol o ddefnyddio DA i roi ein canfyddiadau mewn cyd-destun. Yn benodol, mae DA yn dechrau cael ei ddefnyddio

wrth lunio cwricwla, gyda sefydliadau fel Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Dwyrain Llundain yn archwilio ei botensial i gynhyrchu syniadau a drafftiau cychwynnol. Fodd bynnag, mae pryderon parhaus am oblygiadau moesegol a chywirdeb cynnwys a gynhyrchir drwy ddefnyddio DA mewn addysgu ond hefyd mewn llunio a dilysu cwricwla. Mae'r canllawiau amrywiol am ddefnydd derbyniol o dechnolegau DA ar draws y sefydliadau'n tynnu sylw at yr angen brys am lywodraethu a rheolaeth wedi'u safoni.

Darparu llwybrau addysgol rhanbarthol yng Nghymru: Mae barn y cyfranogwyr am weithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau addysg uwch a cholegau sy'n darparu cyrsiau addysg uwch yng Nghymru'n derbyn ystyriaeth yng nghyd-destun y Ddeddf ADY a dyletswyddau Medr a'i blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg. Ystyriwyd cydweithredu rhwng sefydliadau addysg uwch a cholegau fel rhywbeth hanfodol er mwyn mynd i'r afael ag amcanion strategol megis gwella sgiliau'r gweithlu a gostwng anghydraddoldeb rhanbarthol. Cafodd y partneriaethau hyn eu cydnabod hefyd fel rhai sy'n gynyddol bwysig yn nhermau rhannu adnoddau, yn enwedig mewn meysydd arbenigol a hyrwyddo addysg ddwyieithog. Fodd bynnag, roedd heriau strwythurol, yn arbennig mewn perthynas â chystadlaethau go iawn a chanfyddedig, yn rhwystro partneriaethau dyfnach. Bydd angen cymorth ac aliniad strategol ar draws y sector addysg i fynd i'r afael â'r problemau hyn.

**Argymhellion**

Mae argymhellion sy'n ymwneud â **llunio a dilysu rhaglenni** yn cynnwys datblygu egwyddorion a chanllawiau i Gymru gyfan ar sut i ddefnyddio DA mewn ffordd foesegol wrth lunio cwricwla, ochr yn ochr â chanllaw arferion da ar sut i ddefnyddio DA mewn meysydd addysgu penodol. Awgrymir hefyd y dylid datblygu cynllun peilot i safoni a chyfoethogi hyfforddiant myfyrwyr, gan greu cronfa drwy Gymru gyfan o bosib o fyfyrwyr sy'n arbenigwyr mewn meysydd anarferol. Yn ogystal, mae'r argymhellion yn pwysleisio rhannu arferion da sy'n dod i'r amlwg o adroddiadau Adolygiad GA er mwyn codi ymwybyddiaeth pobl broffesiynol o welliant yn hytrach na chydymffurfiad â'r safonau y cytunwyd arnynt gan y sector. Rydym hefyd yn awgrymu datblygu rhestr wirio ar gyfer ymgorffori cyfraniadau amrywiaeth o randdeiliaid yn y camau cynnar o lunio rhaglenni.

Mae ein hargymhellion ynglŷn â **chefnogi dull mwy integredig o weithio mewn partneriaeth ar draws sefydliadau addysg uwch a cholegau** yng Nghymru'n cynnwys adnabod ymyriadau sy'n cefnogi cynllunio cydweithredol clir ar lefel y rhaglen a'r bartneriaeth. Mae'r broses hon yn cynnwys diffinio llwybrau dilys i fyfyrwyr sy'n arwain i mewn i addysg uwch ac yn ymdrin â materion diwylliannol a chystadleuol. Mae argymhellion pellach yn cynnwys cymryd rhan mewn archwiliad cydweithredol didwyll o'r gystadleuaeth a rhoi gwell cydnabyddiaeth i staff mewn sefydliadau addysg uwch sy'n cefnogi ac yn adeiladu gallu staff addysg uwch mewn colegau. Yn ogystal, dylid datblygu rhestr o'r arferion gorau drwy Gymru gyfan, yn cynnwys mewn perthynas â materion fel trosglwyddo credydau a chydnabod dysgu profiadol blaenorol, i roi arweiniad i sefydliadau mewn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth.

Mae argymhellion **mewn meysydd eraill** yn ymwneud ag archwilio cydweithrediadau rhyngsefydliadol anacademaidd, yn arbennig mewn meysydd fel lles y myfyrwyr. Rydym yn argymell bod sefydliadau addysg uwch yn gweithio'n fwy estynedig gydag undebau myfyrwyr i ddeall patrymau astudio, dewisiadau ac anghenion dysgu myfyrwyr, ac i ymgysylltu mewn llygadu'r gorwel i weld modelau newydd a pherthnasol mewn llunio cwricwla. Mae un argymhelliad terfynol yn ymwneud â chyflwyno dyraniadau neu gyfnodau sabothol gwella bychain i staff sydd â rolau arweiniol mewn addysgu. Gallai'r rhain fod yn debyg i ddyraniadau ymchwil a byddent yn hwyluso mwy o archwiliad ac arweiniad mewn llunio cwricwla mewn meysydd astudio penodol.

# 1. Cefndir a chyd-destun

Cafodd y prosiect hwn ei ariannu gan QAA Cymru a Medr (sef Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru neu CCAUC gynt) fel Prosiect Gwella Cydweithredol ym mis Ionawr 2024 a rhedodd hyd 31 Gorffennaf 2024. Cafodd rhai agweddau o'r adroddiad eu diweddaru ym mis Tachwedd 2024. Cafodd y prosiect ei weithredu gan gonsortiwm o brifysgolion yng Nghymru (Abertawe, Caerdydd a Wrecsam) dan arweiniad Prifysgol Bangor.

Mae'r sector addysg uwch yng Nghymru'n wynebu cyfres benodol o gyfleoedd mewn perthynas â chydweithrediad, ymgysylltiad y myfyrwyr a chyflogadwyedd. I ymdrin â'r cyfleoedd hyn, dyma oedd amcanion y prosiect:

1. Nodi prosesau llunio a dilysu cwricwla ar draws y sector addysg uwch yng Nghymru sy'n ychwanegu gwerth gwella ym marn rhanddeiliaid.
2. Nodi'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n berthnasol i gyflawni mwy o aliniad mewn prosesau llunio a dilysu cwricwla ar draws y sector addysg uwch yng Nghymru.
3. Gwneud argymhellion i'r sector a phennu camau nesaf.

## 1.1 Y Ddeddf ADY: cydweithrediad, llais y dysgwyr a chyflogadwyedd

Roedd Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (y Ddeddf ADY) yn cynrychioli atgyweiriad strategol o dirlun addysg drydyddol ac ymchwil Cymru [1]. Arweiniodd y Ddeddf ADY at sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, sef Medr erbyn hyn, i gymryd lle CCAUC fel y corff rheoleiddio yng Nghymru. Dechreuodd Medr ei weithredoedd ar 1 Awst 2024 ac mae ganddo bwerau dros addysg bellach a darpariaeth chweched dosbarth yn ogystal ag addysg uwch.

Roedd y Ddeddf ADY yn amlinellu dyletswyddau strategol i dywys y Comisiwn ac, yn fwy diweddar, swyddogaethau Medr. Mae tri o'r meysydd hyn o berthnasedd arbennig i'r prosiect hwn.

- Dull dysgwr-ganolog

Mae ymgynghoriad â dysgwyr a myfyrdod ar farn y dysgwyr yn ofynnol yn y broses o wneud penderfyniadau am gyllido, sicrhau ansawdd a blaenoriaethau strategol. Mae angen cael mecanweithiau ar bob lefel o'r system addysg drydyddol i sicrhau y gofynnir yn weithredol am brofiadau a safbwyntiau'r dysgwyr ac y gweithredir arnynt. Mae'n dasg gan y Comisiwn, ac yn fwy diweddar Medr, i ddatblygu Cod Ymgysylltu â Dysgwyr gorfodol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gallu lleisio eu barn am ansawdd addysgol a chyfranogi mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Bydd hi'n orfodol i ddarparwyr addysg uwch cofrestredig gydymffurfio â'r cod hwn.

- Hybu cydweithrediad

Un o brif ddyletswyddau Medr sydd wedi eu nodi yn y Ddeddf ADY yw meithrin cydweithrediad ar draws y sector addysg drydyddol, gan sicrhau bod sefydliadau addysg uwch a cholegau sy'n cynnig darpariaeth addysg uwch ac addysg bellach yn gweithio â'i gilydd yn hytrach nag mewn cystadleuaeth, yn enwedig mewn meysydd fel llunio cwricwla a chynllunio'r gweithlu. Mae'r Ddeddf yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydweithio mewn cyflawni anghenion sgiliau rhanbarthol a mynd i'r afael â heriau economaidd a chymdeithasol. Disgwylir i brifysgolion a cholegau sy'n cynnig darpariaeth addysg uwch neu ddarparwyr addysg bellach gydweithio â'i gilydd ac mae gofyn iddyn nhw hefyd weithio gyda chyflogwyr ac awdurdodau lleol i alinio eu cynigion â blaenoriaethau rhanbarthol. Er nad yw cydweithio wedi ei fandadu'n benodol, mae'r Ddeddf yn gofyn i sefydliadau alinio gyda chynllun strategol y Comisiwn (sef Medr erbyn hyn), sy'n ofynnol i hyrwyddo cydweithio fel egwyddor allweddol.

Mae'r Ddeddf yn rhagweld y byddai angen i ddarparwyr ddangos eu bod yn cydweithio wrth iddynt wneud cais am grantiau neu gyllid, yn enwedig ar gyfer prosiectau sy'n targedu blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol. Anogir cydweithrediad hefyd i ddarparu dulliau addysgu arloesol, adnoddau a rennir, a chyfleoedd i symud ymlaen i ddysgwyr, fel cyrsiau ar y cyd neu raglenni hyblyg sy'n rhychwantu addysg bellach ac addysg uwch.

- Integreiddio cyflogadwyedd i mewn i addysgu

Mae'r Ddeddf ADY yn pwysleisio pwysigrwydd rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i ddysgwyr ar gyfer dysgu gydol oes a llwyddiant gyrfaol. Mae'n creu fframwaith sy'n rhoi cymhelliant cryf i integreiddio cyflogadwyedd mewn addysgu drwy:

- alinio cwricwla â'r galw gan y farchnad lafur
- hyrwyddo hyfforddiant galwedigaethol a phrentisiaethau
- meithrin partneriaethau gyda chyflogwyr a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol
- cefnogi dysgu gydol oes a datblygu'r gweithlu.

Mae'r dull strategol a amlinellir yn y Ddeddf yn annog datblygiad rhaglenni a mentrau sy'n alinio deilliannau addysg gydag anghenion y diwydiant, gan felly wella rhagolygon gyrfaol y myfyrwyr a chyfrannu at dwf economaidd.

Gan adlewyrchu'r gorchymyn cychwynnol hwn, mae pum nod strategol arfaethedig Medr ar gyfer 2025-30 yn cynnwys ffocws arbennig ar lais y dysgwyr, cyflogadwyedd a chreu llwybrau dysgu cydlynol [2]:

1. *sicrhau bod y sector addysg drydyddol yn canolbwyntio ar anghenion dysgwyr - eu profiad, eu cyflawniad a'u llesiant, sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys mewn prosesau penderfynu, a hybu cyfranogiad mewn dysgu ar bob adeg mewn bywyd*
2. *creu system addysg a hyfforddiant gydlynol lle gall pawb gaffael y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt i gael effaith go iawn ar economi a chymdeithas sy'n newid.*

Mae hyrwyddo teithiau cydlynol myfyrwyr ar draws ac o fewn addysg bellach ac addysg uwch, yn ganolog i nodau Medr o fewn ei phum mlynedd gyntaf o weithredu. Mae Medr yn ymroddedig hefyd i gwblhau Cod Ymgysylltu â Dysgwyr a lansio fforwm llais y dysgwyr erbyn mis Awst 2026. Mae nodau strategol eraill yn ymwneud ag ymrwymiadau i safonau ymchwil, ansawdd ac annog tyfiant darpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y sector addysg drydyddol.

## 1.2 Adeiladu ar brosiectau Rhaglenni Cydweithredol Cymru

Mae'r prosiect hwn yn adeiladu ar, ac yn alinio gyda, dau brosiect Rhaglenni Cydweithredol Cymru (RhCC) sy'n archwilio'r potensial am fwy o aliniad rhwng strwythurau gwneud penderfyniadau, rheoliadau ac arferion ar draws y sectorau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru.

Roedd prosiect cam 1 Rhaglenni Cydweithredol Cymru (RhCC1) yn dadansoddi prosesau dilysu saith sefydliad addysg uwch yng Nghymru [2, 3]. Roedd yn archwilio prif nodweddion a chamau'r prosesau hyn, gan nodi amrywiaeth sylweddol yn y ddogfennaeth, y fformat a'r dull. Fodd bynnag, er ei fod yn cydnabod yr amrywiadau hyn, canfu dystiolaeth o orgyffwrdd sylweddol a chysondeb o amgylch egwyddorion sylfaenol, yn enwedig mewn perthynas â ffurf a pharamedrau allanolrwydd, adolygiad cymheiriaid, cyfranogaeth rhanddeiliaid academaidd a dadansoddiad o achosion busnes.

Mae astudiaeth cam 2 RhCC yn dilyn yr un amseriadau â'n prosiect. Bydd RHCC2 yn ceisio amlinellu proses lywodraethu ddrafft ar gyfer darpariaeth gydweithredol ac yn awgrymu sut

y gallai sefydliadau ddatblygu proses i adnabod rheoliadau, prosesau a dogfennaeth i'r un graddau, gan ddefnyddio egwyddorion RhCC o aliniad, adnabod, cyflenwi, cynaliadwyedd a symlrwydd [4].

Roeddem yn ymwybodol o'r risg o orgyffwrdd rhwng ein prosiect a'r prosiectau RhCC, ond roeddem wedi ceisio canolbwyntio ar werth *gwelliant* systemau cyfredol yn hytrach na'u haliniad. Mae trafodaethau o amgylch partneriaethau'n wahanol iawn hefyd oherwydd ein defnydd o gyfweliadau manwl yn yr astudiaeth hon.

## 1.3 Rheoleiddio a gwella ansawdd

Mae'r Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru, [5] yn alinio gyda fframweithiau ansawdd i'r DU gyfan, fel y maent wedi eu rhoi ar waith gan QAA. Mae sefydliadau addysg uwch yng Nghymru'n cael eu gwerthuso gan ddefnyddio'r dull Adolygiad Gwella Ansawdd (Adolygiad GA). Mae'r broses hon yn cynnwys cyflwyniad cynhwysfawr gan ddarparwr sy'n cynnwys mewnbwn gan fyfyrwyr a chyfranogaeth gan amrywiol randdeiliaid yn ystod yr ymweliad adolygu. Mae'r dull gwella'n annog sefydliadau yn y sector yng Nghymru i adnabod cyfleoedd yn unigol ac ar y cyd ar gyfer gwella profiadau'r myfyrwyr, hyd yn oed pan gyflawnir y safonau a'r ansawdd sylfaenol. Yn ganolog i'r system hon mae ymrwymiad i 'welliant', sy'n cael ei ddiffinio fel a ganlyn:

> "… y broses o ddefnyddio tystiolaeth i gynllunio, gweithredu a gwerthuso camau pwrpasol i wella profiad dysgu'r myfyrwyr" [6].

Mae'r diffiniad hwn o welliant yn tanategu'r prosiect fel bod cwestiynau am 'werth gwella' elfennau dilysu wedi'u bwriadu i adnabod agweddau sy'n defnyddio tystiolaeth, y deellir eu bod yn cynnwys mewnwelediadau cyd-destunol a phrofiadol, i gynllunio gwella profiadau dysgu'r myfyrwyr.

[5] Atherton, G., Lewis, J., Bolton, P. (2024) 'Higher education in the UK: Systems, policy approaches, and challenges'. Brîff am waith ymchwil. Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Gorffennaf 15fed: https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/CBP-9640/CBP-9640.pdf

[6] QAA Cymru (2023) 'Y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd', Awst 2023. QAA Cymru, Caerdydd: www.qaa.ac.uk/docs/qaa/guidance/quality-enhancement-review-handbook-welsh.pdf

# 2. Y dulliau

Defnyddiwyd dull ansoddol i sicrhau mewnwelediadau perthnasol gan randdeiliaid o amrywiaeth o grwpiau a bennwyd fel rhai sy'n allweddol i ddatblygiad a chymeradwyaeth y rhaglen ar draws y sector addysg uwch ac o fewn darpariaeth addysg uwch yn y sector addysg bellach yng Nghymru.

## 2.1 Cydweithio

Mae'r prosiect hwn yn dangos elfennau nodweddiadol o'i natur gydweithredol drwyddo draw. Roedd y tîm ymchwil yn cyfarfod bob pythefnos drwy gydol y cyfnod 6 mis o astudio i drafod sut yr oedd pethau'n dod yn eu blaen o ran ei sefydliad, recriwtiad, dadansoddiad data ac ysgrifennu adroddiadau. Cyfrannodd bob aelod o'r tîm ymchwil cychwynnol at recriwtio cyfranogwyr. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cymryd rhan mewn gwaith dadansoddi data (GapG, AD, MD, GH, SL, KT a HW), cyfrannodd grŵp o 5 at ysgrifennu adroddiadau (GapG, AD, MD, RJ a HW) ac awdur yr adroddiad cyfan oedd arweinydd y prosiect. O ystyried y maint gweddol fawr o ddata, ei gynnwys cyfoethog a'i gyfyngiadau amser, cafodd dau academydd uwch a recriwtiwyd i ddechrau fel cyfranogwyr eu gwahodd hefyd i ymuno â'r timau ysgrifennu a dadansoddi data. Cafodd polisi cyhoeddus ei gyhoeddi a'i gytuno yn fuan yn natblygiad y prosiect i egluro rolau a chyfraniadau disgwyliedig i lunio adroddiadau a'u lledaeniad. Lledaenwyd y canfyddiadau interim o fewn tîm y prosiect gan MD a SL.

## 2.2 Recriwtio a samplu

Darparwyd caniatâd moesegol i'r astudiaeth gan Goleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithas Prifysgol Bangor a defnyddiwyd dogfennaeth gymeradwy i gysylltu, hysbysu a sicrhau cydsyniad gan gyfranogwyr. Rhannwyd canllaw pwnc gyda chyfranogwyr, yn cynnwys cwestiynau eang sydd i dderbyn sylw, cyn y cyfweliadau er mwyn rhoi amser iddyn nhw fyfyrio ar faterion allweddol cyn y cyfweliad.

Roedd aelodau o'r grŵp ymchwil yn defnyddio eu rhwydweithiau o fewn eu sefydliadau eu hunain a'u mynediad i'r sector yng Nghymru ac wedi recriwtio cyfranogwyr gan ddefnyddio techneg samplu bwrpasol a rhywfaint o samplu pelen eira. Cafodd cyfranogwyr eu recriwtio o'r grwpiau a ganlyn:

- Cofrestryddion neu weithwyr cyfatebol
- Penaethiaid Ansawdd
- Swyddogion cynllunio neu swyddogion sicrhau ansawdd
- Academyddion a fu'n arwain y gwaith o ddatblygu neu ail-gymeradwyo'r rhaglen
- Myfyrwyr sy'n ymwneud â dilysu rhaglenni ac arweinwyr Undeb y Myfyrwyr.

Aethom ati i recriwtio o leiaf un cyfranogwr ym mhob grŵp o bob sefydliad addysg uwch yng Nghymru ac o gorff sy'n cynnig dysgu ar-lein a dysgu o bell yng Nghymru. Aethom ati i recriwtio cyfranogwyr o ddau sefydliad addysg bellach mawr sy'n cynnig darpariaeth addysg uwch, un yng Ngogledd Cymru a'r llall yn Ne Cymru. Recriwtiwyd a chyfwelwyd cyfanswm o 34 cyfranogwr gennym o'r sector yng Nghymru.

Recriwtiwyd a chyfwelwyd chwe chynrychiolydd gennym hefyd o gyrff sector addysg y DU, gan gynnwys Cymru ac o un corff proffesiynol o leiaf er mwyn mesur a chymharu eu barn â rhai gweithredwyr sy'n ymwneud yn agosach â datblygu rhaglenni a gweithio mewn partneriaeth o ddydd i ddydd yng Nghymru.

Unwaith yr oedd y gwaith cyntaf o ddadansoddi data wedi cychwyn, ac yn dilyn trafodaeth o fewn y grŵp ymchwil, ac er mwyn canolbwyntio ar rai meysydd allweddol o welliant yn

fanylach, aethom ati i recriwtio pedwar academydd uwch pellach, dau o'r sector addysg yn Lloegr a dau o sectorau gweddol gymaradwy yn Ne Affrica ac Awstralia.

Cyfranogodd 44 o gyfranogwyr i gyd yn yr astudiaeth.

Mae dadansoddiad o'r cyfranogwyr fesul math o sefydliad a rôl i'w gael yn Atodiad 1. Cafodd codau eu defnyddio i ddiogelu anonymedd ac i gyfeirio at y sefydliad a'r rôl eang a gymerwyd mewn gwelliant. O ystyried yr amrywiaeth o grwpiau sy'n gwneud penderfyniadau ac amrywiaeth y teitlau swyddi o fewn y sector, nid yw ychydig o godau a ddyrannwyd ar y dechrau'n disgrifio swyddogaeth pob cyfranogwr yn gywir. Mae'r materion hyn, a disgrifiad eang o rolau'r cyfranogwyr wedi eu cynnwys cyn pob adran o'r canlyniadau.

## 2.3 Cyfweliadau

Cafodd pob cyfweliad ei gynnal ar y platfform 'MS Teams' gan ymchwilwyr y prosiect (GapG) neu arweinydd y prosiect (MD). Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn Saesneg, ond cynhaliwyd rhai yn Gymraeg yn unol â dewisiadau'r cyfranogwyr. O ystyried bod natur y gwaith yn ymwneud â pholisi a bod yr amser yn gyfyngedig, datblygodd y tîm ddull pragmatig o ofyn cwestiynau mewn cyfweliadau, gan ganolbwyntio i ddechrau ar elfennau o ddilysiad (deunyddiau a gweithredwyr) cyn ystyried pa elfennau ehangach oedd yn darparu gwerth o ran gwelliant. Ymdriniwyd â DA drwy gwestiynau am ei oblygiadau ar gyfer addysgu ac asesu ac archwiliwyd partneriaethau drwy gwestiynau am rwystrau a hyrwyddwyr. Roedd dadansoddiad cynnar o'r data'n awgrymu nad oedd angen rhoi'r ffocws penodol iawn ar ddeunyddiau a gweithredwyr er mwyn helpu cyfranogwyr i mewn i drafodaeth fanwl am werth gwelliant yr agwedd gyfredol neu'r broses ac roedd wedi achosi rhywfaint o ddyblygiad.

## 2.4 Dadansoddi data

O ystyried natur gydweithredol y gwaith, cyfyngiadau amser a'r angen i gynhyrchu casgliadau ac argymhellion perthnasol i bolisi, dewisodd y tîm ymchwil ddefnyddio dull Dadansoddi Fframwaith i ddadansoddi data [7]. Mae'r dull hwn yn darparu dull strwythuredig o ddadansoddi data ansoddol, gan olygu ei fod yn ddefnyddiol i gynnig mewnwelediadau penodol i grwpiau penodol a'u cymharu o fewn ac ar draws grwpiau, gan gadw ffocws ar feysydd o ddiddordeb [8]. Mae'n arbennig o ddefnyddiol ar gyfer gwaith cydweithredol oherwydd mae'n gofyn creu a defnyddio fframwaith dadansoddol drwy bum cam allweddol:

1. Ymgyfarwyddo â data
2. Adnabod fframwaith thematig
3. Cyfeirio holl ddata'r astudiaeth yn erbyn y fframwaith
4. Defnyddio siartiau i grynhoi'r data wedi'i fynegeio a
5. Mapio a dehongli patrymau a ganfuwyd yn y siartiau.

I ddechrau, defnyddiodd pawb a gyfrannodd at y dadansoddiad data strwythur y cwestiynau cyfweld i roi'r prif bwyntiau a wnaed mewn tabl. Cynhwyswyd rhai dyfyniadau hefyd i ddarparu cyd-destun. Aethom ati i ddyrannu samplau o gyfweliadau yn unol â'r grwpiau o gyfranogwyr (felly byddai un aelod o'r tîm yn ystyried swyddogion sicrhau ansawdd er enghraifft). Roedd hyn o gymorth i'n helpu i ddeall gwahaniaethau ac elfennau tebyg ar draws grwpiau yn y cam cychwynnol. Ni ddadansoddodd unrhyw gyfranogwr eu cyfweliad eu hunain.

---

[7] Ritchie, J., a Spencer, L. (1994). 'Qualitative data analysis for applied policy research'. Yn A. Bryman a R. Burgess (golygyddion), *Analyzing qualitative data* (tud. 305-329). Routledge, Llundain ac Efrog Newydd.

[8] Spencer, L., Ritchie, J., O'Connor, W., Morrell, G., ac Ormston, R. (2014). 'Analysis in practice'. Yn J. Ritchie, J. Lewis, C. M. Nicholls a R. Ormston (golygyddion), *Qualitative research practice: A guide for social science students and researchers* (yr ail argraffiad, tud. 295-345). Sage, Llundain.

Defnyddiwyd nifer o gyfarfodydd y tîm ymchwil i ddatblygu'r fframwaith thematig lle ystyriwyd materion allanol yn fanwl er mwyn sicrhau na fyddai meysydd oedd yn dechrau dod i'r amlwg yn cael eu hanwybyddu. O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, ystyriwyd yr ymatebion oedd yn ymwneud â DA yn nhermau dilysu a datblygu rhaglenni ac yn llai aml o dan waith partneriaeth, ac ni chânt eu hystyried ar wahân. Ar y pwynt yma, daethpwyd i'r casgliad bod gan gyfranogwyr yn y grŵp addysg uwch mewn addysg bellach safbwyntiau digon unigryw i elwa o gael eu hystyried a'u cyflwyno ar wahân. Ystyrir data o gyfweliadau gydag academyddion y tu allan i'r sector addysg uwch yng Nghymru yn annibynnol hefyd. Gwnaethpwyd camau 3-5 gan arweinydd y prosiect a rhannwyd dadansoddiad gyda'r tîm wrth iddo ddod ar gael.

Adroddir y data yn unol â'r fframwaith thematig a grëir gan y grŵp ymchwil, a datblygir is-themâu wedyn gan y prif ymchwilydd a'u rhannu gyda'r grŵp ymchwil i dderbyn eu cytundeb. Rydym wedi ceisio pwysleisio'r pwyntiau a wnaed gan fwy nag un cyfranogwr wrth adrodd y data, ond mae pwyntiau sy'n egluro safbwyntiau mwy cyffredinol neu bwyntiau a farnwyd yn ddefnyddiol gennym wedi eu cynnwys hefyd fel pwyntiau bwled. Rydym wedi defnyddio codau cyfranogwyr drwyddo draw.

# 3. Y canlyniadau cyffredinol fesul grŵp

Mae'r adran hon yn adrodd am y canlyniadau wedi eu trefnu yn y dull 'fframwaith'. Ystyrir y canlyniadau fesul grŵp o gyfranogwyr, fel bod modd olrhain y gwahaniaethau a'r elfennau tebyg o fewn ac ar draws grwpiau. Rydym wedi ceisio canolbwyntio ar themâu a godir gan fwy nag un cyfranogwr ymhob grŵp, ond pan fydd un cyfranogwr wedi cynnig mwy o fanylion am safbwynt a rennir gan nifer, neu pan fydd rhywun wedi cyfeirio at faes newydd defnyddiol, rydym wedi cynnwys y drafodaeth hon hefyd mewn pwyntiau bwled.

## 3.1 Cofrestryddion a rheolwyr ansawdd

Roedd gan gyfranogwyr yn y grŵp hwn oruchwyliaeth dros y broses ddilysu hefyd neu roeddent yn rheoli neu'n arwain y broses o gymeradwyo rhaglen. Roedd cyfranogwr tramor yn gyfrifol am gydgysylltu cyfres o raglenni ar safleoedd amrywiol ar draws 10 prifysgol. Roedd rhai cyfranogwyr yn canolbwyntio ar gefnogi timau'r rhaglenni wrth lunio, addasu neu ddiweddaru cwricwla, yn cynnwys cynnig cyngor pedagogaidd ynghyd â monitro parhaus ar gyfer adolygiadau ansawdd ac ail-ddilysu.

Roedd eraill yn gwneud rolau sicrhau ansawdd neu weinyddol mwy traddodiadol, megis gweithredu fel ysgrifennydd panel, cysylltu â'r swyddfa academaidd i wella dogfennaeth rhaglenni a diwydrwydd dyladwy, sicrhau bod gofynion cyrff proffesiynol, statudol neu reoleiddio (cyrff PSRh) yn cael eu diwallu ond hefyd yn cymryd rolau mwy creadigol, megis symleiddio a datblygu'r prosesau cymeradwyo.

### 3.1.1 Pa agweddau o brosesau llunio a chymeradwyo rhaglenni sy'n sicrhau gwelliant?

Er bod ein ffocws ar welliant, roedd y cyfranogwyr hynny oedd â'u ffocws ar safonau ansawdd yn bennaf, yn tueddu i bwysleisio cydymffurfiaeth â ffactorau sefydliadol ac allanol megis yr angen i gyflawni gofynion rheoleiddiol cyrff PSRh, gweithio o fewn rheoliadau mewnol a rheoli disgwyliadau academyddion am amseriadau (SA1GC1, SACRh1, SA2GC1, SA2PA1).

Cafwyd amrywiaeth eang o sylwadau am ba weithredwyr yn y broses oedd wedi darparu'r gwerth gwella mwyaf. Ystyriwyd bod arbenigwyr allanol yn dod â safbwyntiau arbennig o werthfawr, yn enwedig lle'r oedd ganddynt ddealltwriaeth am addysgu perthnasol i waith (SA2PA1, SA4PA1, SA8PA2, SA9PA1).

Ystyriwyd bod cyfranogaeth y myfyrwyr mewn prosesau datblygu cwricwla neu eu cymeradwyo'n ffurfiol yn dod â safbwyntiau defnyddiol, yn enwedig mewn perthynas ag asesu a llwyth gwaith, ond ystyriwyd bod eu cyfranogaeth yn ofyniad rheoleiddiol hefyd (SA2PA1, SA4PA1, SA7PA3). Mae sylw gan un cyfranogwr yn dangos y safbwyntiau hyn: *"Mae'n rhaid i chi eu cael nhw ond mae rhai ohonyn nhw'n eich synnu chi weithiau ac maen nhw'n gweld rhywbeth, asesiad fel arfer, a fyddai wedi bod yn wir broblem neu a fyddai wedi achosi canlyniadau nad oeddent wedi eu bwriadu …"* (SA4PA1).

Dyma rai gweithredwyr eraill a ystyriwyd yn werthfawr i'r broses: timau'r rhaglenni (SA7PA1, SA8PA2), cadeiryddion panelau dilysu (SA2PA1, SA7PA3), cyrff PSRh (SA2PA1), partneriaid yn y diwydiant (SA7PA3) a thîm cyflogadwyedd y brifysgol (SA4PA10). Ar y llaw arall, rhoddwyd y gorau mewn un sefydliad i rôl adolygwyr sy'n gymheiriaid ar draws y sefydliad oherwydd ystyriwyd eu bod yn rhoi adborth weithiau oedd yn benodol i bwnc ac yn gostwng ffocws ac effeithiolrwydd y broses gymeradwyo derfynol.

Ar draws y grŵp o gofrestryddion a rheolwyr ansawdd, roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi dogfennaeth rhaglen glir a rhesymegol oedd yn cofnodi'r rhyngweithio rhwng y partïon perthnasol: academyddion, arbenigwyr o fyd diwydiant ac arholwyr allanol. Gan adlewyrchu'r ffaith bod adolygiad gan gymheiriaid allanol yn ganolog i'r grŵp hwn, canfu'r cyfranogwyr bod

adroddiadau adolygu ar gyfer arholwyr allanol yn hanfodol. Fodd bynnag, gan fyfyrio ar y ffocws cynyddol ar ddeilliannau dysgu'r myfyrwyr, roedd rhai cyfranogwyr yn ystyried bod adroddiadau am gyflogadwyedd yr un mor ddefnyddiol ag adolygiad allanol. Roedd y cyfranogwyr hynny yr oedd eu ffocws ar wella a llunio cwricwla hefyd yn gwerthfawrogi ymchwil cymharol ar gyrsiau eraill, tystiolaeth o aliniad â chydweithwyr oedd yn cyfranogi yn strategaeth y brifysgol, deilliannau graddedigion, myfyrwyr, datblygiad staff a strategaeth asesu wedi'i diffinio'n glir.

#### 3.1.1.1 Aliniad ag amcanion strategol

Roedd y cyfranogwyr yn tynnu sylw'n gyson at yr angen am aliniad ag amcanion strategol y brifysgol, gan sicrhau bod dilysu rhaglenni a llunio cwricwla'n cefnogi amcanion sefydliadol ehangach. Adroddwyd am drafodaethau gan banelau dilysu neu ail-ddilysu er mwyn darparu gwiriad allweddol i sicrhau bod y defnydd a wneir o DA wedi ei alinio â safiad strategol y brifysgol (SA1GC1, SAAMCRh4, SA7PA1).

Roedd diddordeb arbennig gan y cyfranogwyr yn y ffordd y gallai DA gael ei alinio â'r strategaeth asesu a darparu priodoleddau graddedigion y brifysgol (SAAMCRh4, SA7PA1).

Roedd blaenoriaethau sefydliadol eraill a ddarparwyd drwy ddilysiad neu ailddilysiad yn ymwneud â gostwng y nifer o fodiwlau opsiynol gyda meintiau dosbarth llai a chreu portffolio mwy syml o raglenni mwy perthnasol (SA2SCI, SA2PA1, SAAMCRh4, SA6GC1). Adroddwyd hefyd bod dilysu ac ail-ddilysu'n cael eu defnyddio i gefnogi gostyngiad yn y llwyth asesu a'r cyfuno er mwyn darparu mwy o amser ar gyfer myfyrio a gostwng athreuliad (SAAMCRh4, SA6GC1).

Dyma oedd y pwyntiau penodol ychwanegol:

- Mae trafodaethau panelau dilysu wedi cael eu defnyddio i sicrhau gwell ffit gydag amcan strategol y brifysgol mewn perthynas â hyrwyddo dwyieithrwydd, a datblygwyd modiwlau cyfatebol cyfrwng Cymraeg (SA1GC1).
- Nodwyd bod trafodaethau ffurfiol sy'n rhan o banel cymeradwyo wedi arwain at wella ffocws ar gynhwysiad, y bwlch dyfarnu gyda myfyrwyr o gefndir du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig a dad-drefedigaethu'r cwricwlwm mewn ystod o raglenni. Ystyriwyd bod y rhain yn: *"helpu'r brifysgol i fynd y tu hwnt i'r safonau sylfaenol er mwyn cyflawni'r disgwyliadau sy'n dod i'r amlwg"* (SA6PA1).

#### 3.1.1.2 Sylwadau gan arbenigwyr allanol ac adborth gan y diwydiant

Ystyriwyd bod arbenigwyr allanol, partneriaid yn y diwydiant a chyrff PSRh yn chwarae rôl hanfodol bwysig mewn darparu adborth ac yn arbennig mewn sicrhau bod y cwricwlwm yn berthnasol. Nododd y cyfranogwyr bod cynnwys pobl allanol yn gynharach yn y broses yn ychwanegu mwy o werth (SA9PA1, SA8PA1).

Ystyriwyd bod adborth gan y diwydiant a sylwadau gan arholwyr allanol yn werthfawr o ran diffinio hunaniaeth y rhaglen a'i ffocws (SA7PA2, SA1GC2). Myfyriodd un o'r cyfranogwyr:

> "*…y peth da am yr arholwyr allanol yw eich bod yn cael syniadau neu adborth a chyngor wrth edrych arni [y rhaglen] … ar draws sefydliadau eraill. Beth yw'r arfer? naill ai fel cystadleuydd mewn addysg uwch neu ein cymdogion ein hunain… byddai hynny'n rhan ddefnyddiol iawn o['r] adolygiad" (SA7PA2).*

#### 3.1.1.3 Cyfranogaeth gynnar mewn trafodaethau

Ystyriwyd bod cyfranogaeth gynnar arbenigwyr allanol, myfyrwyr, timau sicrhau ansawdd, cyrff proffesiynol, cynllunwyr a rhanddeiliaid yn hanfodol i ddatblygu rhaglenni gwella a mwy ffyniannus (SA1GC1, SA3CRhE, SA8PA1, SA7PA3, SA9PA1).

Mae angen cyfranogaeth gynnar gan swyddogion sicrhau ansawdd, pobl allanol ac arweinwyr addysgu profiadol i sicrhau cysondeb ac ymgysylltiad mewn arferion gorau, er enghraifft mewn dulliau asesu sy'n barod ar gyfer DA (SA4PA1, SA7PA3). Roedd rhai pobl yn teimlo na ddylai'r rheiny sy'n ymwneud â chyd-gynhyrchu gyda thimau'r rhaglenni gymryd rhan wedyn yn y gymeradwyaeth derfynol (SA4PA1). Roedd eraill yn rhagweld y byddai rhai o'r un bobl, megis y cadeirydd allanol a chadeirydd y panel, yr un fath drwy gydol y broses (SA1GC2, SA3CRh4). Ystyriwyd bod cyfranogaeth gynnar a sail eang yn helpu i sicrhau bod y digwyddiad cymeradwyo'n cael ei ddefnyddio, fel y bwriadwyd, fel gwiriad terfynol ar y rhaglen orffenedig (SA3CRh4, SA1GC2). Pwysleisiwyd hefyd werth agweddau cyfannol ar lefel ysgol ac wrth geisio barn staff o adrannau eraill yn anffurfiol (SA3CRh4, SA1GC2). Ystyriwyd bod y camau hyn yn cefnogi deialog effeithiol rhwng cymheiriaid a ffocws mwy eglur ar brofiadau'r myfyrwyr a oedd yn bosibl yn ystod camau hwyrach y dilysu. Dyma oedd y pwyntiau pellach a godwyd:

- Mae trafodaethau cynnar am achosion busnes gyda'r swyddogaeth gynllunio'n hanfodol yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni: "Mae'r cwestiwn 'A fydd hwn yn talu amdano'i hun' yn bwysicach nag erioed" (SA6GC1).
- Mae'n bwysig alinio cynlluniau cynnar ar gyfer rhaglenni newydd gyda chydweithwyr sy'n cymryd rhan mewn swyddogaethau amrywiaeth a chynhwysiant (SA7PA2).
- Mae'n well ymdrin â rhai materion drwy drafodaethau mewnol - materion megis cyllid myfyrwyr, darparu sgiliau proffesiynol craidd a gofynion staffio (SA1GC2).
- Arweiniodd ymgysylltiad cynnar â rhanddeiliaid at ddatblygu "modiwl her" lle byddai myfyrwyr yn gweithio mewn timau cymysg ar brosiect wedi'i lunio gan sefydliadau yn y sector addysg drydyddol (RhC6).

### 3.1.1.4 Rôl y myfyrwyr

Fel y nodwyd uchod, pwysleisiwyd cyfranogaeth myfyrwyr mewn panelau dilysu a phrosesau adborth, er gwaethaf rhai heriau a welwyd. Ystyriwyd bod cyfraniadau myfyrwyr yn amrywiol o ran manylion, perthnasedd ac ymgysylltiad (SAAMCRh4, SA8PA1, SA9PA1). Un dyfyniad dangosol yw bod adolygwyr sy'n fyfyrwyr yn: "rhy anwadal" (SA9PA1). Soniwyd am rai heriau ymarferol wrth hyfforddi adolygwyr sy'n fyfyrwyr mewn perthynas â rhyddhau eu hamser ochr yn ochr â'u hastudiaethau a, fwy a mwy, ochr yn ochr â gwaith gyda thâl neu waith gofalu (SA8PA2, SA9PA1). Roedd heriau eraill yn ymwneud â thalu am amser hyfforddi neu am gyfranogaeth mewn digwyddiadau dilysu (SAAMCRh4, SA8PA1). Dyma faterion eraill a godwyd:

- efallai nad yw adolygwyr sy'n fyfyrwyr yn cynrychioli'r corff myfyrwyr ehangach neu hwnnw a dargedir ar gyfer y rhaglen newydd (SA8PA1).
- os nad oes digon o gefnogaeth, efallai y bydd myfyrwyr yn cael eu beio am beidio bod â llais effeithiol: "*pan mae pobl yn dweud nad yw myfyrwyr yn cyfrannu mae'n golygu nad ydyn nhw'n paratoi'r myfyrwyr yn iawn. Mae'n ffordd wych iddyn nhw ddeall sut mae'r brifysgol yn gweithio"* (SA8PA1).

### 3.1.1.5 Monitro ac adolygu parhaus

Ystyriwyd bod gwaith monitro ac adolygu parhaus gan arweinwyr cyrsiau a modiwlau a chyrff perthnasol eraill yn hanfodol ar gyfer cadw cynnwys yn gyfredol ac effeithiol (SA1GC1, SA2PA1, SA4PA1, SA7PA2). Ystyriwyd bod datblygiad cyflym DA yn arbennig yn faes na ellid mynd i'r afael ag o'n effeithiol heb fonitro parhaus (SA1GC1, SA2PA1, SA7PA2).

- Gan yr arweinwyr cyrsiau a modiwlau y mae'r cyfrifoldeb pennaf am fonitro ac adolygu eu cynnwys yn barhaus (SA7PA1).

- Mae cyfranogaeth cyfarwyddwyr datblygu dysgu ac addysgu uwch, yn ogystal â chynghorwyr allanol a diwydiant, yn bwysig yn y broses adolygu (SA4PA1).

#### 3.1.1.6 Cynllun cynhwysol

Roedd themâu arwyddocaol eraill yn cynnwys pwysigrwydd cynllunio cynhwysol. Er enghraifft, roedd cyfranogwr SA8PA1 yn honni y dylid cynnwys arbenigedd gwasanaethau proffesiynol o amgylch addysg gynhwysol yn gynnar yn y broses lunio, yn arbennig lle disgwyliwyd y byddai gan y cwrs gyfran uchel o fyfyrwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol. Mewn rhai ysgolion, mae 50 i 60% o'r myfyrwyr wedi datgelu anableddau.

### 3.1.2 Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth yng Nghymru

Ystyriwyd bod arferion da mewn partneriaethau'n cynnwys alinio a chydweithio, rhannu arbenigedd ac adnoddau, cefnogaeth broffesiynol gadarn, ymgysylltu gweithredol mewn dylunio cyrsiau, ystyriaethau strategol a daearyddol, a buddion ymarferol i fyfyrwyr. Mae'r elfennau hyn yn cyfrannu at bartneriaethau addysgol llwyddiannus ac effeithiol. Roedd y cyfranogwyr hefyd yn barnu bod y sector addysg uwch yng Nghymru o faint delfrydol i alluogi cydweithredu (SA6PA1, SA1CRh1, SA1GC2) ac roedd rhai'n pwysleisio'r ffaith y byddai datblygu cyd-ddealltwriaeth o'r dull gwella ledled Cymru'n helpu i gefnogi cydweithredu ymhellach (SA6GC1, SA2GC1).

- Mae ymatebion cyfranogwyr tramor yn gyson â'r sampl o Gymru lle mae'r arferion da'n gysylltiedig â gallu cronni adnoddau a chynnig rhaglenni newydd (SAT2) a'r canfyddiad bod cydweithredu ar raddfa fawr yn effeithiol lle maen nhw'n datblygu cyd-strwythurau llywodraethu cryf ac yn gweithio i rannu a hyrwyddo'r arferion gorau (RhC6).

#### 3.1.2.1 Alinio a chydweithio

Soniodd y cyfranogwyr bod partneriaethau llwyddiannus yn dibynnu ar alinio disgwyliadau ac arddulliau gweithio partneriaid (SA7PA2, SA8PA1), a'r cydweithrediad agos rhwng y timau sicrhau ansawdd (SA7PA2).

Roedd un mater ychwanegol a godwyd gan gyfranogwr tramor yn cynnwys datblygu rhaglenni wedi'u rhannu ar draws amrywiol safleoedd cenedlaethol:

- Mae angen i bartneriaethau llwyddiannus ddatblygu diwylliant cryf o fyfyrio ar ansawdd gan alluogi trafodaethau agored a cholegol. Mae'n rhaid negodi strwythurau hierarchaidd a gwrthsafiad i werthusiad ymysg rhai academyddion uwch (AM6).

#### 3.1.2.2 Cronni adnoddau ac arbenigedd

Wrth ystyried ailstrwythuro a gostyngiad tebygol mewn staff academaidd mewn nifer o sefydliadau yng Nghymru, roedd nifer o'r cyfranogwyr yn credu y gallai cronni adnoddau ac arbenigedd ymysg sefydliadau wella eu cynnig addysgol, yn arbennig mewn pynciau galwedigaethol neu feysydd arbenigol (SA1GC2, SA6PA1, SA7PA3). Un enghraifft gadarnhaol a ddarparwyd oedd y rhaglen MA mewn Addysg (Cymru) sydd wedi darparu adnoddau ac addysgu ar y cyd (SA1GC2, SA6PA1).

Dyma feysydd pellach a awgrymwyd:

- Y posibilrwydd o ddefnyddio adeiladu partneriaethau cydweithredol rhwng sefydliadau addysg bellach ac uwch ar draws rhanbarth o Gymru sydd â phoblogaeth uchel er mwyn ehangu mynediad i gyrsiau gradd atodol mewn iechyd a gofal cymdeithasol (SA7PA3).

- Gallai gweithio mewn partneriaeth i gefnogi addysgu cyfrwng Cymraeg neu feysydd astudio lleiafrifol ddod yn hanfodol yn dilyn newidiadau mewn ariannu a'r heriau ariannol sy'n bodoli ar hyn o bryd (SA1GC2).

#### 3.1.2.3 Gwasanaethau proffesiynol cefnogol

Dywedodd y cyfranogwyr bod angen i amrywiaeth eang o wasanaethau proffesiynol gydweithio'n llawn er mwyn i bartneriaeth ffynnu. Ystyriwyd bod cymorth cadarn gan amrywiaeth o dimau gwasanaethau proffesiynol, gwasanaethau gyrfaol, a gwasanaethau i gyn-fyfyrwyr yn hanfodol ar gyfer gweithredu partneriaethau'n effeithiol (SA7PA2, SA1GC1).

- Gallai hyn gynnwys cysylltiad dyddiol bron, a rhannu dogfennau (SA7PA2).

#### 3.1.2.4 Ymgysylltiad â llunio rhaglenni

Ystyriwyd bod cyfranogaeth weithredol y staff academaidd, y myfyrwyr a'r sefydliadau partner mewn cyd-lunio cyrsiau'n sicrhau ansawdd a pherthnasedd y rhaglenni a gynigir drwy bartneriaethau yng Nghymru. Roedd arferion da a nodwyd gan gyfranogwyr yn cynnwys gweithdai cyd-lunio cyrsiau gyda staff a myfyrwyr mewn colegau addysg bellach partner i hwyluso datblygu cwricwlwm cydweithredol (SA4PA1, SA7PA2).

#### 3.1.2.5 Ystyriaethau strategol a daearyddol

Ystyriwyd fod potensial gan bartneriaethau strategol, yn enwedig mewn rhanbarthau gyda llai o sefydliadau, i fynd i'r afael â heriau daearyddol a gwella mynediad i addysg (SA2GC1, SA6PA1, SA8PA2). Er bod rhai cyfranogwyr yn y grŵp hwn yn amheus o faint ac egni canfyddedig y sector addysg bellach, roedd eraill yn cydnabod y gallai colegau addysg bellach mwy weithredu fel partneriaid cyfartal i brifysgolion sy'n cynnig manteision strategol ac ystwythder mewn ymateb i anghenion y rhanbarth a blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru (SA2PA1, SA8PA2).

- Ystyriwyd bod partneriaethau lleol rhwng sefydliadau addysg bellach ac uwch yn gwneud addysg uwch yn fwy hygyrch a fforddiadwy i fyfyrwyr. Er enghraifft, mae cynghreiriau strategol gyda cholegau addysg bellach ar gyfer Diplomâu Cenedlaethol Uwch neu Raddau Sylfaen yn sicrhau opsiynau addysg lleol, hygyrch i fyfyrwyr (SA7PA1).
- Ystyriwyd bod graddau atodol mewn rhai meysydd astudio a gynigir gan sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch yn gweithio'n dda, gan alluogi i fyfyrwyr a fyddai'n annhebygol o wneud hynny fel arall, ennill cymwysterau lefel gradd (SA7PA3).

### 3.1.3 Rhwystrau rhag gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth

Y rhwystrau allweddol sy'n rhwystro cydweithredu yng Nghymru yw'r gystadleuaeth ganfyddedig rhwng prifysgolion ac, yn gynyddol, gyda sefydliadau addysg bellach o fewn yr un ardal a rhanbarth. Mae amrywiaeth leol mewn prosesau sicrhau a gwella ansawdd ac yn y ddealltwriaeth ynglŷn â sut y dylid cymhwyso Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU hefyd wedi annog pobl i beidio creu partneriaethau ac mae wedi arwain at waith manwl, ac mewn rhai achosion waith anghyflawn. Mae'r angen am fwy o unffurfiaeth yn yr agwedd academaidd tuag at leoliadau gwaith, ac ymgysylltiad â diwydiant, wedi eu pwysleisio ochr yn ochr â materion fel datblygu dealltwriaeth ar y cyd o rolau'r myfyrwyr mewn dilysu a throsolwg a hyfforddiant wedi safoni. Yn sail i'r materion hyn roedd canfyddiad y byddai datblygiadau mewn gweithio mewn partneriaeth yng Nghymru'n dibynnu ar ryddhau cyllid ychwanegol a chefnogaeth wleidyddol gynaledig. Lleisiwyd rhai rhybuddion hefyd ynglŷn â phwysigrwydd llunio, cyflwyno a gweithredu partneriaethau newydd yn ofalus.

#### 3.1.3.1 Cystadleuaeth ganfyddedig

Heb os, y gwrthwynebiad i gydweithio a leisiwyd yn fwyaf cyson oedd y gystadleuaeth am fyfyrwyr - neu'r canfyddiad o gystadleuaeth o fewn y brifysgol (SA1GC2, SA3CRh3, SA3CRh4, SA8PA1, SA7PA2). Mae esiamplau o'r pryderon hyn a'u heffeithiau i'w gweld yn y sylwadau hyn gan gyfranogwyr:

> "Mae cystadleuaeth am fyfyrwyr a chyllid yn creu rhwystrau, ac mae sefydliadau'n mynd yn amharod i rannu gormod o wybodaeth" (SAAMCRh4), ac
>
> "… mae cystadleuaeth a phwysau i recriwtio'n difa'r cymhelliant i greu partneriaethau, yn enwedig pan fo'n rhaid i sefydliadau rannu prosesau cymeradwyo gyda chystadleuwyr" (SA8PA1).

### 3.1.3.2 Lleoliadau gwaith a chyfranogaeth y diwydiant

Pan fydd partneriaid o'r tu allan i'r sector addysg yn cymryd rhan yn nysgu'r myfyrwyr, gall y drafodaeth ynghylch cynnwys academaidd dysgu mewn lleoliad, cymorth i fyfyrwyr ac asesiad fod yn gymhleth. Gwelwyd fod y problemau hyn yn fwy lle cynigiwyd rhaglenni oedd yn cynnwys lleoliadau gwaith trwy drefniadau partneriaeth (SA2GC1, SA2GC1).

Yn ogystal, am fod llawer o Gymru'n ardaloedd gwledig mae angen rhoi trefniadau cefnogi ychwanegol yn eu lle mewn rhai lleoedd i gefnogi dysgu mewn partneriaeth ac nid yw rhanbarthau eraill yn gwerthfawrogi hyn, gan sbarduno trafodaethau anodd am adnoddau a chymorth i fyfyrwyr (SA1GC2, SA2PA1, SA6GC1).

### 3.1.3.3 Safoni fframweithiau a phrosesau sicrhau ansawdd

Ystyriwyd bod sefydlu fframweithiau a safonau clir yn hanfodol er mwyn cynnal ansawdd a chysondeb mewn ymdrechion cydweithredol. Gan fyfyrio ar y rhaglen MA mewn Addysg (Cymru) a ddilyswyd yn ddiweddar, dywedodd y cyfranogwyr ei bod hi'n her i alinio rheoliadau a safonau ar draws sefydliadau ar gyfer rhaglenni Cymru-gyfan, ond bod hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau ansawdd cyson a phrofiad cyfartal i'r myfyrwyr (SA4PA1, SA1GC2, SA6PA1).

### 3.1.3.4 Cyfranogaeth a hyfforddiant myfyrwyr

Er bod cyfranogaeth y myfyrwyr mewn prosesau dilysu cydweithredol a goruchwyliaeth barhaus wedi eu hystyried yn hanfodol, dywedwyd bod agweddau a phrosesau amrywiol tuag at gyfranogaeth myfyrwyr ar draws sefydliadau yng Nghymru'n annog pobl i beidio cydweithio, gan olygu bod yn rhaid cynnal trafodaeth fanwl bob tro (SA7PA1). Barnwyd fod hyder ac ymrwymiad yr adolygwyr sy'n fyfyrwyr tuag at gyfranogi mewn dilysu a goruchwylio yn amrywio (SA1GC2, SA2GC2) gan olygu bod angen mwy o fuddsoddiad mewn hyfforddiant.

### 3.1.3.5 Cyllid a chefnogaeth wleidyddol

I wneud rhagor o waith partneriaeth ledled Cymru, roedd y cyfranogwyr yn teimlo y byddai angen derbyn rhagor o gyllid er mwyn rhyddhau'r amser a'r adnoddau staff sy'n ofynnol i ddatblygu a goruchwylio partneriaethau. Ystyriwyd hefyd bod sefydliadau'n annhebygol o weithredu'r agenda partneriaeth heblaw bod ffigurau rheoli uwch yn cael eu sicrhau y byddai partneriaethau cydweithredol yn parhau'n elfen ganolog o agenda Llywodraeth Cymru am gyfnod hir (SA2GC1, SA6GC1).

### 3.1.3.6 Cyflwyno a gweithredu

Teimlwyd bod gweithredu'r mentrau'n effeithiol a'u cyflwyno'n ofalus yn hanfodol er mwyn osgoi effeithiau negyddol ar brofiadau'r myfyrwyr (SA3CRh4, SA4PA).

- Mae'n hanfodol cynllunio taith astudio'r myfyrwyr yn ofalus, yn cynnwys mynediad at wasanaethau myfyrwyr, er mwyn sicrhau nad yw myfyrwyr yn "disgyn drwy'r holltau" (SA2GC1).
- Roedd profiadau negyddol blaenorol o ddisgwyliadau a phrosesau heb eu halinio'n tanlinellu ymwybyddiaeth y cyfranogwyr o'r angen i ddilysu rhaglenni partneriaeth gyda gofal arbennig (SA4PA1).

### 3.1.4 Materion eraill

#### 3.1.4.1 Defnyddio DA yn gynnar yn y broses o gyd-gynhyrchu rhaglenni newydd

Ystyriwyd bod gan DA y potensial i ail siapio dulliau asesu a gwella arferion addysgu. Er nad oedd polisïau, fframweithiau a chymorth wedi eu datblygu'n gyson, roedd eu rôl mewn prosesau dilysu a phrosesau sicrhau ansawdd yn cael eu harchwilio gan rai (SAT2, SA6GC1, SA6PA1). Roedd eraill yn fwy cymedrol eu barn am DA, gan bwysleisio natur ffeithiol a gweinyddol y gwaith papur ond yn pwysleisio'r angen am barhau â rhywfaint o "gyfranogaeth ddynol" wrth wneud penderfyniadau (SA8PA1, SA2PA1).

Ystyriwyd bod DA yn cefnogi tasgau fel alinio asesiad â deilliannau dysgu i ddatblygwyr a dilyswyr rhaglenni (SA6GC1). Soniodd grŵp o gyfranogwyr o un sefydliad am gynllun peilot lle defnyddiwyd DA i gynhyrchu dogfennaeth gychwynnol sylfaenol ac i gynhyrchu syniadau newydd a ffurfiodd sail i drafodaeth gychwynnol wedi'i seilio yn yr ysgol (SA6GC1, SA6PA1).

#### 3.1.4.2 Cefnogi cynigwyr rhaglenni drwy greu timau gwasanaethau proffesiynol

Roedd prifysgolion lle gwneir llawer o waith ymchwil yn ystyried bod cefnogi academyddion i addysgu a datblygu rhaglenni o safon dda yn her hirdymor (SA1GC1, SA3CRh1, SA3CRh2, SA6PA1). Yn y cyd-destun hwn, cyfeiriodd un cyfranogwr tramor o brifysgol ymchwil-ddwys at brosiect parhaus oedd yn gobeithio casglu timau o bobl at ei gilydd o'r Swyddfa Ansawdd a'r Ganolfan Dysgu ac Addysgu i gefnogi academyddion sy'n datblygu cynigion am raglenni newydd.

#### 3.1.4.3 Cydweithredu ychwanegol rhwng gwasanaethau proffesiynol

Gan nodi'r cynnydd mawr yn yr anghenion ymysg myfyrwyr am wasanaethau cymorth lles a chymorth dysgu, ynghyd â chyfyngiadau cyllidebol ar dimau gwasanaethau proffesiynol sy'n ehangu, nododd un cyfranogwr y gallai datblygu adnoddau cydweithredol ar y cyd gynnig gwasanaethau mwy hyblyg. Dywedodd y cyfranogwr y byddai cyfyngiadau ar gyfrinachedd yn cyfyngu ar gwmpas y gwasanaethau hyn, ond dywedodd bod rhannu adnoddau, gwybodaeth a chymorth cymheiriaid yn helpu i ateb yr anghenion hynny (SA3CRh4).

## 3.2 Swyddogion sicrhau ansawdd a swyddogion cynllunio

Am fod strwythur hynod amrywiol gan dimau sicrhau ansawdd ledled Cymru, mewn rhai achosion roedd cyfrifoldebau cyfranogwyr yn y grwpiau hyn yn cyfuno â chyfrifoldebau'r grŵp o gofrestryddion a rheolwyr ansawdd. Roedd gan gyfranogwyr gyfrifoldeb gweithrediadol am ddilysu neu am bartneriaethau neu oruchwyliaeth partneriaethau. Roedd rhai'n cysylltu gydag ysgolion academaidd oedd yn datblygu rhaglenni newydd ac yn darparu cyngor gweithrediadol a thechnegol ochr yn ochr â threfnu digwyddiadau dilysu (SA2SC1, SA2SC2, SA7SC1, SA7SC2). Dim ond gan un o'r cyfranogwyr yr oedd rôl wedi'i diffinio'n glir yn y broses gynllunio, sef goruchwylio cam cyntaf y gymeradwyaeth cyn trosglwyddo rhaglenni ymlaen i'r timau sicrhau ansawdd i dderbyn dilysiad academaidd (SA1CRh).

### 3.2.1 Pa agweddau o brosesau llunio a chymeradwyo rhaglenni sy'n sicrhau gwelliant?

Gan adlewyrchu eu hymgysylltiad dwfn â phrosesau dilysu o bosib, soniodd mwyafrif y cyfranogwyr bod gan ddogfennaeth a ddefnyddiwyd eisoes mewn arferion dilysu werth arbennig mewn sicrhau gwelliant. Dyma rai o'r dogfennau y cyfeiriwyd atynt gan y mwyafrif o'r cyfranogwyr, neu gan bob un:

1. Manylebau rhaglenni a modiwlau
2. Ffurflenni adolygu rhaglenni blynyddol
3. Adroddiadau arholwyr allanol
4. Llawlyfrau cyrff proffesiynol
5. Meincnodau pwnc QAA
6. Canllawiau lleoliadau gwaith, a
7. Rhestrau darllen

Barnwyd hefyd bod dogfennau strategol sefydliadol, fframweithiau asesu, Datganiadau Meincnodi Pwnc a chrynodebau marchnata'n werthfawr (SA2SC1, SA5SC1, SA7SC1). Am fod gwelliant yng Nghymru'n gyfystyr â mynd *y tu hwnt* i'r disgwyliadau sylfaenol, nid yw'n gwbl glir i'r ymchwilwyr bod y dogfennau hyn yn sicrhau gwelliant, ond yn hytrach eu bod yn helpu i gyflawni disgwyliadau strategol gan ddefnyddio pwyntiau cyfeirio allanol. Eithriad posibl efallai yw defnyddio achosion busnes a data cystadleuol, yr oedd cyfranogwyr yn y grŵp hwn yn eu cael yn ddefnyddiol ar gyfer diffinio hunaniaeth y rhaglen a'i chryfderau arbennig (SA5SC1, SA7PA2). Nododd un cyfranogwr:

> "… Gwnaeth y tîm MBA waith gwych. Roeddent wedi ymchwilio 56 o brifysgolion ar draws y DU oedd yn darparu cyrsiau MBA, ac wedi llunio eu crynodeb eu hunain o'r gymhariaeth a sut y gallant fod yn wahanol neu'n well yn eu cynnig ar gyfer yr ailddilysiad." (SA7PA2).

Cafodd y panelau dilysu, oedd yn cynnwys adolygwyr mewnol ac allanol, myfyrwyr a staff sicrhau ansawdd, eu hystyried mewn ffordd gyfannol ac ystyriwyd bod amrywiaeth eang o wasanaethau proffesiynol megis gwasanaethau llyfrgell, cofnodion myfyrwyr a chymorth lles myfyrwyr yn dod â gwerth i'r broses (SA2SC1, SA7SC1). Hefyd ystyriwyd bod rhanddeiliaid allanol megis colegau partner addysg bellach lleol yn weithredwyr gwerthfawr (SA2SC1), ac felly hefyd y cyn-fyfyrwyr a chyrff PSRh (SA2SC1, SA7SC1).

#### 3.2.1.1 Alinio arferion addysgu ac asesu ag amcanion strategol y brifysgol

Roedd y cyfranogwyr yn ystyried bod gan ddilysiad berthynas glir gyda chyflawni strategaeth y brifysgol. Nodwyd bod y prosesau dilysu'n sicrhau bod cyflogadwyedd y myfyrwyr a chyflawniad priodoleddau graddedigion wedi eu hadeiladu i mewn i'r arferion addysgu ac asesu (SA2SC2, SA5SC1, SA7SC1). Ystyriwyd y gallai prosesau dilysu fod yn ddefnyddiol o ran cynnwys DA mewn addysgu ac asesu i gefnogi ymrwymiadau strategol i addysgu perthnasol i waith ac asesiad priodol (SA2SC2, SA7SC2, SA5SC1, SA2SC1). Er bod y cyfranogwyr yn cysylltu cyflogadwyedd gyda llythrennedd DA yn aml iawn, nid yw'n glir a yw prosesau dilysu cyfredol yn cefnogi'r trafodaethau hynny'n ffurfiol (SA2SC2, SA7SC2, SA5SC1, SA2SC1). Mae sylw gan un o'r cyfranogwyr yn dangos y farn honno:

> "Rydym yn gwthio priodoleddau graddedigion penodol, mae cyflogadwyedd yn weddol uchel [ar yr agenda], felly os ydym eisiau graddedigion sy'n barod at yrfa, rydym yn mynd i orfod croesawu a chynnwys technolegau DA. [Ond] nid yw DA yn brompt penodol o fewn y gwaith papur ailddilysu" (SA7PA1).

Dyma oedd y meysydd lle cydnabuwyd bod trafodaethau panel yn darparu buddion strategol:

- Mae annog a chynghori ar ddatblygiad addysgu sy'n berthnasol i anghenion lleol (mewn meysydd fel treftadaeth ac ynni cynaliadwy) yn helpu i ddarparu ymrwymiadau strategol i ymgysylltiad dinesig (SA2SC2)
- Ehangu mynediad, yn arbennig mewn perthynas â phartneriaethau gyda cholegau addysg bellach a darparwyr preifat (SA7SC2).

#### 3.2.1.2 Cyfranogaeth gynnar mewn trafodaethau

Ni aeth swyddogion sicrhau ansawdd ati'n weithredol i wirfoddoli sylwadau am ymgysylltiad cydweithredol cynnar mewn dilysu. Fodd bynnag, soniwyd am amrywiaeth o fentrau yn ymwneud â chefnogi partneriaid addysg bellach i ddatblygu rhaglenni.

- Defnyddir proses gydweithredol o ddatblygu rhaglenni mewn perthynas â phrentisiaethau gradd, lle mae timau cynnig rhaglenni yn y ddau bartner yn cyfranogi yn y gwaith llunio a chyfathrebu mewn proses iteraidd (SA7SC2).
- Mae'r brifysgol yn darparu adolygwr academaidd ar gam cynnar er mwyn gwella cynigion rhaglenni partneriaid (SA5SC1).
- Mae swyddog cynllunio'n gweithio gyda swyddog sicrhau ansawdd, ysgolion academaidd ac aelodau perthnasol o staff addysgu'r partneriaid mewn "tîm o amgylch cynigydd y rhaglen". Mae'r swyddog sicrhau ansawdd yn gweithio o fewn y tîm hwnnw ac yn rhoi sylwadau am gynigion drafft gan bartneriaid, gan ychwanegu gwerth ychwanegol a symleiddio'r broses ffurfiol (SA2SC2).

Roedd yr unig swyddog cynllunio ymysg y cyfranogwyr yn barnu bod ymgysylltu'n gynnar â swyddogion sicrhau ansawdd a thimau'r rhaglenni'n hanfodol i roi cyngor am y lefel gywir o gymeradwyaeth sydd ei hangen (am fod y brifysgol yn dilysu ar sail risgiau) (SA1CRh). Hefyd, ystyriwyd bod trafodaethau gyda swyddogion sicrhau ansawdd yn galluogi rhannu arferion gorau ac osgoi peryglon mewn prosesu a llunio rhaglenni er mwyn cefnogi "proses fwy esmwyth" (SA1CRh). Pwysleisiwyd hefyd werth trafodaethau cynnar rhwng cymheiriaid er mwyn meithrin arloesi a galluogi her:

*"Mae trafodaethau panel mewnol ar draws cyfadrannau ac adrannau'n codi syniadau newydd nad yw'r cynigydd wedi meddwl amdanynt o bosib, a hefyd yn helpu i osgoi camgymeriadau yr oedd cynigwyr eraill wedi eu gwneud yn y gorffennol"* (SACRh2, SA1CRh).

#### 3.2.1.3 Rôl y myfyrwyr

Deallwyd bod myfyrwyr yn nodwedd hanfodol o ddilysiad yng Nghymru, ond roedden nhw hefyd yn cael eu gwerthfawrogi am y safbwyntiau newydd yr oedden nhw'n eu cynnig, yn arbennig yn nhermau strwythur a chydlyniad y cwrs (SA2SC2, SA7SC2, SA5SC1, SA2SC1). Esboniodd un cyfranogwr: *"Dim ond y myfyrwyr sy'n gweld pethau o safbwynt myfyrwyr. Maen nhw'n deall sut brofiad yw symud o un modiwl i'r nesaf" (*SA2SC2).

Un eithriad i'r patrwm hwn oedd y swyddog cynllunio a gyfrannodd oedd yn ystyried bod cyfranogaeth myfyrwyr ar baneli ac mewn cymeradwyo'n beth amrywiol. Pan godwyd yr awgrym gan fyfyrwyr am greu cronfa o adolygwyr sy'n fyfyrwyr ledled Cymru, roedden nhw'n barnu y gallai hynny weithio ond roedden nhw'n rhagweld anghysonderau mewn taliadau ar draws sefydliadau (SA1CRh).

#### 3.2.1.4 Sylwadau gan arbenigwyr allanol ac adborth gan y diwydiant

Ystyriwyd fod deialog gydag adolygwyr sy'n arbenigwyr allanol yn anghenraid rheoliadol (SA2SC1, SA2SC2, SA7SC1, SA7SC2).

*"Mae'r allanolrwydd yn rhywbeth allweddol. Ni allwn gael digwyddiad dilysu heblaw bod panelydd allanol yn bresennol neu wedi cael y cyfle i siarad â'r gwaith papur"* (SA7SC2).

Ystyriwyd fod adroddiadau gan bartneriaid yn y diwydiant a deilliannau cyflogadwyedd graddedigion yn ychwanegu gwerth i broses ddilysu academaidd o ran sicrhau bod dysgu sy'n berthnasol i weithio wedi ei integreiddio ar draws rhaglenni (SA7SC1, SA2SC2).

Roedd y cyfranogwyr yn ystyried bod yn rhaid i raglenni newydd ateb y galw gan y farchnad, ac er bod y materion hyn yn cael eu trafod yn ystod y broses o gymeradwyo rhaglenni'n strategol, roedden nhw hefyd yn cael eu hystyried yn rheolaidd mewn prosesau dilysu a chyfarfodydd panelau dilysu (SA2SC2, SA7SC2, SA2SC1). Yn wir, ystyriwyd bod trafodaethau am aliniad cynllun cyrsiau â'r galw gan y farchnad, a chyflogadwyedd, yn cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer dilysiad ac yn cynnig gwerth o ran gwelliant (SA5SC1, SA7SC1).

## 3.2.2 Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth yng Nghymru

Deallwyd fod partneriaethau da'n cynnwys camau clir a phendant er mwyn sicrhau aliniad a chydweithio ymarferol. Ystyriwyd hefyd fod amrywiaeth o fuddion strategol gan bartneriaethau yn ymwneud yn rhannol â'r disgwyliad y gallai Medr arwain at ddisgwyliadau a dulliau mwy safonedig.

### 3.2.2.1 Alinio a chydweithio

Roedd llawer o'r ymdrech mewn trafodaethau cynnar am raglenni a gafodd eu trafod uchod yn canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau addysg bellach ac uwch ac yn gweithredu fel tystiolaeth o gydweithio ac aliniad. Fodd bynnag, roedd y cyfranogwyr yn ymwybodol hefyd o bwysigrwydd cyfathrebu effeithiol mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol er mwyn cefnogi gweithio mewn partneriaeth (SA2SC2, SA7SC2, SA2SC1). Roedd defnyddio'r platfform 'MS Teams' yn galluogi cysylltiad anffurfiol bron yn ddyddiol rhwng partneriaid (SA2SC1, SA2SC2).

Nododd un o'r cyfranogwyr hefyd bod staff sicrhau ansawdd y coleg partner yn eistedd ar bwyllgor sicrhau ansawdd y brifysgol (SA7SC1).

### 3.2.2.2 Ystyriaethau strategol a daearyddol

Mae gan bartneriaethau gyda sefydliadau addysg bellach y potensial i gynyddu mynediad i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol drwy arbenigedd ym maes addysg bellach a phrofiad o ehangu mynediad a chyfranogaeth (SA2SC2, SA7SC1, SA5SC1). Yn ogystal, ystyriwyd bod dyfodiad Medr yn cynnig cyfle i hybu cydweithrediadau rhwng prifysgolion a phartneriaid addysg bellach drwy hyrwyddo arferion gweithio, a disgwyliadau, sy'n fwy cyson (SA7SC1).

Hefyd, roedd un o'r cyfranogwyr yn ystyried y gallai datblygu partneriaethau rhanbarthol gyda mwy o ffocws strategol alluogi i bartïon osgoi gorgyffwrdd a chystadlu uniongyrchol (SA2SC1).

### 3.2.3 Rhwystrau rhag gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth

Roedd y rhwystrau allweddol a nodwyd gan y grŵp hwn o swyddogion sicrhau ansawdd a swyddogion cynllunio yn ymwneud â chystadleuaeth gyda sefydliadau addysg bellach, diffyg cysylltiad gweithredol a sefydliadol oedd yn achosi heriau i weithio'n effeithiol gyda diwydiant, a hefyd yr amrywiaeth eang mewn prosesau sicrhau ansawdd ledled Cymru a ystyriwyd yn broblematig lle mae prifysgolion yn cydweithio â'i gilydd. Teimlwyd bod ystod o ddiffyg cysylltiadau gweithredol a welwyd wrth gyflwyno rhaglenni partneriaeth, yn cynnwys galwadau nas rhagwelwyd am adeiladu capasiti a gofynion eraill ar amser y staff, yn achosi i bobl beidio gweithio mewn partneriaeth.

#### 3.2.3.1 Cystadleuaeth ganfyddedig

Soniodd cyfranogwyr yn y grŵp hwn bod eu partner addysg bellach yn cystadlu â'r brifysgol am fyfyrwyr eisoes i bob pwrpas (SA2SC2, SA7SC2, SA5SC1, SA2SC1). Gallai rhaglenni cyfatebol a addysgir mewn colegau addysg bellach ac a gymeradwyir gan brifysgol gael eu cwblhau'n gyflymach a bod yn rhatach 'uned am uned' nag yn y brifysgol (SA2SCI, SA5SC1). Roedd y cyfranogwyr yn ymwybodol na allai prifysgolion fforddio gostwng costau cyrsiau o ystyried bod gan brifysgolion gyflogau staff uwch (o'u cymharu â cholegau) ac o ystyried eu dyraniadau ymchwil (SA2SCI, SA5SC1).

#### 3.2.3.2 Lleoliadau gwaith a chyfranogaeth y diwydiant

Roedd rhai cyfranogwyr yn frwdfrydig ynglŷn â phartneriaethau â'r diwydiant (SA7SC2, SA5SC1, SA2SC1). Fodd bynnag, roedden nhw'n nodi bod achrediad gan gyrff proffesiynol yn gymhleth ac yn cymryd llawer o amser (SA2SC2). Nodwyd hefyd nad oedd systemau cofnodion myfyrwyr, yn cynnwys prosesau cofrestru, yn ddigon hyblyg i gefnogi datblygiad eang micro-gymwysterau (SA7SC2) a dyma faterion penodol eraill a godwyd yng nghyd-destun micro-gredydau:

- Roedd y mynediad at blatfform dysgu a chyfleusterau'r brifysgol yn aneglur (SA7SC1)
- Roedd 'pentyrru' micro-gymwysterau'n heriol o ystyried y niferoedd bach o gyrsiau a gynigir ar hyn o bryd (SA2SC2).

#### 3.2.3.3 Safoni fframweithiau a phrosesau sicrhau ansawdd

Mewn perthynas â phartneriaethau gyda phrifysgolion eraill, roedd hi'n cymryd llawer o amser i negodi gwahanol brosesau dilysu ledled Cymru, ac ni theimlwyd bod hyn yn hyrwyddo gwell rhaglenni na gwell profiad i'r myfyrwyr (SA2SC2, SA5SC1, SA2SC1). Fodd bynnag, ni ystyriwyd bod amrywiadau yn y prosesau sicrhau ansawdd a'r ddogfennaeth gysylltiedig yn adlewyrchu gwahaniaethau pwysig bob tro yn yr egwyddorion a ddefnyddiwyd na'r aliniad sylfaenol gyda Chod Ansawdd Addysg Uwch y DU (SA2SC2, SA2SC1).

#### 3.2.3.4 Cyflwyno a gweithredu rhaglenni a gynigir mewn partneriaeth

Dywedwyd bod heriau gweithrediadol nas rhagwelwyd yn bethau arferol wrth weithio mewn partneriaeth (SA2SC2, SA7SC2, SA5SC1, SA2SC1). Nodwyd hyn yn arbennig yn achos y rhaglenni a gynigiwyd ar draws sefydliadau lle addysgir myfyrwyr gan un partner ac yna maen nhw'n symud i'r llall o fewn un cwrs astudio (SA2SC2, SA5SC1, SA7USC).

Mae'r problemau penodol a welwyd yn cynnwys:

- Defnyddio platfformau dysgu gwahanol, sy'n arwain at sefyllfa lle mae adnoddau ar goll ac mae'n cymryd mwy o amser i lwytho cynnwys yn y sefydliad partner (SA5SC1)

- Dim mynediad ar y cyd i amserlenni lle mae myfyrwyr yn symud ar draws safleoedd (SA2SC2)
- Oedi wrth gofrestru myfyrwyr ac wrth sicrhau eu mynediad at y gwasanaethau (SA7SC2).

Wrth i bartneriaethau gael eu cyflwyno, teimlwyd bod y galw am adeiladu capasiti gan y brifysgol yn cynyddu ond nad oeddent yn cael eu cydnabod na'u costio'n ddigonol yn aml iawn (SA2SC2, SA2SC1, SA5SC1). Roedd y rhain yn cynnwys galwadau nas rhagwelwyd am hyfforddiant, ymgynghoriad sicrhau ansawdd, ac ymgysylltiad academaidd â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) (SA2SC2, SA2SC1, SA7SC1). Hyd yn oed yn yr achosion hyn, lleisiwyd pryderon ynglŷn â chystadleuaeth. Dyma sylw gan gyfranogwr sy'n dangos y safbwyntiau hyn:

> "… Mae'n rhan enfawr o'n gwaith, ein partneriaid strategol yn y rhanbarth. Rydym yn gweithio'n agos â'r partneriaid, mae gennym gyfarwyddwr cynghreiriau strategol sy'n gweithio'n ddiflino â'r partneriaid, ac mae swyddogion cyswllt ym mhob cyfadran. Mewn perthynas â chyrsiau, mae hefyd staff cyswllt sy'n ymdrin ag arferion da, a fydd yn mynd allan i'r sefydliadau partner ac yn rhannu arferion da gyda nhw. Felly, cânt eu gwerthfawrogi, rydym yn gweithio'n agos, yn deg ac yn gyson gyda nhw i sicrhau nad oes unrhyw orgyffwrdd na chystadleuaeth uniongyrchol" (SA7SC1).

## 3.3 Arweinwyr y myfyrwyr a'r adolygwyr sy'n fyfyrwyr

Mae'r grŵp hwn o fyfyrwyr yn cynnwys adolygwyr sy'n fyfyrwyr, a oedd yn cymryd rhan mewn digwyddiadau dilysu ac ail-ddilysu ac arweinwyr undebau'r myfyrwyr a oedd yn cymryd rhan yn y gwaith o oruchwylio dilysu drwy bwyllgorau canolog sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu neu sicrhau ansawdd.

### 3.3.1 Pa agweddau o brosesau llunio a chymeradwyo rhaglenni sy'n sicrhau gwelliant?

Dyma elfennau o gymeradwyo rhaglenni oedd yn ychwanegu gwerth gwelliant ym marn y grŵp myfyrwyr:

- rôl y panelau wrth ofyn cwestiynau eang yn ymwneud â gwerthoedd neu nodau strategol y brifysgol,
- cyfranogaeth gynnar myfyrwyr mewn llunio rhaglenni.

Mae un agwedd werthfawr o gyfranogaeth y myfyrwyr yn ymwneud â'u profiad o asesiad. Fodd bynnag, ni theimlwyd bod cyfranogaeth y myfyrwyr yn effeithiol bob amser, ac ystyriwyd bod angen eglurder ynglŷn â disgwyliadau myfyrwyr, hyfforddiant a datblygiad dull unffurf ystyriol. Maes arall lle'r oedd myfyrwyr yn teimlo eu bod yn dod â gwerth i'r broses oedd mewn perthynas ag ymholi pa mor dda y gallai addysgu gefnogi anghenion myfyrwyr niwroamrywiol.

#### 3.3.1.1 Aliniad ag amcanion strategol

Lle mae trafodaethau panelau dilysu'n cefnogi'r defnydd priodol a wneir o DA, maen nhw hefyd yn cefnogi arloesi, dylanwadu ar dechnoleg a pharatoi ar gyfer tueddiadau'r dyfodol (SA3AU1, SA9AU1). Yn nodweddiadol o'r sylwadau hyn, rhoddodd un arweinydd myfyrwyr sylw am rôl y panelau dilysu mewn: "*Sicrhau bod egwyddorion sefydliadol allweddol megis dinasyddiaeth fyd-eang a dysgu rhyngddisgyblaethol yn cael eu cynnwys mewn rhaglenni newydd"* ac aeth ymlaen hefyd i esbonio sut roedd Strategaeth y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n effeithiol i gwestiynu cynigwyr rhaglenni a sicrhau cynnydd o fewn yr ardal strategol honno (SA7AU1).

- Dim ond un cyfranogwr ymhlith y myfyrwyr a gyfeiriodd yn benodol at rôl prosesau dilysu o ran sicrhau bod cynigion yn cael eu halinio ag amcanion strategol. Fodd bynnag, dywedodd myfyrwyr eraill bod amcanion strategol a gwerthoedd sefydliadol yn cael eu cefnogi neu eu hyrwyddo drwy drafodaethau dilysu.
- Ystyrid bod rolau'r panelau'n werthfawr hefyd o ran sicrhau bod cyflogadwyedd a deilliannau graddedigion yn cael eu hadeiladu'n effeithiol i mewn i ddarpariaeth gyfredol a chyrsiau newydd.
- Dylai cyflogadwyedd fod yn ganolog i ddatblygiad rhaglenni, gan gyfathrebu nodweddion gwahanol a buddion allweddol i fyfyrwyr mewn ffordd glir.

#### 3.3.1.2 Cyfranogaeth gynnar mewn trafodaethau: myfyrwyr, arbenigwyr allanol a rhanddeiliaid

Roedd gan y myfyrwyr ddealltwriaeth glir o fuddion cyd-gynhyrchu cynnar ac roedden nhw'n ystyried bod lleisiau arbenigwyr allanol a rhanddeiliaid diwydiannol yn werthfawr, ochr yn ochr â lleisiau'r myfyrwyr cyfredol. Roeddent yn deall bod angen ymgynghoriad mwy cynhwysfawr â myfyrwyr ar ddechrau'r gwaith o ddatblygu rhaglen er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn berthnasol i'w hanghenion a'u gobeithion (SA2AM2, SA2AM1, SA7AU1, SA9AM1). Gall cyfranogaeth y myfyrwyr ac arbenigwyr allanol mewn gwaith llunio cynnar helpu'r tîm i ailfeddwl ei agwedd tuag at gynllun cyfan y rhaglen cyn i gynlluniau manwl gael eu cynhyrchu (SA2AM1, SA9AM1).

Ystyriwyd bod cyfranogaeth rhanddeiliaid a chyrff PSRh yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y rhaglenni a gynigir yn hyrwyddo cyflogadwyedd y myfyrwyr (SA2AM2, SA7AU1, SA9AM1). Mae rhagor o themâu penodol a bennwyd yn dilyn.

- Os defnyddir DA yn gynnar yn y gwaith o lunio rhaglenni (awgrym gan y grŵp o gofrestryddion), gallai ffocws y drafodaeth ford gron gynnar fod am faterion ehangach fel sicrhau gwybodaeth sylfaenol, cynhwysiant diwylliannol, perthnasedd ymarferol a chefnogaeth emosiynol i fyfyrwyr (SA2AM1).
- Dylai rhanddeiliaid gyfranogi yn y gwaith o addasu asesiadau i gynnwys DA yn gynnar yn y broses (SA7AU1).

Fodd bynnag, roedd adolygwyr sy'n fyfyrwyr yn cydbwyso eu cefnogaeth i gydgynhyrchu cynnar â myfyrwyr, gyda'u hymrwymiad i wneud adolygiad cymheiriaid ar ddiwedd y broses (SA2AM1, SA3AU1). Gwahanwyd yr adborth cynnar gan fyfyrwyr oedd yn ymdrin â materion eang fel ffocws, neu agwedd gyffredinol, oddi wrth y drafodaeth banel oedd yn cynnig llawer mwy o graffu manwl ar y ffordd y byddai'r rhaglen yn ymgyfuno mewn gwirionedd ac yn cael ei phrofi gan fyfyrwyr.

#### 3.3.1.3 Rôl y myfyrwyr yn y prosesau dilysu cyfredol

Myfyriodd y myfyrwyr hefyd ar werth cyfranogaeth y myfyrwyr yn gyffredinol ac ystyried sut y gallai hyn gael ei wella. Ystyriwyd bod cymryd rhan yn y broses ddilysu'n brofiad sy'n cyfoethogi ac sy'n ehangu eu safbwyntiau fel dysgwyr yn eu meysydd astudio eu hunain (SA2AM2, SA2AM1). Meddyliwyd bod cyfranogaeth y myfyrwyr yn gwella'r broses o lunio rhaglenni, gan ddod â safbwyntiau a mewnwelediadau gwerthfawr i'r broses (SA2AM2, SA2AM1, SA9AM1). Er enghraifft, credwyd bod trafodaethau panel yn cael eu gwella wrth i fyfyrwyr archwilio a phrofi'r strategaeth asesu, gan sicrhau mwy o amrywiaeth o ddulliau asesu, yn cynnwys dulliau dilys ac ymgysylltiad mewn trafodaethau creadigol am DA (SA2AM1, SA9AM1). Fodd bynnag, cynigiwyd safbwynt arall gan un adolygwr sy'n fyfyriwr a rybuddiodd y gallai myfyrwyr fod yn brin o'r profiad angenrheidiol mewn addysgu a llunio asesiad, a fydd yn cyfyngu ar eu cyfraniadau (SA3AU1).

Roedd adolygwyr sy'n fyfyrwyr yn teimlo y dylent gael eu hysbysu am y newidiadau a wneir i'r rhaglen o ganlyniad i'w cyfranogaeth, drwy'r Swyddfa Ansawdd neu gan gadeirydd y panel

(SA2AM2, SA2AM1). Ystyriwyd nad yw cyd-gynhyrchu, yn arbennig, wedi ei ddatblygu'n ddigonol (SA3AU1, SA2AU1, SA7AU1).

Roedd arweinwyr y myfyrwyr a'r adolygwyr sy'n fyfyrwyr yn myfyrio ar y ffaith bod angen datblygu dull a rennir a disgwyliadau a rennir am rolau'r adolygwyr sy'n fyfyrwyr a rolau arweinwyr y myfyrwyr mewn pwyllgorau craidd (SA2AU1, SA232, SA231, SA7AU1). Awgrymwyd y gallai diffyg rôl glir a chyson achosi i gyfranogaeth y myfyrwyr fod yn docynistaidd. Dywedodd un bod angen *"mwy o waith sylfaenol [mewn ymgysylltu â myfyrwyr] ar lefel yr ysgolion a'r cyfadrannau"* (SA7AU1).

Dywedwyd bod cynrychiolwyr cyrsiau'n derbyn gwaith papur cyfan rhaglen heb fawr ddim cyfarwyddyd ynglŷn â sut gyfraniad y dylent ei wneud (SA7AU1, SA2AU1). Yn yr achosion hyn, byddai amser y myfyrwyr a blaenoriaethau eraill yn cael eu blaenoriaethu (SA7AU1, SA2AU1). Dyma bwynt penodol pellach a wnaed:

- Mae angen canllawiau clir hefyd ar sut i ddefnyddio DA mewn ffordd briodol er mwyn cefnogi myfyrwyr i ymgysylltu â'r mater hwn yr oedden nhw'n ystyried ei fod yn ganolog i asesiad (SA9AU1).

Yn gyffredinol, roedd myfyrwyr yn teimlo ei bod hi'n bwysig cefnogi cyfranogaeth y myfyrwyr mewn dilysiad a llunio rhaglenni mewn ffordd strwythuredig, wedi ei seilio ar ddealltwriaeth o'u harbenigedd a'u profiad a chydnabod eu blaenoriaethau eraill.

### 3.3.1.4 Dichonoldeb rhaglenni a thaith astudio'r myfyrwyr

Gwerthfawrogwyd y panelau am eu bod yn caniatáu trafodaeth lawn am yr aliniad rhwng amcanion a chynnwys y rhaglen (yn cynnwys asesiad) gyda thîm y rhaglen yn bresennol. Nododd y cyfranogwyr y byddai natur ddwyochrog y drafodaeth yn sicrhau bod y materion wedi eu deall (SA2AM1, SA2AM1, SA7AU1).

O ganlyniad i drafodaethau mewn panelau dilysu a grwpiau cyfatebol, gallai myfyrwyr ddychmygu beth fyddai graddiant disgwyliedig y dysgu rhwng modiwlau ac asesu sut yr oedd cymorth myfyrwyr yn cael ei sgaffaldio ar draws y rhaglen (SA2AM1, SA2AM2).

Maes allweddol arall lle'r oedd myfyrwyr yn teimlo bod panelau dilysu'n hanfodol oedd mewn galluogi trafodaeth lawn ac agored am adnoddau staff a sgiliau staff (SA2AM1, SA7AU1). Er nad yw'r arfer hwn yn gyfredol ymhob sefydliad, teimlwyd ei fod yn arbennig o werthfawr o ran gwerthuso ymarferoldeb rhaglenni cydweithredol i sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cefnogi'n ddigonol (SA7AU1).

Roedd trafodaeth banel yn galluogi i fyfyrwyr wirio a sicrhau bod y wybodaeth sydd mewn llawlyfrau myfyrwyr yn gywir i gefnogi carfannau'r dyfodol (SA2AM1, SA7AU1).

### 3.3.1.5 Cynllun cynhwysol a chymorth i fyfyrwyr

Roedd trafodaethau ynghylch deall cefndiroedd ac anghenion amrywiol myfyrwyr, ac ateb y rhain drwy lunio rhaglenni'n ofalus, yn digwydd hefyd drwy banelau dilysu (SA2AM2, SA2AM1). Roedd sylwadau ychwanegol a wnaed gan fyfyrwyr yn canolbwyntio ar werth trafodaeth banel i sicrhau bod rhaglenni'n parhau'n gynhwysol. Rhoddwyd gwerth mawr i'r gallu i godi materion mewn perthynas â chefnogi myfyrwyr, yn arbennig yn achos rhaglenni lle'r oedd lleoliadau'n integrol. Ystyriwyd bod trafodaethau panel yn cynnig lle i gynnal trafodaethau am asesiad priodol ac addasadwy mewn ffordd gynhyrchiol gyda ffocws (SA2AM2, SA2AM1, SA7AU1). Dyma bwynt ychwanegol a wnaed:

- Mae angen i asesiadau fod yn ystwyth a chynhwysol, yn enwedig i fyfyrwyr niwroamrywiol. Gallai defnyddio DA mewn ffordd ddeallus wella hygyrchedd asesiad a gallai hefyd gael ei ddefnyddio i ddarparu cymorth astudio pwrpasol i fyfyrwyr niwroamrywiol (SA7AU1).

### 3.3.2 Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth yng Nghymru

Ychydig iawn o ymwneud â phartneriaethau yng Nghymru a wnai'r grŵp myfyrwyr. Roedd eu cyfraniadau'n canolbwyntio'n bennaf ar eu hymwybyddiaeth o arferion da a'u hymrwymiad i ymgysylltiad y myfyrwyr mewn llunio rhaglenni, a ystyriwyd yn arbennig o bwysig lle byddai myfyrwyr efallai'n symud rhwng sefydliadau.

#### 3.3.2.1 Cronni adnoddau ac arbenigedd

Un fantais bwysig i fyfyrwyr o gydweithio drwy Gymru gyfan oedd y posibilrwydd o rannu adnoddau ac arbenigedd. Efallai y byddai Partneriaeth yng Nghymru'n blatfform defnyddiol i rannu arferion da (SA3AU1, SA2AU1). Gallai cronfa o adolygwyr sy'n fyfyrwyr ledled Cymru alluogi hyfforddiant mwy effeithiol ac effeithlon a phrofiad gwell i fyfyrwyr (SA2AM1, SA7AU1). Dyma un pwynt penodol pellach a wnaed:

- Gallai hyfforddiant adolygwyr myfyrwyr ledled Cymru ganolbwyntio ar feysydd megis DA, lle gallai arweiniad sefydliadol fod yn brin (SA2AM1).

#### 3.3.2.2 Cyfranogaeth yn y gwaith o gymeradwyo rhaglenni a phartneriaethau

Roedd ymwybyddiaeth y gallai astudio drwy drefniadau partneriaeth fod yn heriol i fyfyrwyr ac na fyddai'r addysgu cyfredol yn addas i'r cyd-destun newydd bob amser. Byddai myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn prosesau cydweithredol o gymeradwyo rhaglenni'n helpu i sicrhau bod strwythur rhaglen gydlynol yn cael ei gadw er mwyn osgoi unrhyw ddatgysylltu yn y daith ddysgu (SA3AU1, SA9AM1). Mae cyfranogaeth myfyrwyr mewn prosesau cydweithredol o gymeradwyo rhaglenni'n helpu partneriaid i ddeall sut y byddai myfyrwyr yn profi'r rhaglenni. Dywedodd un cyfranogwr ei bod hi'n: *"hynod o bwysig bod myfyrwyr yn cyfranogi yn y gwaith o lunio partneriaethau o'r cychwyn un fel nad yw profiadau'r myfyrwyr yn mynd ar goll yn y niwl"* (SA3AU1).

Yn yr un modd, ystyriwyd bod ymwybyddiaeth y myfyrwyr o rôl y gwasanaethau cymorth yn nhaith astudio'r myfyrwyr yn bwysig iawn er mwyn deall achosion posibl o orgyffwrdd, ailadrodd a gwahaniaethau, a rheoli'r rhain yn effeithiol (SA7AU1, SA9AM1). Felly, ystyriwyd fod safbwynt hanfodol bwysig i'w gynnig gan fyfyrwyr mewn prosesau o gymeradwyo ac ail-gymeradwyo partneriaethau. Yn ehangach, ystyriwyd bod cyfranogaeth myfyrwyr mewn cymeradwyo partneriaethau'n allweddol i helpu i sicrhau amcanion sefydliadau partner sydd wedi eu halinio i ateb disgwyliadau myfyrwyr (SA7AU1, SA9AM1).

### 3.3.3 Rhwystrau rhag gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth

Roedd y myfyrwyr yn ymwybodol o nifer o heriau allweddol i weithio mewn partneriaeth yng Nghymru. Roedd y rhain yn ymwneud â chystadleuaeth (SA3AU1, SA7AU1) a diffyg safoni fframweithiau a phrosesau sicrhau ansawdd (SA3AU1, SA7AU1). O ran cyflwyno a gweithredu rhaglenni partneriaeth, roedd myfyrwyr yn teimlo y byddai'n hawdd iawn i brofiadau'r myfyrwyr mewn trefniadau partneriaeth gael eu hanwybyddu (SA3AU1, SA9AM1).

## 3.4 Cofrestryddion a rheolwyr ansawdd mewn colegau

Roedd cyfranogwyr yn y grŵp hwn yn cymryd rhan yn y gwaith o lunio, cymeradwyo a goruchwylio'n barhaus y cyrsiau addysg uwch a gynigir mewn colegau. Roedd eu cyfranogaeth o ddydd i ddydd mewn llunio rhaglenni'n amrywio yn ôl lefel eu swydd, ond roedd pob un wedi cymryd rhan yn y gwaith o lunio neu ddilysu rhaglenni o fewn y pum mlynedd ddiwethaf.

### 3.4.1 Pa agweddau o brosesau llunio a chymeradwyo rhaglenni sy'n sicrhau gwelliant?

Ystyriwyd bod adolygwyr allanol, yn enwedig y rhai gydag arbenigedd mewn myfyrwyr a cholegau addysg uwch oedd yn deall y lleoliad, yn cynnig safbwyntiau ffres ac adborth gwerthfawr. Fodd bynnag, er yr ystyrid bod myfyrwyr yn chwarae rôl werthfawr, roedd hynny'n bennaf mewn perthynas â rhoi adborth cynnar, yn hytrach nag fel aelodau ffurfiol o banelau dilysu. Ystyriwyd bod effeithiolrwydd y myfyrwyr ar banelau dilysu'n cael ei thanseilio gan y ffaith bod ganddynt anghenion hyfforddi sydd heb eu diwallu, yn enwedig mewn perthynas â natur wahanol darpariaeth addysg uwch mewn prifysgolion a cholegau, a gan ddisgwyliadau a chanfyddiadau a oedd wedi eu gwreiddio yn eu meysydd astudio eu hunain. Pan oedd myfyrwyr mewn colegau'n ymgysylltu'n gynnar yn y broses, roedd ffocws i'w cyfraniad ac roedd yn adeiladol a pherthnasol (SAP1b).

Roedd y ddogfennaeth oedd yn ofynnol gan brosesau dilysu wedi'u gyrru gan y brifysgol yn alinio ag anghenion y brifysgol, ond yn cynnwys agweddau sy'n ddefnyddiol i golegau, fel cysylltu â meincnodau allanol. Mae adolygwyr sy'n gymheiriaid academaidd (aelodau o staff prifysgol mewn pynciau eraill) yn darparu cyngor wedi ei seilio ar brosesau, yn hytrach na'r cyngor strategol wedi'i seilio'n gryf ar bynciau a gynigir gan arbenigwyr allanol. Mewn rhai achosion, lle mae ganddyn nhw ragdybiaethau wedi eu seilio ar bynciau o bosib, neu lle maen nhw'n methu deall natur addysg bellach a gynigir mewn colegau, teimlwyd nad oedd cyngor adolygwyr sy'n gymheiriaid academaidd yn ddefnyddiol yn ei weithrediad. Dyma awgrymodd staff addysg uwch mewn colegau: lle mae prifysgolion partner yn rhannu enghreifftiau o raglenni a gafodd eu dilysu'n llwyddiannus yn ddiweddar, gallan nhw dreulio mwy o amser yn ystyried cynllun y cyrsiau a phrofiad y myfyrwyr (SAP2).

#### 3.4.1.1 Alinio arferion addysgu ac asesu ag amcanion strategol y coleg partner

Roedd gan y cyfranogwyr ddealltwriaeth glir o botensial y prosesau dilysu a gefnogir gan y sefydliad dyfarnu i ymdrin â materion strategol. Teimlwyd y dylai prosesau dilysu ymwreiddio amcanion strategol y partneriaid, fel digideiddio a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (SAP2, SAP1a). Mae dilysu'n galluogi i raglenni alinio â'r arferion yn y diwydiant ac amcanion cyflogadwyedd strategol y coleg (SAP1a, SAP2).

- Mae trafodaethau am argaeledd adnoddau, cynllunio, a hygyrchedd rhaglenni'n hanfodol ar gyfer dilysu (SAP2).
- Mae cefnogi academyddion mewn colegau i gyflawni gofynion addysg uwch yn sicrhau taith esmwyth i'r myfyrwyr ac aliniad â safonau'r brifysgol. Teimlwyd bod yr agweddau hyn yn derbyn sylw mewn dilysiad ond nad oeddent yn ganolog iddo (SAP1a).

#### 3.4.1.2 Cyfranogaeth gynnar mewn trafodaethau: myfyrwyr, arbenigwyr allanol a rhanddeiliaid

Ystyriwyd bod trafodaeth gynnar gydag arbenigwyr allanol a myfyrwyr yn arbennig o werthfawr o ran gwella rhaglenni newydd. Gwelwyd bod ymgysylltu myfyrwyr yn gynnar yn y broses o lunio rhaglenni, defnyddio grwpiau ffocws a thrafodaethau anffurfiol yn cynhyrchu adborth gwerthfawr (SAP1a, SAP1b).

- Roedd cyfranogaeth gynnar aseswr allanol mewn deialog iterus (sail papur) gyda thîm y rhaglen, yn darparu rhaglenni perthnasol wedi eu llunio'n dda (SAP2).

#### 3.4.1.3 Rôl y myfyrwyr

Roedd y grŵp hwn yn ystyried bod cyfranogaeth y myfyrwyr yn cynnig gwerth. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o wahaniaeth rhwng ymgysylltiad anffurfiol cynnar â myfyrwyr a rôl fwy ffurfiol yr adolygwr sy'n fyfyriwr (o'r sefydliad dyfarnu). Er bod myfyrwyr yn darparu syniadau ffres, mae eu heffeithiolrwydd yn amrywio yn dibynnu ar y gefnogaeth y maen nhw'n ei chael a'u gwybodaeth gyd-destunol eu hunain (SAP1a, SAP1b).

Barnwyd fod trafodaethau anffurfiol a gweithdai strwythuredig gyda myfyrwyr y coleg yn fwy effeithiol na chyfranogaeth ffurfiol y panel yn y digwyddiad cymeradwyo ar gyfer rhaglenni newydd (SAP1b, SAP2).

- Gallai agwedd fwy rhagweithiol tuag at gydgynhyrchiad myfyrwyr gynnwys gofyn i fyfyrwyr ddechrau'r drafodaeth am feysydd fel asesiad. Gofynnodd un cyfranogwr: *"Pam na fyddem ni'n cysylltu â myfyrwyr ac yn gofyn iddyn nhw gyflwyno rhai safbwyntiau ynglŷn â sut y dylai dulliau asesu fod neu … sut y dylem fod yn ymateb i ddeallusrwydd artiffisial yn nhermau methodoleg asesu"* (SAP1b).
- Mae adborth parhaus gan fyfyrwyr cyfredol, yn cynnwys profi cynigion am adolygu addysgu cyfredol, yn arbennig o werthfawr (SAP2).

#### 3.4.1.4 Dichonoldeb rhaglenni a thaith astudio'r myfyrwyr

Roedd rhai cyfranogwyr mewn colegau'n ystyried mai un agwedd werthfawr o lunio a dilysu rhaglenni oedd ei ddefnyddio i werthuso taith astudio'r myfyrwyr ac ymarferoldeb y cynnig.

- Roedd y ffocws ar adnoddau a sylfaen sgiliau'r staff oedd wedi ei adeiladu i mewn i ddigwyddiadau dilysu'n ddefnyddiol i sicrhau bod y materion hyn yn cael eu hystyried cyn i'r rhaglen cael ei datblygu (SAP1a).
- Ystyriwyd bod trafodaethau am reoli risgiau mewn lleoliadau wedi bod yn werthfawr wrth ddarparu'r rhaglen (SAP1b).
- Mae sicrhau mewnbwn y myfyrwyr drwy gydol y broses ddilysu'n mynd i'r afael â diffyg cysylltiad posibl rhwng yr academyddion a'r myfyrwyr a allai ddod yn broblematig fel arall mewn rhaglen newydd (SAP1b).
- Roedd panelau'n annog dulliau asesu hyblyg, anhraddodiadol yn gyson a oedd yn helpu i gefnogi anghenion amrywiol y myfyrwyr ac yn canolbwyntio sylw ar yr angen i addysgu sgiliau lefel uwch (SAP1b).

### 3.4.2 Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth yng Nghymru

Ystyriwyd bod arferion da mewn partneriaethau'n cynnwys alinio a chydweithio, rhannu arbenigedd ac adnoddau, a chymorth cadarn gan wasanaethau proffesiynol.

#### 3.4.2.1 Alinio a chydweithio

Ystyriwyd bod gweithio mewn partneriaeth yn dod â budd i bawb lle'r oedd y ddau sefydliad wedi alinio'n dda a pherthnasoedd yn gryf (SAP1a, SAP1b, SAP2). Roedd cydnabod proffesiynoldeb y rhai oedd yn gweithio mewn colegau addysg uwch, lle'r oedd partneriaid yn barod i gydnabod cydraddoldeb safonau ac arferion yn hytrach na gorfodi gweithdrefnau unfath, yn rhyddhau egni ar gyfer gweithio mwy creadigol (SAP2, SAP1b).

Roedd cyfarfodydd rheoli a gweithredol rheolaidd yn meithrin alinio a chydweithio parhaus (SAP1a, SAP2). Mae partneriaethau gyda sefydliadau addysg uwch yn fuddiol i golegau addysg bellach oherwydd agweddau megis mynediad at gymwysterau DPP mewn addysg uwch, mynediad i sgiliau ymchwilio a rhwydweithiau cryf, yn aml ar sail leol neu ranbarthol (SAP1a, SAP1b). Dyma bwynt pellach a wnaed:

- Mae ymddiriedaeth, buddsoddiad mewn amser ac ewyllys da'n hanfodol ar gyfer partneriaethau llwyddiannus, gan eu gwneud nhw'n fwy na dim ond trefniadau trafodaethol (SAP1b).

#### 3.4.2.2 Cronni adnoddau ac arbenigedd

Un budd mawr i gydweithredu ledled Cymru oedd rhannu adnoddau ac arbenigedd oedd weithiau'n brin. Mae partneriaethau gyda cholegau'n galluogi i brifysgolion gyrraedd myfyrwyr a recriwtiwyd drwy ehangu cyfranogaeth na fyddai fel arall wedi cyrchu eu darpariaeth (SAP1b, SAP2).

Mae gan addysgwyr a chynllunwyr mewn colegau yr arbenigedd i ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau yn hytrach na dysgu gwybodaeth yn unig a sicrhau bod y sgiliau hynny ar gael i brifysgolion partner lle maen nhw'n cydweithio ar hyn (SAP1b, SAP2). Dyma bwyntiau penodol eraill a godwyd:

- Mae partneriaethau gyda phrifysgolion yn galluogi i staff colegau sy'n addysgu mewn addysg uwch gyrchu gweithgareddau ysgolheigaidd (SAP2).
- Nodwyd hefyd bod yr amgylchedd rheoleiddiol yng Nghymru'n cynnig manteision posibl i gronni adnoddau, er nad yw hyn yn cael ei weithredu'n llawn eto (SAP2).

#### 3.4.2.3 Gwasanaethau proffesiynol cefnogol

Roedd agweddau cadarnhaol gweithio mewn partneriaeth yn cynnwys y berthynas gyda safonwyr allanol y brifysgol sy'n goruchwylio'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, ystyriwyd hyn hefyd yn faes y dylid ei wella ymhellach (SAP1a, SAP1b, SAP2). Dyma oedd y pwyntiau pellach a wnaed:

- Ystyriwyd bod cysylltiad rheolaidd â thîm sicrhau ansawdd y brifysgol yn ffactor allweddol hefyd mewn cefnogi partneriaethau rhwydd (SAP1a).
- Ystyriwyd bod darparu tîm o amgylch cynigydd y rhaglen, oedd yn cynnwys staff sicrhau ansawdd, cynllunio a marchnata, yn arbennig o ddefnyddiol (SAP1a).

### 3.4.3 Rhwystrau rhag gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth

Roedd barn y cyfranogwyr ym maes addysg bellach am rwystrau rhag gweithio mewn partneriaeth yn adlewyrchu barn grwpiau eraill yn agos iawn. Roedd y rhain yn ymwneud â chystadleuaeth ganfyddedig, amrywiaeth annefnyddiol mewn prosesau sicrhau ansawdd a galwadau am fwy o gyllid a chefnogaeth wleidyddol.

#### 3.4.3.1 Cystadleuaeth ganfyddedig

Ystyriwyd mai cystadleuaeth am fyfyrwyr oedd y rhwystr mwyaf arwyddocaol i gydweithredu ledled Cymru. Fodd bynnag, pwysleisiodd y grŵp hwn hefyd y gallai hyn fod yn gamgysyniad cymaint ag y bo'n realiti. Awgrymodd y cyfranogwyr hefyd sut y gellid mynd i'r afael â chystadleuaeth wirioneddol neu ganfyddedig.

Mae cystadleuaeth ganfyddedig rhwng sefydliadau ac yn arbennig rhwng prifysgolion a cholegau yn yr un ardal yn rhwystro cydweithredu, ac mae rhai prifysgolion yn amharod i rannu arbenigedd a chefnogi colegau drwy ymrwymo amser y staff (SAP1b, SAP2).

Ystyrir bod partneriaethau mewn ardaloedd sydd ymhell yn ddaearyddol yn llai cystadleuol ac yn haws eu rheoli (SAP1a, SAP2).

- Mae aliniad strategol gofalus rhwng colegau a phrifysgolion yn angenrheidiol i ymdrin â chystadleuaeth a gwrthdaro ynghylch recriwtio myfyrwyr (SAP2).

#### 3.4.3.2 Safoni fframweithiau a phrosesau sicrhau ansawdd

Gwelwyd fod gwahaniaethau mewn rheoliadau am faterion sylfaenol, megis egwyddorion asesu amrywiol, yn creu problemau ymarferol mewn partneriaethau, gyda phartneriaethau niferus yn arwain at ymgysylltiad mewn amrywiaeth o fframweithiau a dehongliadau o'r ffordd y dylid deall Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (SAP2, SAP1a).

#### 3.4.3.3 Cyllid a chefnogaeth wleidyddol

Cododd y cyfranogwyr mewn colegau sy'n darparu addysg uwch nifer o faterion mewn perthynas â'r angen am gyllid ychwanegol ar gyfer partneriaethau addysg uwch mewn addysg bellach a galwyd am gefnogaeth wleidyddol i hyrwyddo cydweithio drwy Gymru gyfan.

O ystyried y rôl a chwaraeir gan golegau addysg uwch mewn ehangu mynediad a chefnogi myfyrwyr o grwpiau nad yw prifysgolion yn eu gwasanaethu'n dda, byddai adolygiad yn y pen draw o'r mecanwaith ariannu ar gyfer y ddarpariaeth hon yn rhesymol ac yn alinio'n dda â blaenoriaethau Medr (SAP1a, SAP2).

- Mae angen cymhelliant i annog cydweithio mewn perthynas ag addysgu cyfrwng Cymraeg (SAP2).
- Mae angen cymorth a diffiniad mwy eglur ar gyfer llwybrau sy'n arwain at addysg uwch gyda sylw arbennig i weithio gyda chyflogwyr er mwyn dangos sut y gall y llwybrau hyn fod yn esmwyth (SAP1b).
- Byddai datblygu templed i Gymru gyfan ar gyfer sicrhau ansawdd a goruchwylio partneriaethau yng Nghymru'n rhyddhau amser y staff a hefyd yn cefnogi profiad mwy cyson i'r myfyrwyr (SAP1a).
- Gyda chyrhaeddiad Medr, dylid annog colegau a'u prifysgolion partner sy'n dyfarnu graddau eu cyrsiau i ddathlu a myfyrio ar eu cyflawniadau (SAP1a).

## 3.5 Academyddion yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill

Roedd cyfranogwyr yn y grŵp hwn yn academyddion uwch mewn rolau arweinyddiaeth oedd wedi datblygu amrywiaeth o raglenni academaidd ac wedi cefnogi eraill i wneud hynny, gan gynnwys drwy gymryd rolau fel arbenigwyr allanol ar banelau. Roedd y sampl hwn hefyd yn cynnwys cyfranogwyr o ddau sefydliad yn Lloegr ac un cyfranogwr o brifysgol yn Ne Affrica ac un arall o brifysgol yn Awstralia. Roeddem hefyd wedi cynnwys academydd oedd yn gweithio mewn rôl wedi'i llunio'n benodol i gefnogi datblygiad rhaglenni yn y sampl hwn oherwydd eu harbenigedd.

### 3.5.1 Pa agweddau o brosesau llunio a chymeradwyo rhaglenni sy'n sicrhau gwelliant?

Roedd cyfranogwyr yn y grŵp hwn wedi pwysleisio themâu gweddol debyg i'r rhai sydd wedi eu trafod uchod. Roedd ganddyn nhw brofiadau personol llawer mwy cadarnhaol o gydweithio cynnar ac roedd nifer o ymyriadau newydd i gefnogi cydweithredu cynnar wedi eu hamlinellu, yn arbennig gan gyfranogwyr yn Lloegr a thramor.

#### 3.5.1.1 Alinio arferion addysgu ac asesu ag amcanion strategol y brifysgol

Gwelwyd bod dilysu'n ddull grymus o sicrhau aliniad strategol rhaglenni newydd, yn arbennig mewn perthynas â meysydd blaenoriaeth. Roedd cyfranogwyr yn ystyried bod dilysiad yn wiriad allweddol i sicrhau bod sgiliau cyflogadwyedd, megis arweiniad a gwytnwch, wedi eu hadeiladu i mewn i raglenni, gan adlewyrchu blaenoriaethau sefydliadol yng Nghymru ac mewn mannau eraill (SA2CRh1, SA1CRh1, SA3CRh1, SA3CRh4). Roedd dilysiad hefyd yn galluogi i integreiddiad asesu dilys a pharhaus gael ei sicrhau drwy'r holl raglenni sy'n alinio â strategaethau addysgu ehangach (SA2CRh1, SA1CRh1, SA3CRh1, SA3CRh4, SAT1, SALI1).

Mae'r defnydd moesegol o DA mewn dulliau asesu, wedi ei gydbwyso â datblygu meddwl beirniadol, yn strategol hanfodol, yn arbennig ar gyfer sicrhau cyflogadwyedd y myfyrwyr (SA2CRh1, SA1CRh1, SA3CRh1, SA3CRh4). Mae dilysu ac ail-ddilysu yn erbyn safonau

proffesiynol ac anghenion newidiol y diwydiant yn sicrhau bod rhaglenni'n berthnasol ac yn cefnogi cyflogadwyedd y myfyrwyr (SA1CRh1, RhC4, SAT1).

Dyma oedd y materion penodol yn ymwneud â gwerth strategol yr arferion dilysu cyfredol a godwyd gan gyfranogwyr y tu allan i Gymru:

- Defnyddir dilysiad i asesu a gwella mecanweithiau darparu newydd, megis darparu mewn bloc sy'n alinio ag amcanion strategol yn ymwneud â dysgu hyblyg (SALI1).
- Am ei fod yn gwerthuso defnydd moesegol o DA mewn asesiadau, roedd y broses ddilysu'n cefnogi ymrwymiadau strategol i gyflogadwyedd a dulliau dysgu cynhwysol (SALI1).
- Mae'n hyrwyddo asesiadau dilys yn y byd go iawn ac yn herio academyddion i ystyried arferion da megis asesiad parhaus (SALI1).
- Mae dilysiad yn erfyn effeithiol i hyrwyddo defnyddio DA mewn ffordd foesegol ac ystyriol (SAT1).

### 3.5.1.2 Cyfranogaeth gynnar mewn trafodaethau

Ystyriwyd bod cyfranogaeth gynnar cyflogwyr, myfyrwyr, a staff sicrhau ansawdd yn hanfodol i adnabod problemau posibl gyda'r llunio ac i sicrhau aliniad ag amcanion strategol (SA2CRh1, SA1CRh1, SA3CRh1, SA3CRh4, SAT1, SALI1). Mae cydweithrediad rhwng timau dysgu ac addysgu, timau sicrhau ansawdd, a chynrychiolwyr y myfyrwyr o ddechrau'r broses lunio rhaglenni'n sicrhau proses ddatblygu gydlynol ac yn rhyddhau creadigedd (SA1CRh1, SA3CRh3, SA3CRh4, SAT1, SALI1). Ystyriwyd hefyd bod ymgysylltu ag arbenigwyr allanol yn gynnar, yn enwedig mewn meysydd astudio newydd, yn werthfawr i sicrhau bod y cynllun yn gwneud synnwyr ac yn rhesymegol, ac i gael gafael ar wybodaeth benodol i bwnc am ddulliau addysgu (SA2CRh1, SA1CRh1, SALI1).

Cynigiwyd enghreifftiau penodol o effaith gadarnhaol trafodaeth gynnar.

- Crëwyd model dyrannu llwyth gwaith myfyrwyr mewn ymateb i adborth gan fyfyrwyr am lwyth gwaith gormodol. Mae'r model hwn, a ddatblygwyd gyda myfyrwyr a'r uned dysgu ac addysgu ganolog yng nghamau cynnar yr ailddilysu, wedi helpu i ddarganfod meysydd lle mae'r llwyth gwaith yn uchel neu'n isel yn wythnosol. Yna gellid addasu darpariaeth y cynnwys a gwneud cymorth wedi'i dargedu gan staff addysgu'n rhan ohoni (SA3CRh).
- Er bod rhaglenni'n alinio fel arfer gyda deilliannau rhaglenni na fydd modd eu cyflawni dim ond ym mlwyddyn derfynol yr astudio, yn dilyn trafodaethau gyda'r myfyrwyr a'r staff, cyflwynwyd deilliannau dysgu canolradd i bob blwyddyn er mwyn egluro cynnydd disgwyliedig y myfyrwyr o flwyddyn i flwyddyn (SA3CRh).
- Hefyd arweiniodd trafodaeth gynnar at greu cyfres gyson o feini prawf marcio ar gyfer asesiadau, wedi eu dewis o ddewislen, a hwylusodd gysondeb ar draws y rhaglen ac a oedd yn hawdd i'r staff ei gweithredu. Roedd y dull hwn yn effeithiol i staff mawr a grwpiau myfyrwyr, a hefyd yn sicrhau bod myfyrwyr yn gyfarwydd â'r meini prawf a ddefnyddiwyd wrth gefnogi 'llythrennedd asesu' (SA3CRh).

Disgrifiwyd ymyriadau penodol i hybu trafodaeth gynnar effeithiol gan gyfranogwyr y tu allan i Gymru. Roedd y rhain yn faterion penodol yn ymwneud â gwerth strategol arferion dilysu cyfredol a godwyd gan gyfranogwyr y tu allan i Gymru:

- Mae "sbrintiau llunio" yn cynnwys grŵp cydweithredol dan arweiniad yr ysgol academaidd, ond gan gynnwys myfyrwyr ac aelodau perthnasol o'r staff sicrhau ansawdd a staff y gwasanaethau proffesiynol. Mae'r grŵp hwn yn cymryd rhan mewn datblygu rhaglen ddwys dros 2-3 diwrnod. Elfen allweddol o'r dull hwn yw bod y deunyddiau dilysu'n cael eu cynhyrchu ar y cyd ac yn ystod y cyfnod hwnnw yn

unig, heb adolygiad pellach. Cafodd y dull hwn ei ddatblygu i ddechrau lle'r oedd y brifysgol yn gobeithio newid ei fodel darparu, ond yn awr mae drwy'r brifysgol gyfan gydag eithriadau dim ond i raglenni sydd ag achrediad proffesiynol (SALI1).

- Mae "partneriaid gwella cwricwlwm" yn grŵp o fyfyrwyr a benodir ac a gefnogir yn ganolog sy'n cefnogi datblygiad rhaglenni newydd a hefyd yn archwilio meysydd o ddiddordeb sy'n dod i'r amlwg mewn llunio cwricwla (SALI1).

#### 3.5.1.3 Rôl y myfyrwyr

Deallwyd fod myfyrwyr yn chwarae rôl hanfodol bwysig, yn enwedig yn nhermau darparu adborth ac yn ddelfrydol drwy brosesau cyd-greu (SA2CRh1, SA1CRh1, SA3CRh1, SA3CRh4, SAT1, SALI1). Fodd bynnag, gwelwyd bod eu cyfranogaeth a'u cyfraniad yn amrywio'n sylweddol rhwng rhaglenni a sefydliadau (SA2CRh1, SA1CRh1, SA3CRh1, SA3CRh4).

Efallai y byddai'n fwy defnyddiol casglu mewnbwn myfyrwyr i ddilysiad drwy grwpiau ffocws yn hytrach na chyfranogaeth ffurfiol mewn panelau (SA2CRh1, SA3CRh3). Mae mewnbwn myfyrwyr yn fwy gwerthfawr yn ystod y broses ail-ddilysu neu adolygiad blynyddol am eu bod yn adnabod y maes astudio ac wedi profi'r rhaglen bresennol yn barod (SA2CRh1, SA3CRh4). Dyma oedd y meysydd penodol ychwanegol a godwyd:

- Bydd myfyrwyr yn cyfranogi mewn cyd-gynhyrchu os oes rhywbeth o fudd iddyn nhw ynddo. Byddai taliad yn helpu ond dylai prifysgolion sicrhau bod myfyrwyr yn gallu defnyddio'r profiad ar eu curricula vitae, efallai drwy greu teitl mwy atyniadol i'r rôl (RhC4).
- Mae cyd-gynhyrchu a chyd-greu gyda myfyrwyr yn gweithio'n dda iawn ar lefel israddedig, am eu bod yn adnabod y rhaglen yn dda, ond yn llai llwyddiannus ar lefel ôl-raddedig (RhC4).
- Nododd un o'r cyfranogwyr y tu allan i Gymru bod myfyrwyr yn eu sefydliad yn chwarae rôl allweddol mewn dad-drefedigaethu cwricwlwm sydd â gogwydd proffesiynol (SAT1).

#### 3.5.1.4 Dichonoldeb rhaglenni a thaith astudio'r myfyrwyr

Mae adolygiad parhaus yn hanfodol ar gyfer gwelliant parhaus ac yn atal rhaglen rhag crwydro fel nad yw bellach yn darparu fel y bwriadwyd (SA2CRh1, SA1CRh1, SA3CRh1, SA3CRh4, SAT1, SALI1). Mae angen gwneud adolygiadau parhaus er mwyn adeiladu asesiad perthnasol i waith i mewn, yn enwedig mewn perthynas â DA (SA2CRh1, SA3CRh4).

Roedd cyfranogwyr y tu allan i Gymru hefyd yn cynnig enghreifftiau o ddefnyddio adolygiad blynyddol neu barhaus i sicrhau hyfywedd ac i gefnogi myfyrwyr.

- Mae adolygiad academaidd a thracio data parhaus yn sicrhau bod unrhyw ostyngiad mewn recriwtiad yn cael ei nodi a bod modd mynd i'r afael ag o (SAT1).
- Mae defnydd parhaus o ddata am gyfranogaeth y myfyrwyr, ac adrodd blynyddol amdano, yn hyrwyddo defnyddio strwythurau rhaglen newydd megis addysgu cryno (bloc) i gefnogi myfyrwyr yn well (SALI1).

### 3.5.2 Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth yng Nghymru

Yn gyffredin â grwpiau cyfranogwyr eraill, soniodd cyfranogwyr academaidd fod partneriaethau effeithiol yng Nghymru'n ffynnu o aliniad agos yr amcanion strategol. Gwelwyd hefyd eu bod yn cynnig manteision yn nhermau cronni adnoddau, yn enwedig mewn meysydd arbenigol.

#### 3.5.2.1 Alinio a chydweithio

Ystyriwyd fod partneriaethau effeithiol yng Nghymru'n gorffwys ar sefydlu amcanion cyffredin a ffyrdd cyffredin o weithio er gwaethaf gwahaniaethau sefydliadol (SA1CRh1, SA2CRh1, SA3CRh1, RhC4).

- Pennwyd un maes penodol o arfer da mewn perthynas â phrentisiaethau gradd - sy'n alinio'r safonau cwricwlwm a phrentisiaeth yn llwyddiannus, gan sicrhau bod y rhaglenni'n ateb anghenion cyflogwyr, cyrff proffesiynol a phrifysgolion ac yn cefnogi addysg fforddiadwy i fyfyrwyr (RhC4).

#### 3.5.2.2 Cronni adnoddau ac arbenigedd

Awgrymodd y cyfranogwyr y gallai cronni adnoddau ac arbenigedd ymysg sefydliadau wella eu cynigion addysgol, yn enwedig mewn pynciau galwedigaethol neu feysydd arbenigol (SA2GC1, SA3CRh, RhC4). Gallai rhannu rhaglenni ac adnoddau hefyd ryddhau arbenigedd ymchwil, gan arwain at addysgu mwy cyfoethog wedi ei arwain fwy gan ymchwil (SA2CRh1, SA3CRh1).

### 3.5.3 Rhwystrau rhag gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth

Adroddwyd bod yr heriau'n cynnwys cystadleuaeth go iawn a chystadleuaeth ganfyddedig, amrywiadau mewn rheoliadau a phrosesau, a chyfyngiadau ar gyllido. Soniodd y grŵp hwn hefyd y byddai fframweithiau safonedig yn ddefnyddiol i symleiddio partneriaethau. Ystyrid bod camalinio technolegol, er enghraifft rhwng systemau allweddol a ddefnyddiwyd, a diffyg atebolrwydd, yn gallu cymhlethu gweithrediad rhaglenni cydweithredol.

#### 3.5.3.1 Cystadleuaeth ganfyddedig

Adroddwyd bod cystadleuaeth rhwng sefydliadau, yn enwedig mewn disgyblaethau gyda chwotâu ar nifer y myfyrwyr, yn rhwystro cydweithio. O ran y pryderon y gallai partneriaid mewn prifysgolion eraill neu yn y sector addysg bellach yng Nghymru ddod yn gystadleuwyr, gwelwyd bod y rhain yn cael eu gwaethygu gan brinder cyllido a gostyngiad mewn recriwtio myfyrwyr (RhC4, SA3CRh4).

#### 3.5.3.2 Safoni fframweithiau a phrosesau sicrhau ansawdd

Mae gwahaniaethau mewn rheoliadau a phrosesau sicrhau ansawdd ac mewn fframweithiau a ddefnyddir mewn meysydd fel asesiad neu lwyth gwaith myfyrwyr neu staff yn cymhlethu ymdrechion partneriaeth (RhC4, SA3CRh1). Mae yna alw am agwedd fwy safonedig tuag at brosesau dilysu a dogfennaeth yng Nghymru i symleiddio cydweithrediad (SA2CRh1, SA3CRh1, SA2CRh3, RhC4).

#### 3.5.3.3 Cyllido a chefnogaeth wleidyddol

Cydnabuwyd fod galw sy'n cynyddu'n gyflym am wasanaethau cymorth lles myfyrwyr a chymorth dysgu mewn addysg uwch. Ystyriwyd fod y gwasanaethau hyn wedi eu sefydlu'n well a'u hariannu'n well mewn colegau, gan arwain at ostyngiad posibl mewn cefnogaeth lle'r oedd rhaglenni cydweithredol yn gofyn bod myfyrwyr yn symud o goleg i brifysgol (SA2CRh1, SA3CRh4).

Soniodd un cyfranogwr am y ffocws sylweddol mewn polisïau ar lwybrau hyblyg i roi lle i fyfyrwyr o gefndiroedd amrywiol (Diplomâu BTEC, Lefelau A, Bagloriaeth Cymru), ac roedd yn deall y byddai'r datblygiad hwn yn gofyn am gymorth mwy unigolyddol ond gofynnodd am fwy o eglurder ynghylch yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gan brifysgolion.

#### 3.5.3.4 Cyflwyno a gweithredu rhaglenni a gynigir mewn partneriaeth

Gellid darganfod a mynd i'r afael â phroblemau gydag alinio rheoliadau, prosesau sicrhau ansawdd, ac arferion gweinyddu ar draws sefydliadau yn ystod y cam llunio cychwynnol, ond gwelwyd eu bod yn dod i'r wyneb yn amlach wrth gyflwyno rhaglenni cydweithredol (SA2CRh1, SA3CRh3).

Roedd problemau pellach a welwyd yn ymwneud â:

- Cham-alinio technoleg a chyfathrebu, gan arwain at oedi wrth rannu deunyddiau a chaniatâd (SA2CRh1)
- Diffyg gweithredu ar rai penderfyniadau a wnaed ar y cyd (SA2CRh1).

### 3.5.4 Materion eraill

#### 3.5.4.1 Amser y staff academaidd

Roedd cyfranogwyr yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill yn pryderu am y gofynion cynyddol ar staff wrth i sefydliadau wynebu cyfyngiadau yn eu cyllideb a pheidio penodi aelodau newydd o staff yn lle personél sy'n ymadael. Roedd y galwadau ychwanegol yn cynnwys cymryd rôl fwy gweinyddol mewn dilysu (SA2CRh1, SA3CRh1, SA2CRh4, RhC4, SAT1, SALI1). Awgrymwyd y byddai cytuno ar faint penodol o amser (absenoldeb) i staff fel y gallant arwain gweithgareddau dilysu ac ail-ddilysu ar yr un model ag absenoldeb ymchwil yn ateb posibl i'r broblem hon (SA3CRh1, SA3CRh3, SA3CRh4).

## 3.6 Cynrychiolwyr cyrff y sector cyfan

Roedd gan y cyfranogwyr yn y grŵp hwn oruchwyliaeth eang dros ddilysiad neu achrediad neu roedden nhw'n gyfrifol am gefnogi'r sector prifysgolion yn ei ddull o wella'r cwricwlwm. Roedd y rhai oedd â rôl reoliadol neu arweiniad wedi eu cynnwys yn y sampl hwn hefyd.

### 3.6.1 Pa agweddau o brosesau llunio a chymeradwyo rhaglenni sy'n sicrhau gwelliant?

Roedd y cyfraniadau'n pwysleisio pwysigrwydd defnyddio dilysiant i alinio addysgu ac asesiad gydag amcanion strategol ehangach, yn arbennig mewn perthynas ag integreiddio DA mewn addysg.

Ystyriwyd bod cyfranogaeth gynnar staff sicrhau ansawdd a myfyrwyr mewn llunio rhaglenni'n hanfodol er mwyn sicrhau perthnasedd, ateb gofynion allanol ac fel gwiriad ar ymarferoldeb darpariaeth y rhaglen. Deallwyd bod myfyrwyr yn integrol i'r broses ddilysu, er y gwelwyd bod angen cymorth ychwanegol arnynt ar gyfer cyfranogi. Pwysleisiwyd rôl y gwasanaethau proffesiynol hefyd wrth fynd i'r afael ag ystyriaethau ymarferol a hyrwyddo cynllun cynhwysol.

Roedd y cyfranogwyr yn gefnogol o wneud adolygiadau rhaglen parhaus trwyadl er mwyn gwerthuso cynnwys mewn perthynas â chyflogadwyedd ac aliniad â safonau'r sector neu'r diwydiant. Ystyriwyd bod defnyddio grwpiau cynghori allanol a chyfranogaeth y myfyrwyr yn hanfodol yn y gwerthusiad parhaus hwn.

#### 3.6.1.1 Alinio arferion addysgu ac asesu ag amcanion strategol

Roedd cyrff y sector yn cynnwys sefydliadau oedd yn achredu neu'n goruchwylio perfformiad prifysgolion yn erbyn safonau proffesiynol. Roedd y prosesau goruchwylio hyn yn gwerthuso sefydliadau yn erbyn dangosyddion allweddol a deilliannau dysgu'r myfyrwyr yn bennaf er mwyn asesu sut mae'r rhaglenni proffesiynol hynny'n ffitio ag amcanion strategol corff y sector (RhC1, RhC2, RhC3, RhC5). Fodd bynnag, roedd y cyfranogwyr yn honni y dylai dilysiad sicrhau bod rhaglenni'n cyfateb ag uchelgeisiau strategol y sefydliad hefyd, yn

arbennig mewn perthynas â sgiliau cyflogadwyedd a defnydd moesegol o DA. Roedd cyfranogwyr yn y grŵp hwn yn fwy gofalus ynglŷn â chamddefnyddio DA nag oedd grwpiau eraill, ac roedden nhw'n galw ar brifysgolion i ddatblygu consensws ar ddefnyddio DA mewn asesiadau i gynnal uniondeb a gonestrwydd academaidd (RhC1, RhC5, RhC7). Dyma sylw gan gyfranogwr sy'n dangos enghraifft o'r thema hon:

*"… Rydw i'n meddwl bod [DA] yn dod fel trên … ac mae'n ein bwrw ni ac mae'n rhaid i ni addasu. Ond i wneud hynny'n ofalus ac yn ddiogel… mae angen i ni dynnu llawer o gymorth a chefnogaeth i mewn ar gyfer y staff i'w galluogi nhw i wneud hynny'n gywir"* (RhC2).

Gwelwyd bod datblygu systemau dilysu addasol yn cynnwys datblygu canllawiau a systemau cymorth i helpu'r myfyrwyr a'r cyfadrannau i lywio drwy gymhlethdodau DA a gwerthfawrogi ei risgiau a'i fanteision (RhC1, RhC5, RhC7).

Dyma faterion pellach a godwyd:

- Dylai dilysiant sicrhau bod addysgu ac asesiad yn gydlynol, yn arbennig o amgylch dulliau arloesol sy'n cynnwys ond sydd heb eu cyfyngu i DA (RhC5).
- Mae angen i brifysgolion ddefnyddio dilysiant i ddiffinio defnyddiau priodol ac amhriodol o DA mewn addysgu, gan bwysleisio pwysigrwydd ystyriaethau moesegol a bod yn agored a gonest (RhC1).

#### 3.6.1.2 Cyfranogaeth gynnar mewn trafodaethau

Ystyriwyd bod cyfranogaeth gynnar y staff sicrhau ansawdd, y myfyrwyr a'r arbenigwyr allanol yn hanfodol ar gyfer dilysu rhaglenni'n llwyddiannus (RhC3, RhC5, RhC7).

Adroddwyd bod ymgysylltu â'r rhanddeiliaid hyn yn gynnar yn helpu i adnabod problemau posibl, alinio rhaglenni gyda rheoliadau ac anghenion y diwydiant a'r sector, a helpu i sicrhau taith esmwyth a di-dor o ddysgu academaidd i gymhwysiad ymarferol (RhC3, RhC5, RhC7). Mae'r dyfyniad dilynol yn enghraifft o'r sylwadau hyn *"… os byddwch yn sicrhau cyfranogaeth y timau sicrhau ansawdd a'r myfyrwyr hyd yn oed cyn cwmpasu'r farchnad, gallwch sicrhau bod elfennau ymarferol a damcaniaethol yn cael eu hintegreiddio i bob modiwl mewn ffordd gydlynol sy'n cefnogi myfyrwyr"* (RhC7).

#### 3.6.1.3 Rôl y myfyrwyr wrth ddatblygu rhaglenni newydd neu ddiwygio rhaglenni cyfredol

Ystyriwyd bod myfyrwyr yn chwarae rôl hanfodol ym mhrosesau dilysu'r prifysgolion, gan gyfrannu trwy banelau, cynrychiolwyr undebau myfyrwyr, a grwpiau ffocws (RhC7, RhC5).

Deallwyd bod sylwadau'r myfyrwyr yn hynod werthfawr o ran sicrhau bod rhaglenni'n ateb anghenion y myfyrwyr ac yn dod â safbwyntiau newydd i'r broses (RhC7, RhC3). Fodd bynnag, ystyriwyd bod hyfforddiant a chefnogaeth ychwanegol a gwell yn angenrheidiol i sicrhau eu cyfranogaeth ystyrlon.

Dyma faterion eraill a godwyd:

- Mae myfyrwyr mewn sefyllfa dda i ddeall sut mae dysgu'n cael ei brofi a sut mae angen i fodiwlau adeiladu ar ei gilydd ar draws y rhaglen gan olygu mai eu cyfraniadau ynglŷn â chydlyniad a strwythur y rhaglen yw'r mwyaf craff yn aml iawn (RhC7).
- Yn aml iawn mae myfyrwyr mewn dilysiannau prifysgol yn hollol newydd i'r broses ac nid ydynt yn lleisio eu cyfraniad yn effeithiol am nad ydyn nhw'n ymwybodol sut i ymdrin â'r ddogfennaeth na'r digwyddiad (RhC3).

#### 3.6.1.4 Cynllun cynhwysol a chymorth i fyfyrwyr

Pwysleisiodd y cyfranogwyr bwysigrwydd defnyddio dilysiant i archwilio sut y byddai myfyrwyr yn cael eu cefnogi drwy gydol eu hastudiaethau (AM5, AM7).

Roedden nhw'n pwysleisio ystyriaethau ymarferol fel trafnidiaeth ac argaeledd adnoddau oherwydd gall cyrsiau ddechrau tra bydd y campysau ar gau. Cyfeiriwyd hefyd at broblemau yn ymwneud â chymorth academaidd a chymorth lles yn ystod y dysgu mewn lleoliad (AM5, AM7).

Dyma bwyntiau penodol eraill a godwyd:

- Dylid defnyddio dilysiant i herio timau addysgu i ddatblygu dulliau addysgu ac asesu priodol i fyfyrwyr niwroamrywiol a'r rheiny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (RhC3).
- Yr adolygwyr sy'n fyfyrwyr yw'r rhai sy'n deall y materion ymarferol yn aml iawn ac sy'n holi staff amdanynt yn ystod y dilysu (AM7).
- Mae angen i'r gwasanaethau proffesiynol fod yn gyfrannog yn y dilysu, yn arbennig o ystyried pryderon diweddar am les ac iechyd meddwl myfyrwyr (RhC5).

## 3.6.2 Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth yng Nghymru

Ystyriwyd y mathau o bartneriaethau a ddymunir yn y sector addysg uwch yng Nghymru fel y rhai sy'n cydweithio rhwng sefydliadau addysg bellach ac uwch. Barnwyd fod y rhain yn effeithiol lle'r oedden nhw'n cael eu defnyddio i gronni adnoddau, ac i rannu arbenigedd, yn arbennig mewn meysydd arbenigol.

Adroddwyd fod y partneriaethau hyn yn werthfawr lle'r oedden nhw'n gwella mynediad i addysg uwch ac yn ateb anghenion datblygiad rhanbarthol a nodau strategol fel hyrwyddo dwyieithrwydd.

### 3.6.2.1 Alinio a chydweithio

Ystyriwyd fod partneriaethau yng Nghymru'n gynhyrchiol lle'r oedd y ddau bartner yn deall ac yn rhannu'r un nodau eang o amgylch ateb anghenion y rhanbarth. Cydnabuwyd gwahaniaethau mewn ffyrdd unigol o weithio ac ystyriwyd eu bod yn anochel ac heb eu cyfyngu i'r sector yng Nghymru (RhC2, RhC7). Ystyriwyd hefyd bod gweithio o amgylch y gwahaniaethau hyn yn bosibl lle'r oedd trafodaethau rhwng partneriaid ar bob lefel yn agored a chanddynt ffocws (RhC1, RhC2, RhC5).

### 3.6.2.2 Cronni adnoddau ac arbenigedd

Ystyriwyd fod rhannu arbenigedd yn hanfodol, yn enwedig mewn meysydd arbenigol neu ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg, a hynny'n arbennig am fod sefydliadau'n wynebu straen ariannol (RhC1, RhC5). Gallai'r dull hwn hefyd gefnogi llwybrau myfyrwyr amrywiol a moddau niferus o ddarparu cyrsiau (RhC1, RhC7).

### 3.6.2.3 Ystyriaethau strategol a daearyddol

Ystyriwyd fod gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig rhwng sefydliadau addysg bellach ac uwch, yn ffordd o fynd i'r afael â rhai heriau sy'n gysylltiedig â daearyddiaeth oherwydd gallai rhaglenni gwerthfawr, a gynigir mewn lleoliadau gwledig neu lle mae cysylltiadau trafnidiaeth yn wael, fethu â phenodi myfyrwyr o gefndiroedd traddodiadol (RhC5, RhC1).

Pwynt ychwanegol a godwyd oedd bod:

- Cynnig rhaglen addysg uwch drwy golegau addysg bellach yn agosach at y mannau lle mae pobl yn byw mewn ardaloedd gwledig yn werthfawr iawn lle maen nhw angen neu eisiau aros yn eu cymunedau (AM1).

#### 3.6.2.4 Diwallu anghenion sydd heb eu hateb

Deallwyd fod partneriaethau rhwng sefydliadau addysg bellach ac uwch yn darparu mynediad at addysg uwch i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd (RhC1, RhC3, RhC5). Gallai'r rhain gynnwys pobl mewn ardaloedd gwledig neu fyfyrwyr mewn maes galwedigaethol sy'n gwneud cymwysterau ar lefelau 3, 4 neu 5, y mae rhai ohonynt wedyn efallai'n penderfynu cymryd cymhwyster atodol er mwyn ennill gradd lawn (AM1, AM7).

### 3.6.3 Rhwystrau rhag gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth

Ystyriwyd fod cystadleuaeth yn rhwystr sylweddol i gydweithio ymysg y grŵp hwn, ond cynigiwyd atebion a safbwyntiau pellach hefyd.

#### 3.6.3.1 Cystadleuaeth ganfyddedig neu gystadleuaeth go iawn

Barnwyd fod cystadleuaeth ddianghenraid, yn arbennig ar lefelau 3, 4 a 5, yn rhwystro cydweithrediad (RhC1, RhC2). Roedd y ffocws ar recriwtio myfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru a phwysau ariannol wedi tynnu sylw at y broblem gan danseilio ymdrechion cydweithredol ymhellach (RhC1, RhC2, RhC5). Cyfeiriodd rhai cyrff yn y sector at broblem danategol y model cyllido ar gyfer addysg uwch fel un sydd mewn tensiwn anochel gydag ymrwymiad strategol i gydweithio (RhC2, AM7). Esboniodd un o'r cyfranogwyr yn y grŵp hwn:

*"… Dw i'n meddwl fod Cymru eisiau bod yn debyg i'r Alban, ond mae wedi ei threfnu'n debycach i Loegr ar hyn o bryd. A lle'r sefydliadau yng Nghymru eu hunain yw penderfynu a ydyn nhw'n mynd i fodelu'r ymddygiad a'r ymddiriedolaeth a chydweithrediad y system y maen nhw eu heisiau mewn gwirionedd. Oherwydd mae'n system fach ac nid system fach yw Lloegr. Ac efallai y byddai dull system fach yn gweithio'n well i Gymru, a'r cwbl sydd ei angen yw'r hyder i ymroi i hynny'n fwy cyflawn"* (RhC2).

Ystyriwyd fod angen cynnal trafodaethau ar lefel strategol er mwyn mynd i'r afael â chystadleuaeth am yr un grwpiau o fyfyrwyr a'r canfyddiad y gallai colegau addysg bellach fod yn gwerthu'n rhatach na'u prifysgolion partner strategol drwy ostwng eu ffioedd addysgu (RhC1, RhC2).

Hefyd, efallai fod sefydliadau addysg bellach yn ystyried mai nhw eu hunain yw'r ateb cyflawn, yn hytrach na bod yn rhan o ymateb rhanbarthol cydlynol, a ddylai hefyd gynnwys prifysgolion ymchwil dwys (RhC1).

#### 3.6.3.2 Safoni fframweithiau a phrosesau sicrhau ansawdd

Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod bod angen cynllunio gofalus a diwydrwydd dyladwy ar bartneriaethau ac roeddent yn ystyried y dylid ymdrin â phroblemau fel alinio safonau academaidd a phrosesau trosglwyddo credydau mewn ffordd strwythuredig wrth sefydlu partneriaeth (RhC3, RhC7).

Dyma oedd y pwyntiau penodol a wnaethpwyd:

- Mewn partneriaethau rhwng sefydliadau addysg bellach ac uwch lle mae'r sefydliad addysg uwch yn gorff dyfarnu, mae'n rhesymol i'r partner addysg uwch ddisgwyl aliniad gyda'u prosesau (RhC1).
- Mae cydweithio yng Nghymru'n caniatáu i ddarparwyr newydd ddod i mewn i'r farchnad addysg uwch, ac o ystyried beth sydd i'w ennill, dylid gallu goresgyn gwahaniaethau'n weddol hawdd (RhC3).
- Dylid amlinellu trosglwyddo credydau a phrosesau allweddol mewn contractau cychwynnol. Byddai'r cyfranogwr yn disgwyl gweld y rhain cyn cymeradwyo rhaglen gydweithredol yn eu maes (RhC7).

### 3.6.3.3 Diffinio llwybrau rhanbarthol i mewn i addysg uwch

Er bod grwpiau cyfranogwyr eraill yn ymwybodol o gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ynghylch hyrwyddo llwybrau rhanbarthol clir i mewn i addysg uwch, roedd cyfranogwyr yn y grŵp hwn yn ystyried bod y diffyg eglurder cyfredol yn rhwystro cydweithredu a hefyd yn gwaethygu cystadleuaeth go iawn neu ganfyddedig (RhC1, RhC2).

Dyma oedd y pwyntiau mwy penodol a wnaed:

- Dylid diffinio'r llwybrau i mewn i addysg uwch ar lefel ranbarthol (AM1).
- Mae angen i lwybrau gael eu cefnogi gan ddysgu cydlynol a chymorth logistaidd i ddysgwyr o fewn systemau addysg rhanbarthol (AM1).

### 3.6.3.4 Cyflwyno a gweithredu rhaglenni a gynigir mewn partneriaeth

Dywedwyd fod pryderon am eiddo deallusol a diffyg ymddiriedaeth rhwng partneriaid yn tanseilio cyflwyniad partneriaethau llwyddiannus (RhC3, RhC7). Ni welwyd bod rhannu deunyddiau a dulliau arloesol yn beth hawdd i academyddion, a gallai diwylliannau prifysgol rwystro'r broses hon ymhellach mewn gwirionedd (RhC1, RhC2).

Er bod newidiadau diwylliannol tuag at fod yn agored a chydweithredu'n heriau, maen nhw wedi derbyn sylw mewn mannau eraill lle mae adeiladu perthynas yn barhaus yn meithrin amgylchedd cydweithredol (RhC2, RhC7).

Dyma bwynt ychwanegol a wnaed:

- Mae'n hanfodol penodi'r bobl gywir mewn rolau sy'n cynnwys cysylltiad â phartneriaid, yn arbennig y rolau hynny sy'n cynnwys goruchwyliaeth. Meddai un cyfranogwr: *"Yr unigolion hyn sy'n gyfrifol am lwyddiant partneriaethau … maen nhw'n arwyr tawel, ond gall yr un anghywir fod yn rheswm pam mae partneriaeth yn methu"* (RhC7).

# 4. Y drafodaeth

## 4.1 Cydweithrediad cynnar wrth lunio cwricwla

Teimlwyd bod trafodaeth gydweithredol gynnar sy'n cynnwys amrywiaeth eang o weithredwyr a rhanddeiliaid yn hanfodol wrth ddefnyddio dilysu fel mecanwaith ar gyfer gwelliant wedi ei seilio ar dystiolaeth. Roedd cyfranogwyr yn aml yn dweud mai'r diwydiant neu'r rhanddeiliaid proffesiynol, yr arbenigwyr allanol a'r myfyrwyr oedd yn dod â'r gwerth mwyaf i drafodaethau lle'r oedd ffocws, siâp a rhesymeg y rhaglenni'n dal i fod yn agored. Er bod yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar brosesau dilysu rhaglenni academaidd, y rheswm yn aml iawn am y gydnabyddiaeth eang fod rôl arbenigwyr allanol a rhanddeiliaid diwydiannol mewn trafodaethau cynnar mor werthfawr oedd eu gallu i adnabod ymhle'r oedd rhaglenni, wedi eu noddi neu eu cefnogi gan gydweithwyr uwch, yn anymarferol o ran y gallu i'w marchnata neu o ran eu darparu.

Roedd rhai sefydliadau'n darparu timau proffesiynol i gefnogi cynigydd y rhaglen i ddatblygu'r rhaglen, ond mae'n ymddangos bod hyn wedi ei gyfyngu i achosion strategol bwysig, fel partneriaeth neu ddulliau newydd o ddarparu. Rhoddwyd esiamplau o ymgysylltiad llwyddiannus â'r rhanddeiliaid a'r myfyrwyr yn gynnar yn y broses lunio, mewn perthynas â phrentisiaethau gradd yn arbennig, ac roedd gan bobl feddwl uchel o'r rhain ond nid oeddent yn arferion cyffredin. Hefyd soniodd grwpiau sy'n canolbwyntio ar sicrhau ansawdd am effeithiolrwydd cyn-fyfyrwyr mewn trafodaethau cydweithredol cynnar.

Gallai "sbrintiau dylunio" a nodir yma gefnogi cydweithio hefyd o bosib. Mewn sbrintiau dylunio mae timau'r rhaglenni, y myfyrwyr a staff y gwasanaethau proffesiynol yn cynhyrchu cynlluniau rhaglen derfynol mewn proses dau i dri diwrnod. I'r un graddau, gallant fod yn amgylcheddau llawn straen, ac wrth i'r staff ymdrechu i gynhyrchu dogfennaeth glir o fewn yr amser a osodwyd, gallai'r broses gyfnerthu'r ddynameg pŵer bresennol fel nad yw safbwyntiau anacademaidd yn cael eu rhannu. Peth mwy addawol efallai yw cynllun y sonnir amdano yma ac a ddatblygir mewn prifysgol yn Lloegr lle mae carfan o fyfyrwyr amlddisgyblaethol sydd wedi ei hyfforddi'n ganolog yn cyfrannu at lunio cwricwla cynnar. Roedd y sefydliad yn dibynnu ar y garfan yma hefyd i ddatblygu agweddau tuag at faterion sy'n dod i'r amlwg mewn llunio rhaglenni.

Cafwyd dadl sy'n dweud y dylai cyd-lunio cwricwlwm adlewyrchu datblygiad cynhyrchion, sy'n cynnwys timau'r rhaglenni, cyflogwyr, arbenigwyr allanol a myfyrwyr o'r cychwyn un er mwyn gosod blaenoriaethau'r cwricwlwm ac integreiddio dysgu profiadol [9, 10, 11]. Roedd datblygiad cyntaf y prentisiaethau gradd yn enghraifft o'r dull hwn, ac yn gofyn am gydweithrediad ymysg prifysgolion, cyflogwyr a chyrff proffesiynol ac, er enghraifft, gyflwyno adolygiadau tair rhan i sicrhau datblygiad sgiliau parhaus yn rhan o'r cwricwlwm [12].

Mae sefydlu byrddau cynghori ar gwricwla, sy'n cynnwys cyflogwyr, arbenigwyr o fyd diwydiant, myfyrwyr, ymarferwyr, a chyrff proffesiynol, lle bo'n berthnasol, yn meithrin cydweithrediad a gwelliant hirdymor yn y cwricwla. Mae Bwrdd Cynghori Cyflogwyr Prifysgol Sheffield Hallam wedi bod yn arbennig o effeithiol, gan arwain at well datblygiad cwricwlwm a

[9] Lowden, K., Hall, S., Elliot, D. a Lewin, J. (2011) 'Employers' perceptions of the employability skills of new graduates'. Edge Foundation, Llundain: www.educationandemployers.org/wp content/uploads/2014/06/employability_skills_as_pdf_-_final_online_version.pdf

[10] Healy, A., Perkmann, M., Goddard, J. a Kempton, L. (2014) 'Measuring the Impact of University-Business Cooperation: Final Report Creative Fuse North East: Initial Report of the Project View project Decentralisation and Local Growth View project'. Y Comisiwn Ewropeaidd, Lwcsembwrg: https://op.europa.eu/en/publication-detail/-/publication/8c3b24c9-2135-4436-993f-6d09ca87fc5f/language-en/format-PDF/source-196991702

[11] Carlile, P.R., Davidson, S.H., Freeman, K.W., Thomas, H. a Venkatraman, N. (2016) 'Reimagining Business Education' (yr argraffiad cyntaf, tud. 1-97). Emerald Group Publishing Cyf, Bingley.`

[12] Nawaz, R. (2023) 'Degree apprenticeships: a great UK invention that needs better nurture': www.timeshighereducation.com/blog/degree-apprenticeships-great-uk-invention-needs-better-nurture

chynnydd ym metrigau deilliannau graddedigion [13]. Mae'r model hwn yn gosod cyflogwyr fel partneriaid gydol oes mewn addysg, gan olygu bod myfyrwyr yn llawer mwy parod ar gyfer y gweithlu.

### 4.1.2 Myfyrwyr yn gyd-grëwyr yn y camau cynnar o lunio cwricwla

Ystyrir bod cydweithredu cynnar â'r myfyrwyr wrth lunio cwricwla yn ffordd addawol o wneud addysg uwch yn fwy ymatebol, cynhwysol ac effeithiol [14, 15, 16]. Mae Healey (2016) yn honni bod cyfranogaeth gynnar gan fyfyrwyr yn arwain at gwricwlwm mwy dynamig a pherthnasol, gan hefyd wella ymgysylltiad y myfyrwyr, a gwella deilliannau dysgu a meithrin cymuned [16]. Mae manteision cynnwys y myfyrwyr yn y gwaith o lunio cwricwla yn cynnwys y posibilrwydd o wneud y ddynameg bŵer draddodiadol yn fwy meddal ac arwain at amgylcheddau addysgol mwy cynhwysol [15]. Mae'n hanfodol creu mannau lle mae myfyrwyr yn teimlo bod eu cyfraniadau'n cael eu gwerthfawrogi er mwyn i bartneriaethau llunio cwricwla rhwng myfyrwyr ac academyddion lwyddo [17]. Mae sefydlu nodau a rennir a sicrhau cyfathrebu clir yn cefnogi'r mentrau hyn.

O ran gweithredu, mae cynnwys myfyrwyr fel cyd-grëwyr yn y gwaith o lunio cwricwla a dysgu yn addysg uwch y DU yn arfer sy'n esblygu ac yn fwy uchelgeisiol nag y sylweddolir yn aml iawn [17, 18].

Nod nifer o sefydliadau yw sicrhau ymgysylltiad y myfyrwyr y tu hwnt i'w rolau cynrychioli traddodiadol, gan integreiddio eu hadborth a'u safbwyntiau i mewn i'r broses o lunio cwricwla [18]. Ymysg yr arferion nodedig a ddyfynnir gan MacNeil a Beetham (2022) y mae menter 'Llunio Cwricwla ar y Cyd' Prifysgol Brighton sy'n defnyddio gweithdai dwys i hyfforddi a chefnogi'r myfyrwyr yn y prosesau cydweithredol o wella cwricwla, a rhaglen 'Myfyrwyr yn Ymgynghori ar Gwricwla' Prifysgol Kingston Llundain, sy'n cynnwys y myfyrwyr yn y gwaith o greu cwricwla hygyrch a pherthnasol yn fyd-eang [18].

Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, nid yw ymgysylltiad cynhwysfawr myfyrwyr yn y camau cynnar o lunio cwricwla wedi ei ddatblygu'n ddigonol o hyd. Mae mentrau megis 'Myfyrwyr yn Gynhyrchwyr' Prifysgol Lincoln, 'Myfyrwyr yn Gyfryngau Newid' Prifysgol Caerwysg, a 'Myfyrwyr yn Gyd-grëwyr' Prifysgol San Steffan, a ddyfynnir hefyd gan MacNeil a Beetham (2022), yn tynnu sylw at yr ymdrechion parhaus i ddyfnhau cyfranogaeth y myfyrwyr [18].

Cefnogir partneriaethau llwyddiannus rhwng staff a myfyrwyr wrth lunio cwricwla gan arferion fel mentora, cymorth cymheiriaid ac ysgrifennu adfyfyriol, sy'n helpu'r myfyrwyr a'r staff i weithio eu ffordd drwy heriau cydweithio (Healey a Healey, 2019).

## 4.2 Llais y myfyrwyr a hyfforddiant i'r myfyrwyr

[13] Norton, S. a Dalrymple, R. (2021) 'Employability: breaking the mould - A case study compendium'. Advance HE, Efrog: www.advance-he.ac.uk/knowledge-hub/employability-breaking-mould

[14] Cook-Sather, A. (2020). 'Respecting voices: How the co-creation of teaching and learning can support academic staff, underrepresented students, and equitable practices'. *Higher Education*, 79, 885-901

[15] Healey, M., Flint, A., Harrington, K. (2016) 'Students as Partners: Reflections on a Conceptual Model', *Teaching and Learning Inquiry*, 4 (2): http://dx.doi.org/10.20343/10.20343/teachlearninqu.4.2.3

[16] Matthews, K. E. (2017). 'Five Propositions for Genuine Students as Partners Practice'. *International Journal for Students as Partners*, 1(2), 1-9: https://doi.org/10.15173/ijsap.v1i2.3315

[17] MacNeill, S. a Beetham, H (2022) 'Approaches to curriculum and learning design across UK higher education'. JISC a Prifysgolion y DU, Tachwedd 2022: www.jisc.ac.uk/reports/approaches-to-curriculum-and-learning-design-across-uk-higher-education

[18] Healey, M. a Healey, R (2019) 'Student Engagement through Partnership - A Guide and Update to the Advance HE Framework' (04), Advance HE: www.researchgate.net/profile/MickHealey/publication/338096919_Students_as_Partners_Guide_Student_Engagement_Through_Partnership_A_guide_to_the_Advance_HE_Framework/links/5e402bf2299bf1cdb91bd14b/Students-as-Partners-Guide-Student-Engagement-Through-Partnership-A-guide-to-the-Advance-HE-Framework.pdf

Roedd cyfranogaeth y myfyrwyr yn y prosesau dilysu a'r camau cynnar o lunio cwricwla'n dreiddiol a hefyd yn hollti barn. Roedd pobl yn ystyried y gyfranogaeth hon (yn ddigon anniddig yn aml iawn) yn anghenraid rheoliadol, ond hefyd yn werthfawr yn ei rhinwedd ei hun, ac roedd pawb bron yn ystyried bod angen rhoi mwy o gefnogaeth i hyn. Cyfeiriodd y myfyrwyr ac arweinwyr y myfyrwyr yn arbennig, at ddiffyg disgwyliadau a disgrifyddion rolau clir. Roedden nhw hefyd yn disgrifio arferion fel darlithwyr sy'n adnabyddus i fyfyrwyr unigol yn cyflwyno dogfennaeth gyflawn iddynt ond heb fawr ddim arweiniad ac ychydig iawn o amser cyn y dyddiadau cau ar gyfer panelau dilysu. Byddai'r arferion hyn, p'un a oedden nhw'n fwriadol ai peidio, yn debygol o leihau mewnbwn defnyddiol y myfyrwyr i'r broses o lunio cwricwla. Roedd nifer o'r staff yn pwysleisio'r amrywiaeth yn ymrwymiad a hyfforddiant y myfyrwyr neu eu profiadau fel aelodau panel, ac roedd rhai cyfranogwyr mewn colegau'n awgrymu efallai nad yw myfyrwyr sy'n astudio mewn amgylcheddau addysg uwch traddodiadol yn cyfrannu profiad dilys o gwbl.

Efallai fod un ateb i rai o'r anawsterau hyn i'w weld yn null recriwtio Prifysgol Abertawe i'w chymuned o adolygwyr sy'n fyfyrwyr; model lle mae deunyddiau recriwtio'n rhoi datganiadau cadarnhaol a chlir am werth ymgysylltiad y myfyrwyr mewn datblygu, cymeradwyo ac adolygu cwricwla, yn nodi ymrwymiadau i hyfforddi ac yn disgrifio'r meysydd neu'r gwaith [19]. Hefyd, mae defnydd recriwtio cychwynnol yn nodi sut mae cyfranogaeth yn y gymuned o adolygwyr sy'n fyfyrwyr yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar sgiliau'r myfyrwyr a'u parodrwydd ar gyfer gyrfa a'u hymgysylltiad yn eu dysgu sy'n cynnwys hyfforddi a mentora [20].

Ateb arall a gynigiwyd i ddechrau gan gyfranogwyr yn y grŵp myfyrwyr, ond a gafodd ei dreialu mewn cyfweliadau dilynol, oedd datblygu tîm Cymru-gyfan o adolygwyr sy'n fyfyrwyr. Er bod materion ymarferol wedi eu codi oedd yn ymwneud â datblygu seilwaith ar y cyd, gwelwyd bod y cysyniad hwn yn cynnig buddion i feysydd astudio lleiafrifol ac ar gyfer mathau o ddarpariaeth fel darpariaeth addysg uwch mewn colegau a chyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Nodwyd manteision o ran datblygu hyfforddiant o safon uwch.

Comisiynodd Cyngor Cyllido'r Alban brosiect ar gyfer partneriaethau gyda myfyrwyr wrth sicrhau a gwella ansawdd yn yr Alban [Student Partnerships in Quality Scotland (SPARQS)] i ddatblygu gwell model Profiad Dysgu Myfyriwr yn 2021 yn rhan o'i waith o ddatblygu dull cyfunol o sicrhau ansawdd addysg drydyddol mewn colegau a phrifysgolion. Mae gan y model, a lansiwyd ynghyd ag adnoddau hyfforddi ym mis Hydref 2023, naw bloc adeiladu sy'n adlewyrchu parthau sy'n ganolog i brofiad da'r myfyrwyr a deg cwestiwn ymhob un [20]. Mae agweddau o'r holl barthau'n berthnasol i'r cynllun rhaglen ar gyfer rhaglenni newydd neu gyfredol, ond mae'r parth llunio cwricwla'n sylfaenol i'r broses hon ac i ddilysiant. Am fod y model Profiad Dysgu Myfyriwr wedi ei integreiddio ar draws prifysgolion a cholegau addysg bellach yn yr Alban sy'n cynnig darpariaeth addysg uwch, gallai'r canlyniadau gwerthuso ddangos bod modd addasu'r dull hwn i'w ddefnyddio yng Nghymru a thrwy Gymru gyfan. Byddai ymestyn yr adnodd hyfforddi hwn i staff yn hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth o feysydd allweddol ac yn helpu i ddatblygu prosesau gwneud penderfyniadau dadansoddol ac ar y cyd sy'n well.

## 4.3 Agweddau craidd y prosesau dilysu a llunio cwricwla sy'n sicrhau gwelliant

Ystyriwyd fod cyfranogwyr yn y grwpiau o arbenigwyr allanol, rhanddeiliaid, cyflogwyr a myfyrwyr (pan oeddent yn cael eu hymgysylltu) yn hanfodol ac yn ychwanegu gwerth

---

[19] Prifysgol Abertawe (2024) Cymuned Adolygwyr Myfyrwyr. Gwe-dudalen: https://myuni.swansea.ac.uk/cy/cyfleoedd-myfyrwyr/cymuned-adolygwyr-myfyrwyr/#beth-y-byddaf-yn-ei-dderbyn-or-profiad=is-expanded

[20] Student partnerships in Quality Scotland (2023) 'Student Learning Experience (SLE) Model': www.sparqs.ac.uk/upfiles/SLE_model_digital_resource.pdf

i brosesau dilysu. Mewn trafodaethau am welliant, mae gwerth amlwg mewn defnyddio dogfennaeth rhaglen glir sy'n cofnodi trafodaethau cydweithredol ymhlith tîm y rhaglen a gweithredwyr allweddol, yn cynnwys pobl allanol. Roedd ymchwil cymharol yn ddefnyddiol hefyd am ei fod yn helpu i ddiffinio hunaniaeth y rhaglen a'i gynnig arbennig i fyfyrwyr. Dywedwyd hefyd fod dogfennau sy'n disgrifio'r dull asesu'n fanylach, gan bwysleisio ei amrywiaeth, ei addasrwydd i'r maes astudio a'i barodrwydd ar gyfer byd gwaith, yn ychwanegu gwerth gwella ochr yn ochr â data am ddeilliannau graddedigion, yn cynnwys cyflogadwyedd.

Fodd bynnag, barnwyd fod y pethau hyn yn hanfodol: dogfennaeth sy'n cysylltu deilliannau dysgu â darpariaeth ac asesiad, cofnodi trafodaethau gyda gweithredwyr allweddol, a defnyddio Datganiadau Meincnodi Pwnc QAA i fapio'r cynnwys yn erbyn safonau'r sector. Er nad oes amheuaeth mai'r dogfennau hyn yw sail gadarn prosesau dilysu yng Nghymru, mae'r sylwadau hyn a wnaed gan y grwpiau proffesiynol ym maes sicrhau ansawdd, yn codi cwestiynau ynglŷn â graddau'r ddealltwriaeth sydd gan y bobl hynny sy'n gweithio yn y maes dilysu yng Nghymru bob dydd o'r dull gwell o ddefnyddio data i gynllunio'n ystyriol er mwyn gwella profiadau dysgu'r myfyrwyr.

### 4.3.1 Defnyddio profiad y myfyrwyr yn fwy effeithiol

Roedd y myfyrwyr yn teimlo bod eu rolau'n allweddol mewn nifer o feysydd, yn cynnwys asesiad a chydlyniad y profiad dysgu. Cydnabuwyd eu harbenigedd mewn perthynas â hynny gan grwpiau eraill. Mae'r ymwybyddiaeth o brofiad ac arbenigedd y myfyrwyr wrth ystyried asesiad a thaith astudio'r myfyriwr yn adlewyrchu'n rhannol yr hyn sy'n hysbys am arddulliau dysgu newidiol y garfan fyfyrwyr gyfredol. Mae myfyrwyr 'Cenhedlaeth Z' (y rhai a aned rhwng 1997 a 2009) yn gwerthfawrogi mynediad ar unwaith at wybodaeth [21]. Maen nhw'n defnyddio nifer o wahanol dechnolegau ar yr un pryd i gefnogi eu prosesau dysgu ac yn disgwyl i'w prosesau prifysgol integreiddio cymorth dysgu a chymorth lles i mewn i'w dysgu craidd [22]. Ers eu geni, mae myfyrwyr 'Cenhedlaeth Z' wedi cael mynediad cyson a pharhaus at dechnoleg ddigidol ac, o ganlyniad, dywedir eu bod yn gyfforddus iawn yn defnyddio technolegau DA. Mae Chan a Lee (2023) yn dweud bod y myfyrwyr hyn yn gweld bod gan DA y potensial i wella eu heffeithiolrwydd, eu cysylltedd a'u mynediad at wybodaeth [22]. Yn ogystal, maen nhw'n ffafrio dysgu gweledol ac mae eu profiadau a'u sgiliau technolegol yn eu gwneud nhw'n llwyddiannus am ddatrys problemau cymhleth [23].

Roedd y meysydd hynny a gynigiwyd gan fyfyrwyr yn unig yn ymwneud â deall yr angen am gynllun cynhwysol i fyfyrwyr sydd ag anableddau a myfyrwyr niwroamrywiol. Mae'n amlwg fod potensial sylweddol nad oes neb wedi manteisio arno eto i ddefnyddio arbenigedd yr adolygwyr sy'n fyfyrwyr a'r arweinwyr myfyrwyr yn eu dysgu eu hunain yn fwy effeithiol i adeiladu strategaeth ac arweiniad penodol i bwnc a thrwy'r sefydliad i gyd.

## 4.4 Risgiau a manteision DA

Roedd nod eglur gan y prosiect i archwilio materion yn ymwneud â DA. Fodd bynnag, yn ystod y gwaith dadansoddi, dywedodd y tîm ei bod yn fwy defnyddiol ac yn fwy adlewyrchol o'i arferion i ystyried cyfraniadau DA yng nghyd-destun defnyddio prosesau dilysu fel cyfrwng i sicrhau gwelliant. Daeth dau brif faes i'r amlwg:

---

[21] Seemiller, C., a Grace, M. (2017). 'Generation Z: Educating and engaging the next generation of students'. *About Campus*, 22(3), 21-26

[22] Chan, C.K.Y., a Lee, K.K.W. (2023) 'The AI generation gap: Are Gen Z students more interested in adopting generative AI such as ChatGPT in teaching and learning than their Gen X and millennial generation teachers?'. *Smart Learning Environments* 10, 60.

[23] Bozkurt, A., Xiao, J., Lambert, S., et al (2023). 'Speculative futures on ChatGPT and generative Artificial Intelligence (AI): A collective reflection from the educational landscape'. *Asian Journal of Distance Education*, 18(1), 1-78: www.asianjde.com/ojs/index.php/AsianJDE/article/view/709/394

- Defnyddio dilysiad neu ailddilysiad i alinio rhaglenni ag amcanion sefydliadol mewn perthynas â chyflogadwyedd a defnyddio technoleg er budd addysgol gwell.
- Defnyddio DA mewn prosesau dilysu i ryddhau amser academyddion a rhanddeiliaid ar gyfer trafodaethau mwy creadigol am lunio rhaglenni.

Mae cyflwyniad rhaglenni fel ChatGPT, Microsoft Co-pilot a DALL-E ers 2022 wedi cipio ein dychymyg a hefyd wedi achosi dryswch mewn rhai meysydd [23]. Mae mabwysiadu'r rhaglenni hyn wedi sbarduno dadl mewn addysg am barodrwydd, moeseg, ymddiriedaeth a gwerth ychwanegol DA. Mae'r drafodaeth hon hefyd yn pwysleisio'r angen am lywodraethu, rheoliadau, ymchwilio a hyfforddiant i reoli gweddnewidiad cyflym ac eang addysgu a dysgu a achosir gan DA [24].

Roedd y cyfranogwyr yn y grŵp o academyddion a rhai o'r cofrestryddion a rheolwyr ansawdd yn gweithio i ddiogelu'r cwricwlwm ar gyfer y dyfodol er mwyn ymdrin â DA a'i harneisio, gan sicrhau y cedwir lefel briodol o her neu y gostyngir y lefel o her. Roedd chwant am adolygu addysgu ac asesiad yn ei gyfanrwydd wrth i'r goblygiadau ddod yn fwy eglur. I eraill, ac yn arbennig i gyrff y sector, mae'n ymddangos fod y cydbwysedd rhwng risgiau a buddion wedi bod yn wahanol, ac mai'r hyn sydd fwyaf pwysig yw'r pryderon am gywirdeb y broses ddysgu. Roedd hi'n amlwg hefyd bod darparu a defnyddio canllawiau traws-sefydliadol ynglŷn â beth yw defnydd derbyniol a moesegol o DA yn amrywio ar draws sefydliadau addysg uwch a cholegau sy'n darparu cyrsiau addysg uwch yng Nghymru.

Roedd cyfres o gyfweliadau a thrafodaethau dilynol â chyfranogwyr yn dangos bod DA yn cael ei ddefnyddio'n barod i drafod syniadau newydd a llenwi dogfennau dilysu o flaen llaw. Fodd bynnag, roedd pobl eraill, yn enwedig y rhai mewn swyddogaethau sicrhau ansawdd gweithredol, yn rhybuddio yn erbyn defnyddio DA i goladu achosion busnes - roedden nhw'n teimlo y byddai'n rhy hawdd gwneud gwallau. Nid oeddem wedi dod ar draws unrhyw dystiolaeth o ddefnydd eang o DA ar hyn o bryd wrth gynhyrchu dogfennaeth ar gyfer dilysu rhaglenni newydd ar draws addysg uwch y DU. Eithriad nodedig i hyn yw ym Mhrifysgol Abertawe lle defnyddir DA ar hyn o bryd i hyrwyddo creu drafftiau cynnar o'r ddogfennaeth rhaglen newydd i strwythuro a sbarduno trafodaeth gydweithredol gynnar mewn maes astudio penodol. Nid yw canlyniadau'r treial ar gael eto ond byddant o ddiddordeb sylweddol i bobl o ran y defnydd o DA ac o ran cefnogi cydweithio cynnar ar lunio cwricwla.

Fodd bynnag, mae tystiolaeth i ddangos bod DA yn cael ei ddefnyddio'n ehangach erbyn hyn mewn llunio cwricwla. Mae Prifysgol Dwyrain Llundain yn defnyddio DA i gynorthwyo gyda llunio oddeutu 250 o fodiwlau sy'n cael eu dilysu ar gyfer eu darparu i'w myfyrwyr sy'n astudio ar ei chyrsiau prentisiaeth gradd [25]. Gan ddechrau gyda deilliannau dysgu'r modiwl, mae'n asesu sut y gall DA cynhyrchiol "lenwi'r bylchau", er enghraifft drwy awgrymu testun ar gyfer rôl cyflogwyr wrth iddynt gefnogi prentisiaid i gwblhau modiwlau'n llwyddiannus.

Mae rhaglenni ac adnoddau i ymdrin â heriau DA mewn gwaith asesu'n dechrau cael eu datblygu a'u rhannu mewn mannau eraill. Er enghraifft, gan gydnabod bod angen i academyddion sicrhau bod eu hasesiadau'n parhau'n addas i'w pwrpas, cafodd y raddfa ar gyfer mesur risg deallusrwydd artiffisial ARMS (AI Risk Measure Scale) ei datblygu a'i threialu gan staff academaidd ar draws amrywiol raglenni ym Mhrifysgol Greenwich [26]. Mae hyn yn categoreiddio'r tasgau asesu i bum lefel, yn amrywio o risg isel iawn i risg uchel iawn ac yn blaenoriaethu meysydd lle mae angen gwneud asesiad i ddiogelu ar gyfer y dyfodol.

[24] Bond, M., Khosravi, H., De Laat, M. *et al.* 'A meta systematic review of artificial intelligence in higher education: a call for increased ethics, collaboration, and rigour'. *International Journal of Educational Technology in Higher Education* 21, 4 (2024): https://doi.org/10.1186/s41239-023-00436-z

[25] Prifysgol Dwyrain Llundain (2024) 'AI in degree apprenticeships'. Gwe-dudalennau: www.linkedin.com/pulse/ai-apprenticeship-curriculum-design-actual-examples-clark-hmqee/

[26] Prifysgol Greenwich (2024) 'The responsible use of Ai in teaching'. Gwe-dudalennau: www.gre.ac.uk/docs/rep/information-and-library-services/responsible-use-of-generative-ai-in-teaching-and-learning

Mae Prifysgol Greenwich yn annog datblygwyr cwricwla i ddefnyddio DA i gynhyrchu syniadau a drafftiau ar gyfer llunio cwricwla, amlinellu modiwlau, gwneud cynlluniau gwersi a datblygu gweithgareddau addysgu [27]. Mae llunio asesiadau fel cwisiau, pynciau ar gyfer prosiectau grŵp, ystyried cwestiynau traethawd ac arholiadau, a darparu atebion sampl ar wahanol lefelau oll yn feysydd lle caniateir defnyddio DA [27].

## 4.5 Darparu llwybrau addysgol rhanbarthol yng Nghymru

Parodd Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ac amcanion Medr gynnydd mewn ymwybyddiaeth o arloesi, yn enwedig mewn hyrwyddo cydweithrediad a llwybrau dysgu hyblyg rhanbarthol. Mae hyn wedi ei adlewyrchu'n aml yn yr iaith a ddefnyddir, gan dueddu i ailadrodd ymadroddion o'r Ddeddf neu, yn fwy diweddar, ddatganiadau strategol [1]. Yn gyffredinol, roedd y cyfranogwyr yn mynegi cefnogaeth gref i'r syniad bod sefydliadau addysg bellach ac uwch yn yr un rhanbarth yn cydweithio, gan gydnabod rôl hyn mewn cyflawni amcanion strategol megis gwella sgiliau'r gweithlu a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol. Fodd bynnag, cafodd heriau strwythurol, yn arbennig mewn perthynas ag ariannu ac yn benodol i'r model cystadleuol a ddefnyddiwyd, eu nodi fel rhwystrau i ymdrechion am bartneriaeth ddyfnach. Er bod mynd i'r afael â model ariannu cystadleuol ar gyfer addysg ôl-16 y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn, bydd angen cael strategaethau i liniaru'r heriau hyn yn yr ymdrechion i ddatblygu partneriaethau addysg uwch yng Nghymru.

Yn gyffredinol, mae trafodaethau am weithio mewn partneriaeth wedi canfod mwy o rwystrau na hyrwyddwyr. Y tu hwnt i gystadleuaeth wirioneddol a chystadleuaeth ganfyddedig, soniwyd yn aml fod amrywiadau mewn rheoliadau ac arferion sicrhau ansawdd ledled Cymru yn rhwystrau rhag cydweithio neu'n rhywbeth sy'n defnyddio gormod o adnoddau unwaith y mae partneriaethau wedi eu sefydlu. Disgwylir y bydd adroddiad prosiect cam 2 RhCC, sydd i gael ei gyflwyno ochr yn ochr â'r prosiect hwn, yn datgelu mwy o elfennau cyffredin mewn systemau, prosesau ac egwyddorion ym maes sicrhau ansawdd nad yr oedd ein canfyddiadau wedi eu hawgrymu ar y dechrau [4]. Tynnwyd sylw hefyd at heriau ychwanegol fel camalinio technolegol, dibyniaeth ar grwpiau staff bach a dyddiadau cychwyn academaidd gwahanol. O ystyried amlygrwydd materion yn ymwneud â chystadleuaeth, mae'n debyg bod yr heriau gweithredol hyn yn deillio o broblem danategol y model cyllido, sy'n tanseilio cymorth strategol mewn prifysgolion yng Nghymru.

[27] Prifysgol Greenwich (2024) 'The responsible use of Ai in teaching'. Gwe-dudalennau: www.gre.ac.uk/docs/rep/information-and-library-services/responsible-use-of-generative-ai-in-teaching-and-learning

# 5. Y casgliadau a'r argymhellion

## 5.1 Mae'r arferion dilysu cyfredol yng Nghymru'n ychwanegu gwerth gwella

Ar draws y sector addysg uwch yng Nghymru, dyma rai agweddau o'r prosesau dilysu cyfredol sydd â gwir werth yn nhermau gwella addysgu: cyfranogaeth rhanddeiliaid amrywiol, dogfennaeth gadarn, monitro parhaus a defnyddio dilysiant i sicrhau aliniad ag amcanion strategol a gwerthoedd. Mae cyflogadwyedd a defnyddio technoleg yn elfennau blaenllaw mewn trafodaethau strategol yn ystod dilysiant, ond mae dilysiant hefyd yn helpu i yrru agendâu cadarnhaol yn eu blaenau sy'n ymwneud â dwyieithrwydd, cynaliadwyedd, parch am amrywiaeth a dulliau addysgu arloesol.

Mae amrediad o elfennau'n hanfodol mewn gwella prosesau llunio a dilysu rhaglenni. Mae'r rhain yn cynnwys gweithredwyr fel arbenigwyr allanol, myfyrwyr, cyflogwyr, cyn-fyfyrwyr neu randdeiliaid a chyrff proffesiynol eraill. Mae arbenigwyr allanol yn cael eu gwerthfawrogi'n arbennig am eu mewnwelediadau am addysgu perthnasol i waith, tra bo myfyrwyr yn cynnig adborth gwerthfawr o safbwynt y dysgwyr, yn arbennig mewn perthynas ag asesiad, perthnasedd i waith a chydlyniad y rhaglen gyfan. Fodd bynnag, i gael cyfranogaeth effeithiol gan fyfyrwyr mae gofyn cael strwythurau cefnogi digonol, fel hyfforddiant a diffiniad rolau clir, er mwyn grymuso myfyrwyr i gyfrannu'n ystyrlon.

Yn ystod camau cyntaf y prosiect hwn, gofynnom i grwpiau o swyddogion sicrhau ansawdd a chofrestryddion a rheolwyr ansawdd ystyried pa ddogfennaeth ddaeth â gwerth gwelliant ychwanegol i brosesau dilysu a datblygu rhaglenni. Dywedwyd fod dogfennaeth rhaglen glir a rhesymegol, sy'n cofnodi'r rhyngweithio rhwng academyddion, arbenigwyr o fyd diwydiant ac arholwyr allanol yn hanfodol. Mae dogfennaeth o'r fath yn cynnwys manylebau rhaglenni a modiwlau, ffurflenni adolygu rhaglenni blynyddol, adroddiadau arholwyr allanol a llawlyfrau cyrff proffesiynol. Mae'n anodd nodi agweddau o welliant yn hytrach na chydymffurfiaeth â safonau'r sector yn yr ymatebion hyn. I'r gwrthwyneb, cafodd ymchwil cymharol am gyrsiau eraill, tystiolaeth o aliniad â strategaethau'r prifysgolion, a deilliannau graddedigion a chyflogadwyedd eu defnyddio'n glir fel data ychwanegol i wella profiad dysgu'r myfyrwyr.

### 5.1.2 Canllawiau i Gymru gyfan am ddefnydd priodol o DA sydd wedi eu seilio ar arferion sefydliadol

Roedd ffocws sylweddol yn yr ymchwil hwn am ystyriaethau yn ymwneud ag effaith DA ar ddysgu ac addysgu. Er bod teimlad o hyder ynghylch sefyllfa sefydliad cyfan mewn rhai achosion, roedd yr ymwybyddiaeth o ganllawiau sefydliadol yn gwahaniaethu ac, mewn rhai achosion, nid oedd canllawiau traws-brifysgol ar gael eto.

**Argymhelliad 1:** Mae Medr a QAA wrthi'n cyhoeddi eu canllawiau sefydliadol eu hunain er mwyn goruchwylio cynhyrchiad egwyddorion a chanllawiau Cymru gyfan i sefydliadau addysg bellach neu uwch ar ymgorffori trafodaeth am ddefnyddio DA mewn ffordd foesegol ac effeithiol i mewn i waith datblygu a dilysu rhaglenni.

**Argymhelliad 2:** Dylid ategu'r gwaith hwn gyda chanllaw arfer da ar sut i ddefnyddio DA wrth addysgu meysydd astudio penodol i bwnc y gallai sefydliadau gyflwyno eu harferion gorau eu hunain iddo.

### 5.1.3 Safoni hyfforddiant i fyfyrwyr ac egluro rolau

Un thema sy'n ailadrodd yw'r ffaith bod angen safoni hyfforddiant myfyrwyr a diffinio eu rolau'n glir yn y prosesau llunio a dilysu rhaglenni.

**Argymhelliad 3:** Gwahoddir consortiwm o gynrychiolwyr y sector i ddatblygu cynllun peilot ar gyfer hyfforddi myfyrwyr ledled Cymru yn seiliedig ar dystiolaeth o arferion gorau yn y sector addysg uwch yng Nghymru a systemau cymaradwy, yn cynnwys yr Alban.

**Argymhelliad 4:** Mae QAA Cymru'n cychwyn trafodaethau gyda sefydliadau am ddatblygu cronfa o fyfyrwyr ledled Cymru mewn meysydd astudio arbenigol neu mewn gwybodaeth arbennig am ddulliau darparu megis darpariaeth addysg uwch mewn colegau neu gyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg/dwyieithog.

### 5.1.4 Archwilio canfyddiadau'r sector am y dull gwelliant

Roedd ein cwestiwn 'cynhesu' cychwynnol am ddogfennaeth yn datgelu rhywfaint o gymysgu rhwng y ddealltwriaeth o 'wella' yng Nghymru a chydymffurfio sylfaenol gyda Chod Ansawdd Addysg Uwch y DU.

**Argymhelliad 5:** Gan ddefnyddio'r gyfres gyntaf o adroddiadau Adolygiad GA, mae QAA Cymru'n rhannu arferion da yn benodol mewn meysydd gwella ar draws y sector i hyrwyddo dealltwriaeth fwy eglur o'r defnydd a wneir o'r amrywiaeth o ddata i gynllunio'n fwriadol ar gyfer gwella dysgu myfyrwyr.

## 5.2 Trafodaethau cydweithredol cynnar

Mae trafodaethau cydweithredol cynnar sy'n cynnwys staff sicrhau ansawdd, myfyrwyr, academyddion, gwasanaethau proffesiynol a chyrff proffesiynol, lle bo'n berthnasol, yn hanfodol bwysig wrth lunio rhaglenni perthnasol a dichonadwy. Mae'r trafodaethau hyn yn hwyluso alinio dulliau addysgu ac asesu â strategaethau sefydliadol ehangach. Yn fwy penodol, defnyddir y trafodaethau cynnar hyn i archwilio a phrofi sut mae technolegau DA a thechnolegau eraill yn gallu cael eu hintegreiddio i raglenni perthnasol i waith. Mae'n hanfodol cynnwys myfyrwyr yng nghamau cynnar y broses hon, oherwydd mae hynny'n sicrhau bod rhaglenni nid yn unig yn drwyadl yn academaidd ond hefyd eu bod yn ymarferol ac yn berthnasol i anghenion y myfyrwyr.

### 5.2.1 Hwyluso trafodaethau cydweithredol cynnar

Er bod trafodaethau cydweithredol cynnar yn cael eu gwerthfawrogi ar draws sefydliadau, mae'n bosibl iddynt gael eu cyfyngu i bocedi o arferion da.

**Argymhelliad 6:** Datblygu rhestr wirio i Gymru gyfan ar sail y gwaith sy'n disgrifio sut mae cyfraniadau gweithredwyr mewnol ac allanol yn gallu gwella'r broses o lunio rhaglenni ac ar ba bwynt.

**Argymhelliad 7:** Yng Nghymru, mae sefydliadau addysg uwch a cholegau addysg bellach sy'n darparu cyrsiau addysg uwch yn gweithio i adnabod yn systematig ymyriadau sy'n cefnogi prosesau cydweithredol cynnar o lunio cwricwla, gan ganolbwyntio i ddechrau ar ddiwydiant ac ymgysylltiad myfyrwyr a defnyddio'r gwaith hwn fel adnodd cychwynnol. Gallai cynlluniau posibl gael eu gwerthuso yn erbyn meini prawf ansawdd i gynhyrchu compendiwm defnyddiol o arferion gorau.

## 5.3 Gweithio tuag at bartneriaethau rhanbarthol mwy cydweithredol rhwng sefydliadau addysg uwch a cholegau

Mae partneriaethau rhwng sefydliadau addysg uwch a cholegau'n hanfodol bwysig i gronni adnoddau a rhannu arbenigedd, yn enwedig mewn meysydd arbenigol ac mewn hyrwyddo darpariaeth ddwyieithog ledled Cymru. Maen nhw hefyd yn chwarae rôl hanfodol mewn ehangu mynediad i addysg uwch, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig ac wrth ymdrin â datblygiad rhanbarthol ac anghenion y cyflogwyr. Ystyrir bod maint y sector addysg uwch yng

Nghymru'n fanteisiol ar gyfer cydweithio, gyda phwyslais ar ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o'r dull o wella ar draws sefydliadau.

Ystyriwyd fod angen i bartneriaethau effeithiol rhwng sefydliadau addysg uwch a cholegau gael aliniad strategol, rannu cyfleusterau a bod â gwasanaethau cymorth y sefydliadau addysg uwch i gefnogi colegau partner. Mae'n hanfodol goresgyn y rhwystrau rhag cydweithio'n effeithiol, fel cystadleuaeth a gwrthwynebiad diwylliannol i rannu adnoddau, er mwyn meithrin amgylchedd addysgol mwy cydweithredol ac amrywiol. Mae'n hanfodol bod yn agored a gonest wrth ddiffinio rolau rhanbarthol a llwybrau i mewn i addysg uwch. Mae hynny'n wir hefyd ynghylch yr angen am ymgysylltiad ar lefel uwch mewn trafodaethau strategol yn ymwneud â chystadleuaeth bosibl a chystadleuaeth go iawn.

Yn gyffredinol, mae'r ymrwymiad ar y cyd i wella ansawdd rhaglenni a'r potensial cydweithredol yn y sector addysg uwch yng Nghymru'n darparu sylfaen gref ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hyn a meithrin amgylchedd addysgol mwy cydlynol ac effeithiol.

### 5.3.1 Meithrin diwylliant o gydweithredu rhwng addysg uwch ac addysg bellach

Cyrhaeddiad Medr, sy'n amcanu i hyrwyddo cydweithrediad ar draws y sector addysg drydyddol yng Nghymru ar gyfer datblygu'r addewidion am addysg ranbarthol ymhellach er mwyn cael effaith drawsnewidiol ar y sector. Un o'i dasgau mawr cyntaf fydd datblygu llwybrau clir i mewn i addysg uwch.

**Argymhelliad 8:** Mae partneriaethau rhanbarthol cyfredol rhwng sefydliadau addysg uwch a cholegau'n dechrau diffinio amrywiaeth o lwybrau dilys i fyfyrwyr sy'n arwain i mewn i addysg uwch fel bod y drafodaeth hon wedi ei harwain gan y sector ac wedi ei gwreiddio mewn gwybodaeth am y rhanbarth a galluoedd sefydliadol.

**Argymhelliad 9:** Mae materion cystadleuol a diwylliannol ehangach yn dylanwadu ar y gweithio mewn partneriaeth yng Nghymru. Dylid archwilio'r rhain yn fanylach drwy gyflawni mwy o waith ymchwil wedi'i gomisiynu.

**Argymhelliad 10:** O ystyried amlygrwydd y pryderon am gystadleuaeth o fewn ac ar draws rhanbarthau, dylai trafodaethau ar lefel uwch rhwng sefydliadau addysg uwch a cholegau partner ddefnyddio fforymau sy'n bodoli'n barod i flaenoriaethu ystyriaeth agored, wedi'i seilio ar dystiolaeth o gystadleuaeth bosibl a chystadleuaeth go iawn.

**Argymhelliad 11:** Mae staff addysg uwch sy'n darparu cymorth i adeiladu capasiti i staff colegau'n cael eu cydnabod a'u gwobrwyo am yr ymdrechion hyn.

**Argymhelliad 12:** Llunio rhestr o'r arferion gorau wrth weithio mewn partneriaeth (yn cynnwys wrth drosglwyddo credydau a chydnabod dysgu blaenorol) o'r astudiaeth hon drwy Gymru gyfan er mwyn cefnogi sefydliadau mewn partneriaethau wrth iddynt gydweithio.

## 5.4 Argymhellion eraill

### 5.4.1 Cydweithio rhwng gwasanaethau proffesiynol i gefnogi lles y myfyrwyr

Mae cydnabyddiaeth gynyddol o'r angen am gefnogaeth cymorth lles 24 awr gan arbenigwyr a mynediad at wasanaethau megis cymorth dysgu i fyfyrwyr niwroamrywiol. Lle mae modd cadw cyfrinachedd, efallai y bydd potensial i sefydliadau yng Nghymru gydweithio neu gefnogi adnoddau allanol er mwyn cynnig y gwasanaethau hyn, fel y gwelir enghreifftiau ohonynt yn yr adnodd 'Myf.Cymru' (https://myf.cymru/) am gymorth iechyd meddwl cyfrwng Cymraeg.

**Argymhelliad 13:** Mae sefydliadau addysg bellach ac uwch yn archwilio cydweithredu anacademaidd, yn cynnwys cymorth rhwng cymheiriaid a gwell adnoddau mewn meysydd sy'n cynnwys, ond sydd heb eu cyfyngu i, gymorth lles myfyrwyr a chymorth dysgu arbenigol.

### 5.4.2 Defnyddio arbenigedd a phrofiad y myfyrwyr mewn meysydd newydd

Mae myfyrwyr yn y sefyllfa orau i ddeall anghenion eu cymheiriaid sy'n dod i'r amlwg. Am eu bod wedi eu trochi yn y profiad dysgu, gallant o bosib gynnig safbwyntiau newydd lle nad oes ganddynt unrhyw ragdybiaethau blaenorol am flaenoriaethau ac atebion. Roedd y myfyrwyr a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon yn teimlo bod eu gwerth yn y broses o wella rhaglenni'n ymwneud yn rhannol â chodi materion cynhwysiant mewn perthynas â myfyrwyr sydd ag anableddau a myfyrwyr niwroamrywiol.

**Argymhelliad 14:** Mae sefydliadau addysg bellach ac uwch yn ystyried gweithio gyda'u hundebau myfyrwyr i ddeall patrymau astudio'r myfyrwyr cyfredol, eu dewis arddulliau astudio ac anghenion dysgu ac i'w cynnwys nhw mewn gweithgareddau ehangach i graffu'r gorwel mewn perthynas â thueddiadau mewn llunio cwricwla. Gallai'r gweithgareddau hyn arwain mewn amser at greu canllawiau wedi eu harwain gan fyfyrwyr a gynhyrchwyd mewn cydweithrediad â'r staff a'r rhanddeiliaid. Gallai meysydd penodol fel niwroamrywiaeth, arweinwyr y myfyrwyr a chynrychiolwyr y myfyrwyr wneud cyfraniad arbennig o ddefnyddiol.

### 5.4.3 Cyfyngiadau ar adnoddau ac amser y staff academaidd

Y pryderon sy'n amlwg yw'r rhai am gynyddu'r galw ar staff, ymysg y cyfyngiadau ar gyllidebau a diffyg personél newydd i gymryd lle rhai sy'n ymadael.

**Argymhelliad 15:** Mae sefydliadau'n ystyried cyflwyno cyfnodau sabothol bychain am welliant neu ddyraniadau i aelodau o'r staff sydd â chyfrifoldebau arweinyddiaeth addysgu, i archwilio datblygiadau perthnasol yn y gwaith o lunio cwricwla mewn meysydd astudio penodol ac arwain gweithgareddau dilysu ac ail-ddilysu, ar sail debyg i ddyraniadau ymchwil.

# Atodiad 1: Grid o Godau Samplu a Dadansoddi (26.07.2024)

**ALLWEDD**

**SA1** Sefydliad Academaidd 1 - Prifysgol draddodiadol mewn ardal wledig

**SA2** Sefydliad Academaidd 2 - Prifysgol draddodiadol mewn ardal wledig

**SA3** Sefydliad Academaidd 3 - Prifysgol ymchwil dwys mewn lleoliad trefol

**SA4** Sefydliad Academaidd 4 - Prifysgol ôl-92

**SA5** Sefydliad Academaidd 5 - Darparwr addysg o bell ac ar-lein

**SA6** Sefydliad Academaidd 6 - Prifysgol ymchwil dwys mewn lleoliad trefol

**SA7** Sefydliad Academaidd 7 - Prifysgol ôl-92

**SA8** Sefydliad Academaidd 8 - Prifysgol ôl-92

**SA9** Sefydliad Academaidd 9 - Prifysgol ôl-92

**SAP1** Sefydliad Academaidd Perthynol 1 - Darparwr Addysg Bellach Rhanbarthol

**SAP2** Sefydliad Academaidd Perthynol 2 - Darparwr Addysg Bellach Rhanbarthol

**SAT1** Sefydliad Academaidd Tramor 1 - Awstralia

**SAT2** Sefydliad Academaidd Tramor 2 - De Affrica

**SALl1** Sefydliad Academaidd yn Lloegr 1

**SALl2** Sefydliad Academaidd yn Lloegr 2

**RhC** Rhanddeiliaid a chyrff o bwys drwy'r DU gyfan

**Categorïau o grwpiau**

**GC** - Cofrestryddion neu weithwyr cyfatebol

**PA** - Pennaeth Ansawdd

**SC** - Staff Cynllunio (yn cynnwys y swyddogion sicrhau ansawdd wedi'u hail-ddynodi)

**CRh** - Cynigwyr rhaglenni (yn cynnwys aelodau uwch o'r staff academaidd a'r staff dysgu ac addysgu sydd â phrofiad academaidd)

**AM** - Adolygwyr sy'n fyfyrwyr ac sy'n ymwneud â dilysu rhaglenni

**AU** - Arweinwyr Undeb y Myfyrwyr